# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 17 HYDREF, 2023 am 1.00 o'r gloch yp** | **TUESDAY, 17 OCTOBER, 2023 at 1.00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-
**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John I Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**
**Sedd Wag/Vacant Seat - (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 19 Medi, 2023.

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL - GWASANAETH RHANBARTHOL CYNLLUNIO AT ARGYFWNG : 2022/2023** (Tudalennau 11 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

5 **ADRODDIAD BLYNYDDOL - BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL : 2022/2023** (Tudalennau 43 - 100)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

6 **STRATEGAETH CYFRANOGIAD CYHOEDDUS : 2023/2028** (Tudalennau 101 - 126)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

7 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 127 - 134)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 19 Medi 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, John Ifan Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams<br><br>Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig) (Aelod Cyfetholedig)<br>Mrs Gillian Thompson (Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd)<br><br>Y Cynghorydd Llinos Medi - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd<br><br>Y Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Gymraeg |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) (SOJ) (ar gyfer eitem 4 yn unig),<br>Rheolwr Sgriwtini,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Derek Owen |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio ar gyfer Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;<br>Y Cynghorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio ar gyfer Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer;<br>Y Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion;<br>Y Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd;<br>Y Cynghorydd Dafydd R Thomas – Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo;<br>Y Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Cyllid.<br><br>Y Cynghorwyr Dyfed W Jones a Keith Roberts (Aelodau o'r Panel Sgriwtini Addysg).<br><br>Mr Arwyn Thomas, Mrs Sharon Vaughan a Ms Gwenno Jones (Cynrychiolwyr GwE). |

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Gillian Thompson, sy'n cynrychioli Rhieni Lywodraethwyr – Sector Ysgolion Cynradd, i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor hwn.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Fel yr uchod.

## 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Dylan Rees ddiddordeb sy'n rhagfarnu yn Eitem 4, Ymgynghoriad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (Adolygiad o Ddarpariaeth Brys) a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar y mater.

Datganodd y Cynghorwyr Jeff Evans a John I. Jones ddiddordeb personol yn Eitem 4 – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023 yn gywir.

## 4 YMGYNGHORIAD GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU (ADOLYGIAD O DDARPARIAETH BRYS)

*(Gan fod Cadeirydd y Pwyllgor wedi datgan diddordeb sy'n rhagfarnu yn yr eitem hon, roedd yr Is-gadeirydd yn y Gadair ar gyfer yr eitem). Etholwyd y Cynghorydd Ken Taylor yn Is-gadeirydd ar gyfer yr eitem hon yn unig).*

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Is-gadeirydd yn y Gadair fod Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi rhoi cyflwyniad i Aelodau mewn Sesiwn Friffio ym mis Gorffennaf. Nododd fod y Prif Swyddog Tân wedi tynnu sylw at y cynigion a'r opsiynau yn y ddogfen ymgynghori mewn perthynas ag Adolygiad o Ddarpariaeth Brys. Nodwyd fod y Prif Swyddog Tân wedi darparu sylwadau ychwanegol yn dilyn cyhoeddi Rhaglen y cyfarfod hwn a bydd cyfle i'r Pwyllgor ymateb i'r sylwadau hynny.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr ymgynghoriad yn cyfeirio at Adolygiad o Ddarpariaeth Brys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a chyflwynwyd 3 Opsiwn i'w trafod ac ymgynghori arnynt, ynghyd â'r oblygiadau ariannol. Mae ymateb drafft ar ran y Cyngor ynghlwm i'r adroddiad. Dywedodd ei bod yn bwysig i'r Pwyllgor Sgriwtini gael cyfle i wneud sylwadau ar yr ymateb drafft. Ychwanegodd fod y mwyafrif o gyllid Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n cael ei dderbyn ar ffurf ardoll gan y chwe Awdurdod unedol yn yr ardal. Mae'r Cyngor yn cyfrannu at y gronfa gyfun hon, gyda'r cyfraniad yn seiliedig ar faint y boblogaeth. Byddai unrhyw newid yng nghyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n cael effaith ar yr ardoll a byddai'n creu pwysau ychwanegol ar gyllideb y Cyngor.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) fod y cyfnod ymgynghori ar gyfer ymateb i'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn dod i ben ddiwedd mis Medi. Nododd mai bwriad yr ymateb drafft i'r ymgynghoriad yw crynhoi'r prif bryderon y dymuna'r Cyngor eu hamlygu.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai Opsiwn 3 yn y ddogfen ymgynghori'n cael effaith ar yr Ynys ond ni fyddai'r ddau opsiwn arall yn cael effaith ar y gwasanaeth a ddarperir gan yr Awdurdod Tân ac Achub, ond byddai'n cael effaith ariannol ar yr awdurdodau lleol.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif materion canlynol:-

- Gofynnwyd a yw'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi ystyried adolygu ei gostau gweinyddu canolog er mwyn achub gwasanaethau rheng flaen. Dywedodd y Prif Weithredwr fod cwestiynau tebyg am dorri costau gweinyddol i achub gwasanaethau rheng flaen wedi'u gofyn y llynedd wrth osod yr ardoll. Nododd fod y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi lleihau costau gweinyddol canolog dros y blynyddoedd, yn debyg iawn i'r Awdurdod hwn. Ychwanegodd fod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi gweld yr ymateb drafft, yn dilyn cyhoeddi'r Rhaglen ar gyfer y Pwyllgor hwn, ac maent wedi darparu manylion i ddangos sut y bu iddynt dorri hyd at 10% oddi ar eu costau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae'n dangos hefyd fod costau canolog Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn is na chostau canolog unrhyw Awdurdod Tân arall yng Nghymru. Serch hynny, roedd y Prif Weithredwr o'r farn fod angen i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru edrych eto ar ei gostau gweinyddol canolog o ganlyniad i'r pwysau ariannol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151 fod cwestiynau tebyg ynghylch costau canolog wedi cael eu codi yn ystod cyfarfodydd rhwng Swyddogion Adran 151 chwe awdurdod lleol gogledd Cymru a Swyddogion Cyllid y Gwasanaeth Tân ac Achub. Nododd fod angen cynnal trafodaethau pellach gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub i ganfod a yw'r gymhariaeth o ran costau canolog gyda'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru yn un teg.
- Holwyd a yw ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad yn adlewyrchiad teg o safbwyntiau'r Cyngor. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr fod yr ymateb drafft yn ymateb gan swyddog i ddogfennau ymgynghori'r Awdurdod Tân ac Achub ac fe'i rannwyd yn anffurfiol gydag aelodau'r Pwyllgor Gwaith. Cadarnhaodd y Pwyllgor Gwaith y byddai'n briodol i'r ymateb drafft gael ei ystyried drwy'r broses Sgriwtini er mwyn atgyfnerthu a chryfhau'r ymateb drafft cychwynnol.
- Gofynnwyd a yw'r ymateb drafft i'r ymgynghoriad yn cynnwys unrhyw fylchau. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd angen i'r Cyngor adolygu a diweddaru'r ymateb i'r ymgynghoriad yn sgil derbyn gwybodaeth ychwanegol gan y Prif Swyddog Tân ac yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod hwn, yn ogystal â'r drafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 26 Medi. Dywedodd y gallai'r Awdurdod Tân ac Achub sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i adolygu ei gostau craidd, gyda'r Swyddogion Adran 151 yn bresennol.
- Gofynnwyd pam nad yw'r Ardoll Treth Gyngor ar gyfer yr Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei ddangos ar filiau Treth Gyngor. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y ddeddfwriaeth yn datgan nad yw Ardoll yr Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei ddangos ar filiau Treth Gyngor. Awgrymodd y gellid anfon llythyr at

Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt ailystyried y ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y ddeddfwriaeth yn pennu pwy sydd â'r hawl i godi praesept ar y Dreth Gyngor h.y. Awdurdod yr Heddlu a Chynghorau Tref a Chymuned; caniateir i'r Awdurdod Tân ac Achub godi ardoll ond nid yw deddfwriaeth Llywodraeth Cymru'n caniatáu i awdurdodau lleol ddangos yr ardoll ar filiau Treth Gyngor; mae'r ardoll yn cael ei dangos ar wefan y Cyngor ac ar y daflen sy'n cael ei chynnwys gyda'r biliau Treth Gyngor i ddangos sut mae'r Awdurdod yn gwario ei arian.

- Cyfeiriwyd at ymateb y Prif Swyddog Tân i'r ymateb drafft a baratowyd gan y Cyngor. Holwyd a fyddai'r dogfennau gerbron y Pwyllgor yn arwain at newid sylweddol yn ymateb y Cyngor ac a fyddai angen craffu ymhellach ar y dogfennau. Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Tîm Arweinyddiaeth wedi trafod yr ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a hynny oherwydd bod yr ymgynghoriad dan gyfyngiad amser, a phenderfynwyd ei bod yn bwysig rhoi cyfle i'r Pwyllgor Sgriwtini wneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith ynghylch yr ymateb drafft a baratowyd ar ran y Cyngor.
- Cyfeiriwyd at Opsiwn 3 yn y dogfennau, a'r opsiwn posib o gau'r Orsaf Dân ym Miwmares. Dywedodd y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Lleol ar gyfer Ward Seiriol, y credir y byddai'r opsiwn o gau'r Orsaf Dân ym Miwmares yn peryglu bywydau oherwydd gwytnwch y ddwy bont sy'n cael eu heffeithio gan amodau'r tywydd, ac oherwydd y cymunedau gwledig yn ne ddwyrain yr Ynys. Nododd fod llifogydd parhaus yn effeithio ar y rhwydwaith priffyrdd yn yr ardal. Ychwanegodd fod dau gartref gofal yn yr ardal. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r materion a godwyd yn cael eu nodi yn yr ymateb drafft.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Derbyn ymateb drafft cychwynnol y Cyngor fel y'i cyflwynwyd gyda'r adroddiad, yn amodol ar y canlynol:-**

- **Y dylai'r Tîm Arweinyddiaeth ystyried y wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd gan y Prif Swyddog Tân;**

  - **Cynnig y sylwadau a ganlyn i'r Tîm Arweinyddiaeth eu hystyried fel rhan o'r broses adolygu cyn cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 26 Medi 2023:-**

  - **Gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gynnal adolygiad o'u costau gweinyddol a chanolog fel sail ar gyfer gosod yr ardoll, gan ymgorffori mewnbwn Swyddogion Adran 151 yng ngogledd Cymru;**

  - **Gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried y dylid dangos yr ardoll a godir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub ar filiau Treth Gyngor ar gyfer preswylwyr lleol;**

- **Bod angen ystyried ffactorau o fewn Opsiwn 3 yn yr adroddiad, o ran gwytnwch y ddwy bont yn sgil amodau tywydd a chymunedau gwledig yn ne ddwyrain yr Ynys;**

- **Nodi fod oblygiadau ychwanegol o ran costau wedi'u cynnwys yn y tri Opsiwn a gyflwynwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.**

## 5 MATERION ADDYSG

- **Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer Ynys Môn : 2022/2023**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Gymraeg ei fod yn croesawu'r adroddiad a bod y cydweithio gyda GwE yn golygu fod y rhan fwyaf o ysgolion ar Ynys Môn yn perfformio'n dda.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod yr Awdurdod Lleol yn gweithio mewn partneriaeth agos ac effeithiol gyda GwE. GwE yw'r consortiwm addysg rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn er mwyn gwella ysgolion, rhannu arfer dda, gwybodaeth a sgiliau, cynyddu cryfderau lleol ac adeiladu capasiti. Nododd fod yr adroddiad yn cynnwys atodiadau ar Gynnydd ac Effaith mewn Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Arbennig; Cynnydd ac Effaith mewn Clystyrau Cynradd a Data ar Hyfforddiant a Chefnogaeth a ddarparwyd i Ynys Môn. Nodwyd blaenoriaethau i'w datblygu ymhellach yng nghynlluniau gwella ysgolion uwchradd, fel y nodir yn yr adroddiad.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif bwyntiau canlynol:-

- Gofynnwyd beth yw'r safonau yn ysgolion Môn ar hyn o bryd ac i ba raddau y mae gwaith GwE yn effeithio ar safonau yn ysgolion Môn? Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda chynrychiolwyr GwE i drafod safonau, dysgu ac addysgu ac arweinyddiaeth ym mhob ysgol, yn ogystal â materion eraill yn ôl y gofyn. Mae prosesau arfarnu'r ysgolion yn gwella ac mae rôl GwE'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth mewn ysgolion. Nododd fod gan bob ysgol gynllun cymorth sy'n seiliedig ar anghenion yr ysgol thrafodir cynnydd mewn perthynas â'r anghenion hynny yn yr ysgolion mewn cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr GwE. Ychwanegodd fod gan Gyrff Llywodraethu rôl hanfodol o ran prosesu gwybodaeth fanwl ynglŷn â safonau yn yr ysgolion. Cyfeiriodd Mrs Sharon Vaughan, Uwch Arweinydd GwE (Ysgolion Uwchradd), at y sector uwchradd a dywedodd fod GwE yn cyfarfod ag arweinwyr yr ysgolion i gefnogi a chynllunio gwelliannau yn yr ysgolion. Mae swyddogion yn ymweld â'r 5 ysgol uwchradd ar yr Ynys er mwyn mesur safonau yn yr ysgolion a gall hynny nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Cyfeiriodd Mrs Gwenno Jones, Uwch Arweinydd GwE (Ysgolion Cynradd), at y sector Cynradd a dywedodd fod y blaenoriaethau gwella yn yr

ysgolion cynradd yn cael eu harfarnu. Mae grwpiau o Benaethiaid yn cyfarfod yn rheolaidd, yn ogystal â staff ysgolion, i drafod y gwelliannau sydd eu hangen a rhannu arferion da ym mhob ysgol.

- Cyfeiriwyd at y cyfeiriad yn adroddiad Gwe bod *'cynhaliaeth ddwys wedi ei roi i un ysgol uwchradd ar yr ynys i geisio gwella ansawdd ac effeithiolrwydd uwch arweinyddiaeth. Maent yn parhau ar y daith wella ac yn parhau i dderbyn cefnogaeth ddwys. Yn yr ysgol hon, er bod meysydd datblygu yn cael eu hadnabod yn gywir, nid yw'r cynllunio ar gyfer gwelliant na'r diwylliant ar gyfer sicrhau gwelliannau ar y cyd yn ddigon grymus.'* Gofynnwyd a oedd hyn yn feirniadaeth deg a pha gamau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i wella'r sefyllfa yn yr ysgol. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod pob ysgol sy'n destun pryder yn derbyn cefnogaeth benodol a rhoddir cynllun cefnogaeth ddwys ar waith i edrych ar y meysydd y mae angen eu gwella. Ychwanegodd fod Bwrdd amlasiantaethol yn cael ei sefydlu ac mae'r ysgol yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella a nodwyd, gyda rhagor o gymorth yn cael ei roi ar waith wedi hynny os bydd angen. Amlygodd Mr Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, y prosesau y mae GwE wedi eu rhoi ar waith i gefnogi'r gwelliannau sydd eu hangen yn yr ysgol. Ychwanegodd y bydd angen rhoi prosesau eraill ar waith ar lefel ranbarthol os na welir unrhyw welliannau yn yr ysgol.
- Cyfeiriwyd at yr hinsawdd ariannol a phwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol yn y dyfodol. Gofynnwyd a fydd GwE yn edrych ar ei gostau canolog a gweinyddol er mwyn diogelu gwasanaethau rheng flaen i ysgolion. Dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE fod GwE wedi wynebu toriadau parhaus yn ei gyllidebau ariannol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Nododd y bu cefnogaeth gan GwE yn bwysig i'r Awdurdod o ran y gwelliant a welwyd yn ysgolion yr Ynys. Ychwanegodd fod Adroddiadau Arolygu Estyn wedi tynnu sylw at y gefnogaeth a roddwyd i'r Awdurdod gan GwE i wella gwasanaethau addysgol yn yr ysgolion. Dywedodd Mr Thomas hefyd fod GwE wedi ailstrwythuro sawl gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf i fynd i'r afael â heriau ariannol. Gallai cwtogi'r gwasanaeth a ddarperir gael effaith andwyol ar welliannau mewn ysgolion. Gofynnwyd cwestiynau pellach am p'un a fyddai GwE yn gallu fforddio'r gwasanaethau a ddarperir i'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd wrth i gyllidebau ariannol GwE gael eu torri? Dywedodd Mr Thomas y byddai asesiad risg yn cael ei gynnal i fynd i'r afael ag unrhyw doriad yn y gyllideb a gallai olygu fod GwE yn darparu llai o gefnogaeth i'r ysgolion.
- Holwyd beth yw'r prif heriau a wynebir gan ysgolion Môn, y Gwasanaeth Dysgu a GwE. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl ifanc mai'r prif heriau yw heriau cymdeithasol, heriau ymddygiad, presenoldeb, anghenion addysgol cymhleth, effaith covid, newid yn yr agwedd tuag at ddysgu a nododd fod yr heriau hyn yn rhai cenedlaethol. Ychwanegodd y bydd unrhyw doriadau ariannol pellach sy'n effeithio ar ysgolion yn creu heriau i'r ysgolion o ran staffio, ac o ran safonau yn y pendraw. Cynhelir trafodaethau gyda GwE i sicrhau fod unrhyw doriadau cyllidebol yn cael cyn lleied â phosib o effaith ar y gefnogaeth a ddarperir i ysgolion ar Ynys Môn.
- Gofynnwyd pam fod safonau iaith Gymraeg yn amrywio o un ysgol i'r llall ac a oes lle i wella? Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc

fod heriau'n bodoli ar lefel genedlaethol oherwydd sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn gwahanol ysgolion. Nododd fod gan bob tref a chymuned safbwyntiau gwahanol o ran defnyddio'r Gymraeg. Dywedodd fod Cynllun Strategol y Gymraeg ar waith gan yr Awdurdod i gwrdd ag uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Nododd fod yr ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg ac mae pob ysgol heblaw dwy wedi eu gosod yn y categori uchaf posib o ran yr iaith Gymraeg. Dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y bydd rhaid i bob ysgol gynradd baratoi cynllun pontio i'r sector uwchradd ac mae'n rhaid i'r Gymraeg fod yn ganolog i'r cynllun pontio hwnnw.

- Gofynnwyd sut mae modd i Gymorthyddion Dysgu dderbyn hyfforddiant a datblygiad gan nad yw eu contractau'n caniatáu amser digyswllt ar hyn o bryd. Dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE fod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i Gymorthyddion Addysgu Lefel Uwch (CALU) er mwyn iddynt ddarparu ar gyfer disgyblion sydd â gwahanol anghenion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod hyfforddiant yn cael ei ddarparu trwy raglen hyfforddiant yr Awdurdod Lleol ac mae'r CALU yn gallu ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad yn eu rôl ar lawr y dosbarth.
- Cyfeiriwyd at gyflwr adeiladau ysgol ac yn enwedig problemau'n ymwneud â choncrit RAAC a nodwyd mewn dwy ysgol uwchradd ar yr Ynys. Dywedodd y Prif Weithredwr fod adolygiad o adeiladau ysgol wedi'i gynnal bob blwyddyn ers 2020. Nododd fod problemau strwythurol oherwydd concrit RAAC wedi'u nodi mewn dwy ysgol a bod y ddwy ysgol wedi ymateb yn effeithiol i'r sefyllfa a'u bod yn rhoi gwahanol ddulliau dysgu ar waith. Nid yw'r broblem mor ddrwg yn Ysgol David Hughes o gymharu ag Ysgol Uwchradd Caergybi, ac mae atebion tymor canol a thymor hir yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ei fod yn dymuno diolch i staff y ddwy ysgol am sicrhau fod y disgyblion yn parhau i dderbyn addysg. Cynhaliwyd trafodaethau gydag Estyn, CBAC a GwE er mwyn sicrhau cefnogaeth ar gyfer y dysgu a'r addysgu yn yr ysgolion hyn.

**PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer Ynys Môn : 2022/23.**

- **Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg**

Cyflwynwyd – adroddiad cynnydd gan Gadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg.

Dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg, y Cynghorydd Gwilym O Jones, mai dyma drydydd adroddiad cynnydd y Panel ar gyfer y cyfnod Chwefror – Medi 2023. Nododd fod y Panel wedi cyfarfod ar saith achlysur yn ystod y cyfnod hwn, gan ystyried y materion canlynol:-

- Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru;
- Addysg Ddewisol yn y Cartref;
- Hunan-arfarnu – effaith gwaith y Panel Sgriwtini Addysg;
- Cynllun Strategol y Gymraeg : 2022-2032;
- Ysgolion a roddwyd mewn categori, ac a oedd angen dilyn i fyny gan Estyn neu gefnogaeth ychwanegol;

- Datblygu Cydweithio Effeithiol – edrych yn fanwl ar sut mae'r Gwasanaeth Dysgu'n creu'r amodau ar gyfer gwaith partneriaeth effeithiol;
- Model ar gyfer Sgriwtini Addysg – Siarter Sgriwtini Addysg;
- Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer Ynys Môn : 2022/2023;
- Rhaglen waith y Panel Sgriwtini ar gyfer y cyfnod Mai 2023 – Ebrill 2024

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ei fod yn gwerthfawrogi gwaith y Panel Sgriwtini Addysg a'i gefnogaeth i'r Gwasanaeth Addysg.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif bwyntiau canlynol:-

- Gofynnwyd pa feysydd eraill y dylai'r Panel graffu arnynt? Mewn ymateb, dywedodd Cadeirydd y Panel fod Rhaglen Waith wedi'i datblygu ac mae'r adroddiad yn cyfeirio at hynny. Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini y bydd y Panel yn canolbwyntio ar Iechyd Meddwl, Llesiant, Diogelu, Model Cydweithio Integredig, Cwricwlwm i Gymru, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cynhwysiant a Llais y Dysgwr.
- Cyfeiriwyd at Adroddiad Blynyddol GwE ac yn benodol at bresenoldeb ac absenoldebau mewn ysgolion, yn enwedig yn dilyn y pandemig. Gofynnwyd a ddylai'r Panel Sgriwtini Addysg ystyried absenoldebau mewn ysgolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod Swyddogion Llesiant a Swyddogion Cynhwysiant yn mynychu cyfarfodydd y Panel Sgriwtini Addysg ac mae eitem wedi'i chynnwys ar raglen waith y panel ym mis Ionawr 2024 i drafod presenoldeb ac absenoldebau mewn ysgolion.
- Nodwyd fod mwy o rieni'n dewis addysgu eu plant yn y cartref. Gofynnwyd a fyddai modd i'r Panel edrych ar y ddarpariaeth addysg yn y cartref. Dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg fod y Panel wedi ystyried addysg ddewisol yn y cartref ac y bydd yn parhau i fonitro'r mater.
- Gofynnwyd i ba raddau mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon â chyfeiriad gwaith y Panel? Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini fod gwaith y Panel Sgriwtini addysg wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol fel esiampl o arfer dda. Nododd fod y gwerth sy'n cael ei ychwanegu gan y broses sgriwtini yn y Panel Sgriwtini i'w weld yn yr adroddiadau cynnydd a gyflwynwyd i'r rhiant Bwyllgor.
- Gofynnwyd i ba raddau y mae'r Panel yn ymwybodol o'r safonau mewn ysgolion unigol a pha drefniadau monitro sydd ar waith? Mewn ymateb, dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg fod Swyddogion yn y Gwasanaeth Dysgu yn cyflwyno adroddiadau cynnydd i'r Panel Sgriwtini yn rheolaidd. Cynhelir trafodaethau manwl yn y Panel ac mae Swyddogion yn adrodd yn fanwl ar wahanol bynciau.
- Dywedodd Cadeirydd y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) fod y Panel Sgriwtini Addysg yn craffu ar addysg grefyddol a moeseg. Gofynnodd a ddylai'r Siarter Addysg gyfeirio at y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol pan fydd y Panel Sgriwtini yn trafod addysg grefyddol mewn ysgolion a gofynnodd a yw

hyn yn cael ei wneud mewn ardaloedd eraill. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y CYSAG yn bwysig i'r Gwasanaeth Dysgu. Dywedodd y byddai'n fuddiol trafod y CYSAG yn y Panel Sgriwtini Addysg.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod diwethaf o ran gwaith y Panel Sgriwtini Addysg;**
- **Fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran datblygu model sgriwtini ar gyfer materion addysg fel sail ar gyfer gwaith y Panel Sgriwtini Addysg a'r ddau bwyllgor rhiant.**

- **Siarter Sgriwtini Addysg**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a'r Chyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Gymraeg ei fod yn croesawu'r Siarter Sgriwtini Addysg sy'n amlinellu'r broses sgriwtini.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif faterion a ganlyn:-

- Gofynnwyd beth yw'r prif gymhelliant dros gynhyrchu Siarter Sgriwtini ar gyfer materion Addysg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mai'r prif gymhelliant dros lunio Siarter Sgriwtini ar gyfer Addysg yw creu proses sgriwtini effeithiol sy'n golygu bod y Panel Sgriwtini Addysg yn gallu herio a chefnogi'r Gwasanaeth Dysgu. Mae'r Siarter Sgriwtini Addysg hefyd yn ymateb i ofynion Estyn yn yr adroddiad ar yr arolwg diweddar o'r Gwasanaeth Dysgu.
- Gofynnwyd i ba raddau y mae goblygiadau ariannol yn effeithio ar weithredu'r Siarter? Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Sgriwtini nad oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm â gweithredu'r Siarter. Mae'r Siarter yn sylfaen i'r egwyddorion sgriwtini ar gyfer y Cyngor cyfan.
- Nodwyd fod cyflwyno Siarter fel sail i waith sgriwtini y Cyngor yn elfen ychwanegol yn y prosesau sy'n bodoli'n barod a gofynnwyd pa drefniadau sydd ar waith mewn awdurdodau lleol eraill? Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini fod datblygiadau eraill o ran cyflwyno Siarter Sgriwtini mewn awdurdodau eraill ond, serch hynny, byddant yn canolbwyntio ar wahanol flaenoriaethau yn eu hawdurdodau lleol.
- Nodwyd nad oes cyfeiriad at y Pwyllgor CYSAG yn y Siarter Sgriwtini Addysg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y bydd y CYSAG yn cael ei gynnwys yn y Siarter Sgriwtini Addysg.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cymeradwyo'r Siarter Sgriwtini Addysg fel sail ar gyfer craffu ar faterion addysg;**

- **Nodi’r nod o ddatblygu’r ddogfen maes o law fel Siarter Sgriwtini gyffredinol ar gyfer pob agwedd o’r gwaith sgriwtini a gyflawnir gan y Cyngor.**

## 6 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn amlinellu Blaen Raglen Waith ddangosol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2023/2024 er ystyriaeth.

**PENDERFYNWYD:-**

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **17 Hydref 2023** |
| **Pwnc:** | **Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCARh-CGC)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adroddiad Blynyddol 2022/23** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cynghorydd Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cynghorydd Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Helen Kilgannon, Rheolwr Rhanbarthol GCARh-CGC**<br><br>**Helen.Kilgannon@nwc-reps.org.uk**<br><br>**Susan Owen Jones, Rheolwr Gweithredol (TA)**<br><br>**SusanJones4@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i bob aelod** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| 1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnydd gwaith Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru yn ystod 2022/23. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| 2.1 Mae gan y Cyngor ddyletswyddau mewn perthynas â chynllunio ar gyfer argyfyngau ac ymateb iddynt o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Rheoliadau (Parodrwydd a Gwybodaeth Gyhoeddus) Argyfyngau Ymbelydrol 2001, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996.<br><br>2.2 Mae'r Cyngor yn brif ymatebydd ac mae'n cyflawni ei rwymedigaethau trwy gydweithio ag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru trwy Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCARh-CGC).<br><br>2.3 Mae'n ofynnol i Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r pwyllgor hwn trwy gyfrwng Adroddiad Blynyddol. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]** |

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

4.1 I ba raddau y gwnaeth Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru gyflawni ei swyddogaethau'n llawn yn ystod y flwyddyn ddinesig ddiwethaf?
4.2 Sut mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn cyfrannu at wytnwch a diogelwch cymunedau ar Ynys Môn?
4.3 Beth yw'r prif flaenoriaethau uniongyrchol ar gyfer y gwasanaeth er mwyn cefnogi'r Cyngor a Gogledd Cymru?
4.4 Beth yw'r prif risgiau a wynebir gan yr Ynys?
4.5 Pa mor barod yw'r Cyngor ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

5.1 Mae gan y Cyngor ddyletswyddau mewn perthynas â chynllunio ar gyfer argyfyngau ac ymateb iddynt o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Rheoliadau (Parodrwydd a Gwybodaeth Gyhoeddus) Argyfyngau Ymbelydrol 2001, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996.

5.2 Mae'r Cyngor yn brif ymatebydd ac mae'n cyflawni ei rwymedigaethau trwy gydweithio ag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru trwy Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCARh-CGC), a Chyngor Sir y Fflint yw'r awdurdod lletyol ar gyfer y gwasanaeth.

5.3 Yn dilyn ymgynghoriad a chadarnhad drwy'r broses wleidyddol ym mhob Awdurdod Lleol, yn 2014 unwyd swyddogaethau Cynllunio at Argyfwng y 6 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru i greu un gwasanaeth dan gytundeb rhyng-awdurdod a gynhelir gan Sir y Fflint.

5.4 O fewn y Cyngor, mae cyfrifoldebau am gynllunio at argyfyngau ac ymateb iddynt yn cael eu rhannu ymysg y gwasanaethau ac mae cynrychiolwyr gwasanaeth dynodedig yn cael eu nodi o fewn strwythur y Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng.

5.5 Er bod llawer o gynnydd wedi'i wneud, mae gwaith yn mynd rhagddo i atgyfnerthu ymhellach y dull o gyflawni'r gweithgareddau a ddarperir gan y gwasanaeth, yn arbennig trwy gryfhau trefniadau rheoli perfformiad a chyflwyno hyfforddiant. Bydd hyn yn caniatáu i'r gwasanaeth flaenoriaethu meysydd gwaith a dyrannu adnoddau yn fwy effeithiol, yn ogystal â sicrhau bod cynghorau'n manteisio'n llawn ar yr ystod o arbenigedd a geir o fewn y gwasanaeth

**Gweithgareddau Rhanbarthol**

5.6 Mae GCARh-CGC yn parhau i weithredu fel prif gyswllt rhwng y Cyngor a Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd, ac mae cyfraniadau staff y gwasanaeth yn annatod yng nghyswllt grwpiau amlasiantaethol, digwyddiadau, prosesau a chynlluniau. Parhau i gryfhau mae dilyniant wrth i gysylltiadau gael eu datblygu gyda phartneriaid allweddol. Rydym yn dilyn hyn i fyny trwy drefnu gweithdai gyda phartneriaid er mwyn caniatáu iddynt ddeall yn well yr hyn y mae'r Gwasanaeth, ac, yn bwysicach, y Cyngor, yn gyfrifol amdano yn ystod argyfwng.

5.7 Roedd staff GCARh-CGC yn allweddol wrth gynllunio a chynnal ymarfer yn ymwneud â bygythiad bom yn un o'r 3 prif ysbyty yng Ngogledd Cymru. Mae gwaith cynllunio'n mynd rhagddo i wneud hyn ar y ddau safle gofal sylfaenol arall. Gwahoddir staff y Cyngor i rannu'r dysgu a chymryd rhan yn y senario.

5.8 GCARh-CGC yw'r sefydliad arweiniol ar gyfer galw'r Sector Gwirfoddol i ddod allan mewn argyfwng. I sicrhau fod manylion cyswllt yn gyfredol, cynhaliwyd Ymarfer galw allan yn seiliedig ar Senario ym mis Gorffennaf. Rhannwyd canlyniadau Ymarfer Vargo gyda'r Sector Gwirfoddol ac mae gwaith dilynol yn mynd rhagddo i sicrhau fod y manylion yn gywir.

5.9 Mae GCARh-CGC yn parhau i ddarparu cefnogaeth tu allan i oriau i awdurdodau lleol a gwasanaethau brys mewn ymateb i ymholiadau a digwyddiadau 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. I brofi ymatebion mewn awdurdodau lleol mae'r Gwasanaeth Rhanbarthol yn cynnal Ymarfer Cooper bob chwarter i brofi'r manylion cyswllt sydd gennym ac argaeledd staff allweddol tu allan i oriau. Rhennir y canlyniadau gyda'r Bwrdd yn chwarterol.

5.10 Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, gan edrych ar nifer o gyrsiau hyfforddiant, megis Hyfforddiant i Gofnodwyr (*Loggist)*, ac mae asesiad o anghenion hyfforddi ar gyfer partneriaid wedi cael ei rannu â'r Cyngor er mwyn ei adolygu a'i gwblhau i sicrhau ein bod yn cynnig cyrsiau sy'n diwallu anghenion staff. Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i flaenoriaethu meysydd gwaith a dyrannu adnoddau'n effeithiol a bydd hefyd yn sicrhau fod y Cyngor yn manteisio'n llawn ar amrediad yr arbenigedd o fewn y gwasanaeth.

5.11 Mae GCARh-CGC wedi trefnu nifer o weithdai addysgiadol gyda siaradwyr gwadd a oedd yn ganolog i'r ymateb a arweiniwyd gan awdurdodau lleol i'r digwyddiadau canlynol:

- Yr Ymosodiad ar Arena Manceinion

- Tân ym Mhencadlys De Swydd Rhydychen
- Yr Ymosodiad Novichok yn Salisbury
- Terfysgoedd Tottenham

Bydd hyn yn rhoi cyfle i staff y Cyngor weld beth yw goblygiadau digwyddiadau ac elwa o glywed eu myfyrdodau ar y digwyddiad a'u hymateb.

5.12 Yn y cyfarfod diwethaf, nodwyd fod y gwasanaeth yn ystyried defnyddio'r System Rheoli Perfformiad 'In Phase' a brynwyd gan yr awdurdod lletyol (Cyngor Sir y Fflint). Er bod treialon cynnar wedi'u cynnal, gwelwyd nifer o newidiadau staffio yn yr awdurdod lletyol ac yn y gwasanaeth gan arwain at oedi yn y gwaith o gyflwyno'r system. Cyflwynir adroddiad diweddaru yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gweithredol.

**Gweithgareddau o fewn y Cyngor**

5.13 Mae'r strwythur Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng o fewn y Cyngor yn hwyluso'r gwaith o gydlynu digwyddiadau sydd ag oblygiadau Parhad Busnes i'r awdurdod. Bydd y Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng yn cydlynu'r ymateb i unrhyw ddigwyddiadau amlasiantaethol ar ran y Cyngor.

5.14 Mae'r Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng yn darparu mecanwaith cadarn ar gyfer darparu swyddogaethau cynllunio ac ymateb. Mae timau'n cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r trefniadau sydd ar waith a nodi unrhyw weithgareddau yn y dyfodol. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn goruchwylio'r gwaith.

5.15 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol yn cefnogi'r Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng trwy gynrychioli Awdurdodau Lleol yn y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth a'r is-grwpiau. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol yn cynorthwyo'r awdurdod trwy ysgrifennu, ymarfer a phrofi cynlluniau argyfwng fel y manylir isod.

5.16 Ar 21 Hydref 2022, argymhellodd arbenigwyr peirianneg strwythurol a oedd yn cynrychioli UK Highways bod Llywodraeth Cymru'n cau'r A5 dros Bont y Borth i bob math o draffig, gan gynnwys cerddwyr a beicwyr. Byddai hyn yn caniatáu i waith dros dro gael ei wneud yn ystod y misoedd i ddilyn. Yn sgil hynny, cyfarfu'r Grŵp Cydlynu Tactegol bob mis hyd nes ail-agorwyd y bont yn rhannol ym mis Chwefror 2023. Roedd cynrychiolwyr o Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd hyn. Roeddent yn cynnig eu safbwyntiau ar sut i ymdrin â digwyddiad mawr gan roi eu cefnogaeth i gynghorau Môn a Gwynedd yn ystod y cyfnod ymateb a'r sesiwn ddilynol i adolygu'r gwersi a ddysgwyd.

5.17 Ail-afaelodd y gweithgor cynllunio at argyfwng yn ei weithgareddau ar 12 Medi 2022, pan gynhaliwyd y cyfarfod agoriadol. I gychwyn roedd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob mis, ond, o fis Ionawr 2023, roedd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter. Prif gyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau effeithiolrwydd strategaethau cynllunio at argyfwng a pharhad busnes y Cynghorau, a thrwy hynny reoli risgiau allweddol ar ran y Tîm Arweinyddiaeth (TA). Roedd rôl GCARh-CGC yn hanfodol wrth ailsefydlu'r grŵp a chymryd rhan yn y trafodaethau.

5.18 Ym mis Tachwedd 2022, cyflwynodd GCARh-CGC dempled parhad busnes newydd ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth. Roedd y templed yn mynd law yn llaw â fframwaith newydd. Roedd hyn y dilyn misoedd o waith datblygu trwy ddilyn cwrs y Coleg Cynllunio Argyfwng ac ymgynghori â Chynghorau Caerdydd a Swydd Gaerloyw mewn perthynas ag arferion gorau. I gynorthwyo rheolwyr gwasanaeth i ddeall swyddogaethau'r templed a'u helpu i addasu i'r diwyg newydd, cynhaliodd GCARh-CGC nifer o sesiynau ymgynefino. Mae'r cynlluniau wedi eu cwblhau yn awr. Bydd y cam nesaf yn cynnwys profi ac ymarfer y cynlluniau gyda'r gwasanaethau perthnasol.

5.19 Mae'r gwasanaeth wedi datblygu nifer o gyrsiau e-ddysgu y gall staff Ynys Môn gofrestru arnynt ac maent ar gael i staff yn awr. Mae'r cyrsiau'n cynnwys dysgu am ganolfannau gorffwys, rolau mewn digwyddiad a rôl aelodau mewn argyfwng.

5.20 Cyfrannodd GCARh-CGC at y gwaith o gasglu tystiolaeth ynghylch gwytnwch a pharodrwydd yr awdurdod lleol ar gyfer y pandemig fel rhan o'r ymchwiliad COVID-19 sy'n mynd rhagddo. Roedd Modiwl 1 yr ymchwiliad COVID-19 yn canolbwyntio ar archwilio gwytnwch a pharodrwydd y DU ar gyfer pandemig coronafeirws. Fel rhan o'r gwaith o gefnogi'r Cyngor, cynorthwyodd y Gwasanaeth Rhanbarthol i gasglu data, adroddiadau a dogfennau perthnasol sy'n tystio i barodrwydd ac ymateb Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru i'r pandemig. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau mewnol, cofnodion cyfathrebu, cynlluniau gweithredu a mwy.

5.21 Ar 12 Gorffennaf 2022, trefnodd GCARh-CGC ymarfer canolfan orffwys unigryw yng Nghanolfan Hamdden Caergybi. Roedd yr ymarfer yn unigryw gan ei fod yn profi nid yn unig y gweithdrefnau safonol ar gyfer canolfannau gorffwys ond hefyd cynllun a ddatblygwyd yn arbennig i ymateb i fewnlifiad posib o geiswyr lloches o Wcráin. Cyfrannodd y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, Heddlu Gogledd Cymru a Llu'r Ffiniau at yr ymarfer. Sicrhaodd eu cyfraniad fod yr ymarfer yn seiliedig ar senarios realistig, bod yr ymatebion yn cael eu cydlynu gan nifer o asiantaethau a bod sylw digonol yn cael ei roi i safbwyntiau asiantaethau gorfodi'r gyfraith a rheoli ffiniau. Rhoddodd yr ymarfer ddealltwriaeth a phrofiad gwerthfawr i'r rheiny a gymerodd ran, a fyddai'n eu cynorthwyo i ymateb yn fwy effeithiol i argyfwng go iawn. Cafwyd ymateb da i'r ymarfer, gan ddangos fod y fenter yn cael ei hystyried fel un werthfawr a llwyddiannus.

5.22 Ar hyn o bryd mae GCARh-CGC yn datblygu ymarfer byw yng nghanolfan hamdden Rhyl a gynhelir ddechrau'r flwyddyn nesaf. Bydd cynrychiolwyr o Gyngor Sir Ynys Môn yn cymryd rhan, gan arsylwi'r ymarfer er mwyn dysgu sgiliau ymarferol y gellir eu defnyddio mewn digwyddiad. Cynhelir yr ymarfer ar Ynys Môn yn y dyfodol hefyd.

5.23 Ym mis Mawrth 2023, effeithiodd Storm Larisa ar Ogledd Cymru, gydag eira trwm yn creu anawsterau i deithwyr ac yn gorfodi ysgolion i gau. Roedd darogan y byddai'r tymheredd yn disgyn i -11°C, a chyhoeddodd y Swyddfa Dywydd rybudd melyn am rew. Sefydlwyd Grwpiau Cydlynu Tactegol yn ystod yr wythnos cyn y storm ac roedd staff o'r Gwasanaeth Rhanbarthol, yn ogystal â staff o Gyngor Sir Ynys Môn, yn bresennol i sicrhau fod paratoadau digonol yn cael eu gwneud.

5.24 Cyfraniad blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn i'r gwasanaeth yw £61,844. Mae'r cyfraniad yn seiliedig ar gyfran o 10.472% tuag at gyllideb flynyddol y gwasanaeth.

| Awdurdod | Cyfraniad Blynyddol % |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 10.472% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 16.940% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 14.865% |
| Cyngor Sir y Fflint | 19.348% |
| Cyngor Gwynedd | 17.979% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 20.396% |
| Cyfanswm | 100% |

**6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Amherthnasol

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Amherthnasol

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Amherthnasol

**7 – Goblygiadau Ariannol**

7.1 Nid yw'r adroddiad yn nodi unrhyw oblygiadau ariannol penodol i'r Cyngor.
7.2 Cyfraniad blynyddol y Cyngor i'r gwasanaeth yw £61,844

**8 – Atodiadau**

8.1 Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru – Adroddiad Blynyddol 2022/2023
8.2 Ymateb i argyfwng: Llawlyfr i Aelodau Etholedig

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**





# Adroddiad Blynyddol 2022/23

Dyma adroddiad blynyddol Cynghorau Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol - Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer blwyddyn 2022-2023. Mae'n cynnwys y gwaith a wnaed gan GCARh-CGC ar draws y chwe awdurdod lleol yn y rhanbarth, ynghyd â'r gweithgareddau aml-asiantaeth a wnaed i gefnogi Fforwm Cydnerth Gogledd Cymru.



## Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau

ymholiadau@gcar-cgc.org.uk
01352 702124

## Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCARh-CGC)

Mae Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cydweithio mewn partneriaeth ers sefydlu'r Gwasanaeth Cynllunio At Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru. Ers 2014 mae'r Gwasanaeth wedi cyflawni swyddogaethau'r Cynghorau o ran argyfyngau sifil posibl ac mae'n atebol i Fwrdd Gweithredol sy'n cynnwys uwch swyddogion o'r Cynghorau hyn. Mae GCARh – CGC yn darparu gwasanaeth i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, 2004
- Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr, 2015
- Rheoliadau Diogelwch Piblinellau, 1996
- Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth i'r Cyhoedd), 2019



**Mae'r Gwasanaeth yn:**

- Lleihau dyblygu ac ailadrodd tasgau
- Gwella'r arfer o gysoni'r gwaith a gwytnwch y timau
- Gwella'r defnydd o'r adnoddau sydd ar gael drwy rannu cefnogaeth arbenigol a thasgau cyffredin
- Gwella cysondeb o ran ymateb rhwng awdurdodau
- Gwella sianeli cyfathrebu rhwng Fforwm Cydnerth Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol

**Adolygu Perfformiad**

Roedd nodau ac amcanion 2022-2023 yn cynnwys:

- Dylunio a chyflawni ymarfer Canolfan Orffwys i sefydlu'r Cynllun Canolfan Orffwys newydd
- Adolygu gweithdrefnau ymateb Awdurdod Lleol a chreu'r trefniadau Argyfwng Mawr
- Adolygu ac ail-ddylunio'r Templed Parhad Busnes cyn ei gyflwyno
- Datblygu a gweithredu'r system rheoli perfformiad, InPhase



Cyflwynwyd yr ymarfer Canolfan Orffwys ar draws 8 safle ac roedd cynrychiolwyr o'r chwe awdurdod lleol yn bresennol gyda dros 90 o bobl yn bresennol i gyd. Isod fe welwch gip ar yr adborth cyffredinol a gafwyd yn dilyn yr ymarferion.

| Beth aeth yn dda? | Beth oedd ddim cystal? | A allwch chi nodi unrhyw fater sydd angen sylw yn eich gweithdrefnau canolfan orffwys |
|---|---|---|
| Deall rolau a chyfrifoldebau. Mae'r rhain wedi'u nodi'n glir yn y cynllun ymateb i argyfwng | Cynnydd annisgwyl o ran niferoedd | Sicrhau bod gan bob unigolyn fynediad i restrau a Chyfeiriadur Cysylltiadau mewn Argyfwng |
| Trafodaeth ddefnyddiol am sefyllfaoedd | Pa adnoddau sydd ar gael ym mhob canolfan hamdden ac ar gyfer darparu os ydyn nhw'n cael eu defnyddio am gyfnodau hir | Sicrhau bod rhestr glir o nifer y canolfannau gorffwys, risgiau a phroblemau |
| Braf oedd cael cyfarfod gwirfoddolwyr eraill - rhoi wynebau i enwau | Cludiant a diogelwch | Trefniadau talu |
| Gallu elwa o brofiad eraill a gwybod bod y gefnogaeth ar gael gan eraill | Dim adnoddau dros nos | Angen gwirio'r rhestr o gludiant |
| Eglurder - Rheolau, Prosesau, Systemau | Dim dirprwyon a staff o adrannau eraill e.e. Tai a chynrychiolwyr eraill | Mynediad Tu Allan i Oriau |
| Gallu gweld llety / lle'r Ganolfan Orffwys | Angen diweddaru'r bocs | Diogelwch |
| Cyflwyniad / sleidiau da | Cyfyngiad iaith ar y cychwyn | Pa gyfleusterau sydd ar gael yn y canolfannau |
| Mae'r Staff Cynllunio at Argyfwng yn gefnogol iawn | Wrth drafod Bocs y Ganolfan Orffwys, tynnwch y cynnwys allan i ddangos i bawb ar yr un pryd | Nifer y canolfannau gorffwys yn lleihau oherwydd defnydd o'r gampfa - a oes angen i ni ddefnyddio mwy o ofod ysgol |
| Braf oedd cael dod at ein gilydd a siarad am weithdrefnau | Amgylchedd dysgu anodd - tymheredd, sŵn | Byddai cymorth Cyfeiriadur Cefnogwyr Cymunedol yn ddefnyddiol |
| Cyfle i wrando ar wirfoddolwyr mwy profiadol | Nid oes modd defnyddio fan hyn fel Canolfan Orffwys. | Ffoaduriaid wedi'u dadleoli - Swyddog Adsefydlu i gysylltu - rhwystr iaith |

Mae'r Trefniadau Argyfwng Mawr wedi'u rhoi ar waith ym mhob un o'r 6 ardal awdurdod lleol ac mae'r tîm wrthi'n gweithio ar ymarferion er mwyn profi'r sefydlu.

Mae'r Templed Parhad Busnes wedi cael ei gyflwyno ac yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Yn dilyn y gwaith hwn, bydd profion sefydlu a phrofion sefyllfa yn cael eu cynnal.

Mae datblygiad a gweithrediad InPhase yn parhau. Mae sawl rhwystr wedi codi oherwydd newidiadau i staff yn Sir y Fflint a GCARh-CGC sydd wedi amharu ar gynnydd. Rydym yn y broses o gysylltu'n uniongyrchol ag Inphase a byddwn yn adeiladu'r systemau i ddiwallu anghenion y gwasanaeth yn y 12 mis nesaf.

## Rheoli Digwyddiadau

Mae GCARh-CGC yn darparu Swyddog ar Ddyletswydd 24/7 drwy gydol y flwyddyn i weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymateb i argyfwng.



**Yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23, bu i GCARh-CGC gynorthwyo yn y rôl hon drwy:**

- **Dderbyn ac asesu rhybuddion a hysbysiadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru:**
    - 84 Hysbysiad o Lifogydd Cymunedol
    - 249 Hysbysiad o Lifogydd
    - 4 Rhybudd Llifogydd Cymunedol
    - 4 Rhybudd Llifogydd
    - 8 Rhybudd Cynnar
- **Derbyn ac asesu Rhybuddion Tywydd y Swyddfa Dywydd:**
    - Gwynedd = 70 (67 melyn / 3 oren)
    - Conwy = 69 (65 melyn / 4 oren)
    - Ynys Môn = 48 (46 melyn / 2 oren)
    - Sir Ddinbych = 68 (61 melyn / 7 oren)
    - Sir y Fflint = 64 (57 melyn / 7 oren)
    - Wrecsam = 67 (60 melyn / 7 oren)



- **Derbyn ac ymateb i adroddiadau o ddigwyddiad a oedd yn cynnwys:**
  - Hysbysiad Gwahardd posib mewn safle sy'n lletya ffoaduriaid yn Sir Ddinbych
  - Canolfannau Croeso i Ffoaduriaid o Wcráin ar draws Gogledd Cymru
  - Llyncdwll Posib - Mawrth 2023 - Wrecsam
  - Ymgyrch 'Blue Overlax' - Canolfan Ffoaduriaid Conwy
  - Ymgyrch 'Blue Opacify' - Cau Pont Menai
  - Ymgyrch 'Blue Shoebox' - Storm Larissa - Mawrth 2023
  - Adroddiad Pobl ar Goll yn Sir Ddinbych
  - Gweithredu Diwydiannol (Streiciau)



**Gweithio gyda'n Gilydd**

- Sefydlu'r Cynllun Canolfan Orffwys gyda hyfforddiant rhanbarthol
- Cyflwyno'r Cynlluniau Rheoli Parhad Busnes i'r Bwrdd Gweithredol er mwyn eu cymeradwyo
- Hyrwyddo digwyddiadau hyfforddiant Fforwm Cydnerth Gogledd Cymru gydag awdurdodau lleol
- Cwblhau modiwlau e-ddysgu dwyieithog



## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

### Gwaith a gynhaliwyd yn ystod 2022 - 2023

- Cyflwynwyd y Cynllun Rhanbarthol Trefniadau Argyfwng Mawr ac ysgogodd adolygiad o'r fframwaith ymateb brys. Yn dilyn hyn, cymeradwywyd y cynllun a'r fframwaith gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth
- Cynhaliwyd asesiadau o effaith pwysau'r gaeaf a thoriadau pŵer. Cafodd y sefyllfa genedlaethol ei monitro a rhoddwyd briffiau / diweddariadau i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth
- Cefnogwyd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a darparwyd tystiolaeth ar gyfer ymateb Conwy i Fodiwl 1 o Ymchwiliad Covid-19
- Rhoddwyd cefnogaeth yn grwpiau Cynghori Diogelwch a hefyd y Grŵp Parodrwydd Diogelwch - mae'r cysyniad o fannau cyhoeddus fel targedau posibl yn cael ei chydnabod gan y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch ac mae'n rhan o'r broses asesu risg. Mae trefnwyr digwyddiadau a staff yn ymwybodol o effeithiau posibl ynglŷn â Chyfraith Martyn
- Partneriaeth Llifogydd Cymunedol Morfa Rhuddlan - Y prif ffocws oedd ymgynghori â'r amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae gwaith yn parhau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Thrwyddedu ynglŷn â threfniadau gwacau'r meysydd carafanau
- Partneriaeth Llifogydd Dyffryn Conwy - Bydd ymateb Dyffryn Conwy i lifogydd yn cyd-fynd â chanlyniadau'r adolygiadau o Gynllun Tywydd Garw Fforwm Gydnerth y Gogledd / Cynllun Llifogydd Aml-asiantaeth / Cynllun Safle Rheoli, a mentrau gwytnwch cymunedol ehangach. Mae Swyddog Arweiniol y GCARh-CGC ar gyfer Conwy yn mynychu ar gyfarfodydd Grŵp Tywydd Garw'r Fforwm i gynorthwyo â datblygu'r Cynllun Tywydd Garw
- Addaswyd y Cynllun Canolfan Orffwys Mewn Argyfwng i adlewyrchu strwythurau gwasanaeth Conwy a chafodd ei gymeradwyo. Roedd y staff perthnasol yn bresennol mewn ymarferiad yng Nghanolfan Hamdden Abergele i gynorthwyo gyda sefydlu'r Cynllun
- Datblygwyd pecynnau e-ddysgu Argyfyngau Sifil Posibl gan GCARh-CGC ac maent wedi'u cynnwys yn rhaglenni datblygu staff y Cyngor
- YMARFERIAD 'BARDIC LLIF' - Sefyllfa ddychmygol am lifogydd mawr yng ngogledd Cymru a effeithiodd ar y DU gyfan, gan ddihysbyddu'r holl adnoddau a threfniadau cydfuddiannol. Bu GCARh-CGC a staff perthnasol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cymryd rhan gan gysylltu gyda'r fyddin i ddarparu'r ymateb priodol i'r ymarfer deuddydd
- InPhase - Cafodd ffrydiau gwaith a thasgau o gynllun gwaith Conwy eu cynnwys yn y fframwaith rheoli perfformiad er mwyn treialu'r system
- Ymarferiad 'Mighty Oak' - Roedd Swyddog Arweiniol Conwy'n bresennol fel arsylwr yn yr ymarferiad tri diwrnod ddiwedd mis Mawrth ac roedd yn cefnogi'r datblygiad am gamau adfer ac ymateb cenedlaethol i doriadau pŵer cenedlaethol. Roedd Cadeirydd y Grŵp Swyddogion Newid Hinsawdd a'r Rheolwr Perygl Llifogydd Cynorthwyol yn bresennol ar gyfer un diwrnod o'r ymarfer

### Gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2023-2024

- Adolygu trefniadau a Rheoli Parhad Busnes
- Cadeirydd Gweithgor Partneriaeth Llifogydd Dyffryn Conwy i adolygu'r trefniadau ar gyfer yr ymateb amlasiantaeth a chymunedol i lifogydd
- Adolygu cynlluniau llygredd arfordirol
- Adolygu cofrestr risg cynllunio at argyfwng a phenderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn
- Datblygu a gweithredu rhaglen hyfforddiant ac ymarfer ar argyfyngau sifil posibl ar gyfer yr uwch dîm arweinyddiaeth
- Cefnogi'r Ymchwiliad Covid-19 parhaus
- Darparu cefnogaeth a chyngor ynglŷn â chyflwyno Cyfraith Martyn a'r effaith ar yr Awdurdod Lleol a threfnwyr digwyddiadau hamdden
- Cysylltu gyda Dŵr Cymru a phennu protocolau a lleoliadau dosbarthu dŵr mewn argyfwng

## Cyngor Sir Ynys Môn

### Gwaith a gynhaliwyd yn ystod 2022 - 2023

- Ymgyrch 'Blue Opacify' - Cau Pont Menai - ar 12fed o Fedi 2022, bu i arbenigwyr ar beirianneg strwythurol, a oedd yn gweithio ar ran Priffyrdd y DU, gynghori Llywodraeth Cymru i gau Pont Menai i bob traffig a beicwyr / cerddwyr er mwyn cwblhau gwaith dros dro dros y misoedd canlynol. Fe arweiniodd hyn at gyfarfodydd TCG misol nes ailagor y bont yn rhannol ym mis Chwefror. Roedd y GCARh-CGC yn bresennol ym mhob cyfarfod. Darparodd y GCARh-CGC ei safbwynt ynglŷn â sut y gallai ymateb i ddigwyddiad mawr gan gefnogi Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn gyda'u hymateb ac yn dilyn sesiwn am y gwersi a ddysgwyd
- Daeth y Gweithgor Cynllunio at Argyfwng ynghyd Ar 12fed o Orffennaf 2022 er mwyn cynnal ei gyfarfod cyntaf. Cynhaliwyd y cyfarfodydd bob mis i ddechrau, cyn newid i bob  chwarter o fis Ionawr 2023. Mae'r grŵp yn sicrhau bod trefniadau cynllunio at argyfwng a threfniadau parhad busnes y Cyngor yn effeithiol, gan reoli risgiau allweddol ar ran y Tîm Arwain Strategol. Cynorthwyodd y GCARh-CGC ag ail-sefydlu'r grŵp a chyfrannu at y trafodaethau, yn cynnwys cyflwyno eu templed parhad busnes. Cynhaliwyd sesiynau cynefino gyda rheolwyr gwasanaeth, a oedd yn egluro swyddogaethau'r templed, ac yn cynorthwyo ag addasu i'r fformat newydd
- Ar 12fed o Orffennaf 2022 cynhaliodd y GCARh-CGC ymarferiad canolfan orffwys yng Nghanolfan Hamdden Caergybi fel rhan o daith ymarfer ranbarthol. Roedd o'n gwerthuso gweithdrefnau safonol y ganolfan orffwys a'r cynllun ar gyfer ymateb i'r posibilrwydd o ffoaduriaid o Wcrain yn dod draw o Iwerddon. Roedd yr ymarferiad yn cynnwys Fforwm Gydnerth y Gogledd, Heddlu Gogledd Cymru, a Llu'r Ffiniau, ac roedd staff canolfannau hamdden a'r gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn bresennol, ac fe gafwyd adborth cadarnhaol
- Mae'r holl gynlluniau parhad busnes lefel gwasanaeth yn seiliedig ar y templed newydd yn awr wedi cael eu dychwelyd ac yn aros am gymeradwyaeth
- Diweddarwyd Llawlyfr Argyfwng yr Aelodau
- Gwellhawyd trefniadau rheoli'r cyfeiriadur cysylltiadau mewn argyfwng
- Ymarferiad 'Mighty Oak' - mynychwyd yr ymarfer toriadau pŵer ar y trydydd diwrnod gan y Rheolwr Gweithredol ac roedd y Swyddog Cynllunio at Argyfwng yn bresennol ar y diwrnod cyntaf





- Cefnogwyd y Rheolwr Gweithredol a darparwyd tystiolaeth a gasglwyd gan y GCARh-CGC ar gyfer ymateb Modiwl 1 yr Ymchwiliad Covid-19

### Gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2023-2024

- Mae'r holl gyrsiau e-ddysgu yn awr ar gael, bydd cofnodion dysgu yn cael eu hintegreiddio â'r matrics hyfforddiant GCARh-CGC
- Cynnydd o ran defnyddwyr Resilience Direct oherwydd y cynlluniau newydd a diwygiedig sydd ar gael
- Mae gweithredu gwirfoddoli corfforaethol yn cael ei ystyried gan yr uwch dîmarweinyddiaeth
- Gweithio ar y camau gweithredu a'r heriau a godwyd gan Mighty Oak

## Cyngor Gwynedd

**Gwaith a gynhaliwyd yn ystod 2022 - 2023**

- Sefydlwyd pedwar is-grŵp o fewn y Panel Strategol, sydd wedi datblygu aelodaeth ac sy'n cyfarfod yn rheolaidd i sefydlu eu Gweithgorau
- Cymeradwywyd y Trefniadau Argyfwng Mawr gan y Panel Strategol ac maent yn awr yn cael eu sefydlu
- Cafodd y Cynllun Canolfan Orffwys mewn Argyfwng ei sefydlu a'i ymarfer ar 3 safle yng Ngwynedd ac fe gafwyd adborth cadarnhaol
- Crëwyd strwythur ar-alw sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yma wrth ymateb i ddigwyddiadau a chynnal gwytnwch
- Cafwyd trafodaeth bwrdd gwaith ar golli pŵer
- Mae'r templedi parhad gwasanaeth newydd yn awr wedi cael eu cymeradwyo ac maent yn barod i'w cyflwyno ac mae'n rhaid nodi unrhyw anghenion o ran hyfforddiant
- Adolygwyd y Cyfeiriadur Cysylltiadau yn dilyn Ymarferiad Cooper
- Ymarferiad 'Mighty Oak' - Roedd Pennaeth Iechyd a Diogelwch Gwynedd yn bresennol fel arsylwr yn yr ymarferiad 3 diwrnod a gynhaliwyd ar ddiwedd mis Mawrth
- Mae trefnwyr digwyddiadau a staff yn awr yn ymwybodol o Gyfraith Martyn - caiff y cysyniad bod mannau cyhoeddus yn dargedau posibl ei gydnabod gan y Grwpiau Cynghori ar Ddiogelwch ac mae'n rhan o'r broses asesu risg

**Gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2023-2024**

- Hyfforddiant ar drefniadau wrth gefn ar gyfer haf 2023
- Ymarferiad i'w threfnu ym mis Rhagfyr 2023
- Darparu cefnogaeth ac arweiniad yng nghyfarfodydd yr is-grwpiau
- Cyflwyno'r gwaith sefydlu a'r cynlluniau parhad busnes newydd wedi'u cyfieithu
- Nodi unrhyw hyfforddiant sydd ei angen yn dilyn cyflwyno'r cynlluniau parhad busnes
- Hyfforddiant canolfannau orffwys i'w gynnal mewn lleoliadau amrywiol





## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

### Gwaith a gynhaliwyd yn ystod 2022 - 2023

- Cymeradwyodd y Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng y Trefniadau Argyfwng Mawr
- Cymeradwywyd y Cardiau Camau Adfer gan y Tîm Adfer
- Sefydlwyd ac arferwyd y Cynllun Canolfan Orffwys mewn Argyfwng ar 10 Awst 2022
- Mae pecynnau E-ddysgu yn awr yn fyw ac ar gael i'r Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng
- Cwblhawyd gwaith toriadau trydan yn ystod y gaeaf yn cynnwys mapio adeiladau'r Cyngor gyda diwrnodau ac amseroedd posib ar gyfer toriadau trydan a rhannu dogfennau cyfathrebu. Daeth y gwaith hwn i ben gydag ymarferiad i Dîm Ymateb a Rheoli Argyfwng
- Darparwyd cefnogaeth gyda'r Ymchwiliad Covid-19 yn cynnwys dod â thystiolaeth ynghyd ar gyfer y modiwlau
- Diweddarwyd y Cyfeiriadur Cysylltiadau Mewn Argyfwng a gwnaed yr addasiadau angenrheidiol yn dilyn Ymarferiad Cooper a gwybodaeth gan gydweithwyr yn Wrecsam
- Adolygwyd Resilience Direct i sicrhau bod y dogfennau a gedwir yn gyfredol a chaiff mynediad ei adolygu'n rheolaidd gyda'r sesiwn gynefino a gynigir i ddefnyddwyr newydd
- Cymeradwywyd templed y Cynllun Parhad Busnes / Parhad Gwasanaeth. Rhoddir cymorth i lenwi'r dogfennau
- Cyfrannwyd at ymarfer Pecyn Amheus BIPBC, gan ddarparu cyngor, arweiniad a mewnbwn (cafodd hwn ei ganslo ar ôl hyn ond bydd yn cael ei gynnal ym mis Medi 2023)
- YMARFERIAD 'BARDIC LLIF' - sefyllfa ddychmygol am lifogydd mawr yng ngogledd Cymru a effeithiodd ar y DU gyfan, gan ddihysbyddu'r holl adnoddau lleol a chydfuddiannol. Bu i'r GCARh-CGC a staff perthnasol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gymryd rhan a chysylltu gyda'r fyddin i ddarparu'r ymateb priodol i'r ymarfer deuddydd



### Gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2023-2024

- Sefydlu cynlluniau gwaith i bob Grŵp Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng
- Trosglwyddo Cynlluniau Parhad Busnes / Gwasanaeth i dempledi newydd ac ymarferion bach i brofi bob cynllun
- Cynnal ymarferion adfer bach yn dilyn yr ymarferion parhad gwasanaeth
- Cynnig hyfforddiant ar gyfer staff Canolfannau Gorffwys nad oedd wedi mynychu'r ymarfer y llynedd
- Adolygu trefniadau adfer y GCARh-CGC a chyflwyno unrhyw dempledi / dysg newydd i'r grŵp Adfer yn Wrecsam
- Cefnogi'r Grwpiau Diogelwch Ymgynghorol
- Gwaith o amgylch sefydlu'r Bil Terfysgaeth (Amddiffyn Eiddo) (Cyfraith Martyn) pan fo'r ddeddfwriaeth wedi'i chwblhau. Mae gwybodaeth ddrafft yn cael ei rhannu ar hyn o bryd



## Cyngor Sir Ddinbych

**Gwaith a gynhaliwyd yn ystod 2022 - 2023**

- Yn dilyn Covid-19, ail-sefydlwyd y Strwythur Cynllunio at Argyfwng sydd yn awr yn cyfarfod yn rheolaidd bob chwarter

- **Mae'r GCARh-CGC wedi cefnogi Sir Ddinbych mewn sawl gweithgaredd, megis:**
  - Recriwtio a hyfforddi swyddogion cofnodi newydd sydd yn awr yn barod i roi cefnogaeth mewn digwyddiadau
  - Darparu cefnogaeth gyda'r Ymchwiliad Covid-19 yn cynnwys dod â thystiolaeth ynghyd ar gyfer y modiwlau

- **Eleni, mae llawer iawn o gynlluniau a gweithdrefnau wedi cael eu diwygio, eu cymeradwyo ac maent wrthi'n cael eu sefydlu ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cynnwys:**
  - Y Trefniadau Argyfwng Mawr
  - Cynllun Canolfan Orffwys mewn Argyfwng
  - Cymeradwywyd y Cynllun Parhad Busnes rhanbarthol ac mae yn awr yn barod i'w weithredu
  - Datblygu a chymeradwyo cofnodydd a gweithdrefn gofnodi bersonol

- **Mae nifer o sesiynau hyfforddi hynod boblogaidd wedi cael eu cynnal:**
  - Cynhaliwyd sesiynau briffio Cynghorwyr Sir ar Gynllunio at Argyfwng ym mis Medi 2022
  - Sesiynau briffio Aelodau Arweiniol ar Gynllunio at Argyfwng
  - Mae llawer o wirfoddolwyr canolfannau gorffwys newydd wedi cael eu recriwtio ac fe arweiniodd hyn at Ymarfer Canolfan Orffwys hynod boblogaidd a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2022
  - Cyflwynwyd cyfres gynhwysfawr o becynnau e-ddysgu ar draws y timau Rheoli Argyfwng Strategol





**Gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2023-2024**

- Sesiwn hyfforddiant Aur
- Ymarferiad byw yn y ganolfan orffwys
- Cyflwyno Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion newydd
- Profi'r Trefniadau Argyfwng Mawr
- Gweithredu a phrofi'r Cynllun Parhad Busnes newydd

## Cyngor Sir y Fflint

### Gwaith a gynhaliwyd yn ystod 2022 - 2023

- Hyrwyddwyd safle Resilience Direct ymysg Aelodau'r Timau Argyfwng
- Cymeradwywyd dogfen Trefniadau Argyfwng Mawr newydd y Cyngor
- Hyfforddiant Cofnodwyr - cynhaliwyd hyfforddiant dilynol yng nghyfarfodydd timau argyfwng i gofnodwyr a oedd wedi cwblhau hyfforddiant cofnodwyr Fforwm Gydnerth y Gogledd a hefyd y modiwl GCARh-CGC i gofnodwyr e-ddysgu
- Gefnogaeth GCARh-CGC i'r Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng gyda'r ymateb i Ffoaduriaid o Wcrain.
- Fe aeth swyddogion i gymryd rhan mewn Ymarferiad Masnachu Mewn Pobl a Marwolaethau ar Raddfa Fawr ym Mhorthladd Caergybi ar 6 Medi 2022
- Sefydlwyd y Cynllun Canolfan Orffwys mewn Argyfwng yn dilyn yr ymarferiad Canolfan Orffwys ar ar 21ain o Dachwedd 2022
- Ymgysylltwyd â'r Grŵp Diogelwch Amddiffynnol a Pharodrwydd a hyrwyddo deddfwriaeth arfaethedig - Cyfraith Martyn
- Cymryd rhan swyddogol yn y Grŵp Ymgynghorol ar gyfer Diogelwch
- Storm Larissa - Dangosodd y GCARh-CGC gefnogaeth i'r Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng am gamu ymlaen a rheoli ymateb i achos o eira
- Roedd dau swyddog yn bresennol yn ymarferiad toriadau pŵer cenedlaethol Mighty Oak
- Hyrwyddwyd y risg o doriadau pŵer yn ystod y gaeaf a dogfen drosolwg GCARh-CGC gysylltiedig i'r Tîm Parhad Busnes a'r Tîm Prif Swyddogion
- Adolygiad o'r Cynllun Cludiant Brys gan y Tîm Gweithrediadau
- Cwblhawyd rôl y Tîm Gweithrediadau yng Nghynllun Dosbarthu Poteli Dŵr mewn Argyfwng y Fforwm Gydnerth y Gogledd (nodi a pharatoi meysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor ar gyfer dosbarthu poteli dŵr)
- Gweithdy gyda'r Tîm Parhad Busnes - Ymwybyddiaeth Meddalwedd Gwystlo - 16eg o Fawrth 2023





### Gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024

- Bydd y Tîm Cymorth Dyngarol yn cynnal ymarfer Canolfan Orffwys dilynol yn yr hydref ar gyfer y tîm
- Sefydlu Cynllun Marwolaethau ar Raddfa Eang a rôl y Tîm Gweithrediadau Argyfwng
- Cefnogi'r timau argyfwng gyda'r gwaith dilynol o'r Adroddiad Ôl-drafod ar Storm Larissa a'r Cynllun Gweithredu Digwyddiadau
- Cynllun Llygredd Arfordirol
- Cefnogaeth i liniaru effeithiau ymosodiad seiber gyda'r Tîm Parhad Busnes
- Cefnogaeth gyda chynlluniau Ceiswyr Lloches

## Gwaith Niwclear a Phibellau

### Gwaith a gynhaliwyd yn ystod 2022 - 2023

- Darparwyd cefnogaeth i Gynghorau Gwynedd a Môn ar ymgynghoriad cenedlaethol gan Awdurdod Digomisiynu Niwclear
- Ymgysylltwyd â'r Tîm Amddiffyn Niwclear o fewn BEIS, sy'n cefnogi diwygiad i'r cynllun gwybodaeth rhanbarthol - Gwybodaeth yr Awdurdod Lleol i'r Cyhoedd Os Bydd Argyfwng Radiolegol
- Grŵp yr Amgylchedd: Cymerwyd rhan yn y Grŵp Tasg a Gorffen Damwain (Cerbyd) Batris Lithiwm newydd
- Digomisiynwyd Cynllun at Argyfwng Oddi ar y Safle Warwick Chemicals Cyngor Sir y Fflint (Mostyn)



### Gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2023-2024

- Mynychu yn ymarferiad cynllun at argyfwng oddi ar y safle URENCO, a gynhelir gan gyd-Dîm Cynllunio at Argyfwng Swydd Gaer
- Cwblhau adroddiad ôl-drafodaeth ymarfer Kronospan (y Waun), i ddod â gwaith ymarfer argyfwng amlasiantaeth 2022 i ben
- Datblygu a chyflawni rhaglen fodiwlaidd ymarfer argyfwng Great Bear ac FMC Agro, a diwygio / ail-gyflwyno eu cynlluniau argyfwng oddi ar y safle
- Datblygu a chyflawni ymarfer canolfan rheoli argyfwng ar safle Synthite
- Cefnogi Adran Gynllunio Cyngor Sir y Fflint gydag ymateb y cyngor i'r cais ar gyfer y biblinell Carbon Deuocsid Gogledd-orllewin HyNet arfaethedig



## Dysgu a Datblygu

### Gwaith a gynhaliwyd yn ystod 2022 - 2023

### JESIP

(Joint Emergency Services Interoperability Principles/ Cyd-Egwyddorion Rhyngweithredu'r Gwasanaethau Brys)

Mae'r GCARh-CGC yn aelod pwysig o grŵp cynllunio a darparu JESIP ac yn cynorthwyo i hwyluso pecynnau Gweithredol a Thactegol.

### Ymarferion Canolfannau Gorffwys

Yn dilyn cyflwyniad llwyddiannus y Cynllun Canolfan Orffwys newydd, roedd angen ei ymarfer er mwyn ei sefydlu ym mhob awdurdod lleol. Trefnwyd yr ymarferion o fewn lleoliadau Canolfannau Gorffwys dynodedig ar draws Gogledd Cymru. Dechreuodd yr Ymarferion gyda chyflwyniad gan Gydlynydd y Fforwm Gydnerth y Gogledd ar rôl y Fforwm yn ystod argyfyngau. Yna, cyflwyniad gan Heddlu Gogledd Cymru ac un gan y GCARh-CGC cyn edrych ar yr ymarferion yn seiliedig ar y ganolfan. Roedd yr ymarfer yn caniatáu i gyfranogwyr drafod materion y gallen nhw eu hwynebu wrth redeg Canolfan Orffwys.



Yn dilyn yr Ymarferion, amlygwyd camau gweithredu ar gyfer pob Swyddog Arweiniol ac maent yn gweithio gyda chydweithwyr o fewn eu hawdurdodau lleol i gwblhau'r camau gweithredu hyn a pharatoi os bydd angen Canolfan Orffwys.

### Ymarferion / Hyfforddiant Fforwm Cydnerth Gogledd Cymru / Asiantaethau Eraill:

- JESIP - Gweithredol
- JESIP Tactegol / Arian Cymru
- Ymarfer Toriadau Pŵer
- Ymchwiliad Cyhoeddus
- Aur Cymru
- Ymarferiad "Bardic Llif"

### Ymarferiadau Cooper

Rydym yn cynnal yr ymarferiadau yma bob chwarter i brofi Cyfeiriadau Cysylltiadau Brys yr awdurdod lleol. Dewiswyd cyfanswm o 48 aelod o staff ar hap i wirio cywirdeb 107 o rifau cyswllt. Yn dilyn hyn, gwnaed newidiadau i'r Cyfeiriadau Cysylltiadau Brys, gan wirio rhifau gyda chydweithwyr awdurdod lleol i sicrhau cywirdeb.

### Gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2023-2024

- Datblygu a chyflwyno Templed Cynllun Llygredd Arfordirol
- Adolygu Trefniadau Adfer yng ngogledd Cymru - ystyried un cynllun yn cynnwys cyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol a Fforwm Lleol Cymru Gydnerth
- Gweithredu System Rheoli Perfformiad
- Cysylltu â'r gwaith cenedlaethol ar Wytnwch Cymdeithasol
- Sicrhau parodrwydd yr awdurdod lleol ar gyfer y ddeddfwriaeth arfaethedig, Cyfraith Martyn
- Gweithredu cronfa ddata ar gyfer hyfforddiant ac ymarferion staff





GWASANAETH CYNLLUNIO AT ARGYFWNG RHANBARTHOL

CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU

NORTH WALES COUNCILS

REGIONAL EMERGENCY PLANNING SERVICE

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council · Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council · Gwynedd · Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council · Wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Ymateb i Argyfwng:**
**Llawlyfr i**
**Aelodau Etholedig**

**Rhagfyr 2022**

**Cynnwys**


1. **Cyflwyniad a Chyd-destun**
2. **Cyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol ar gyfer Cydnerthedd Sifil**
3. **Rôl Aelodau Etholedig**
4. **Canllawiau i'r Arweinydd ac Aelodau Gweithredol eraill – Rhestr Wirio**
5. **Canllawiau ar rôl Cynghorwyr Wardiau – Rhestr Wirio**
6. **Adfer**
7. **Rhestr wirio'r cam adfer ar gyfer yr Arweinydd ac Aelodau Gweithredol eraill**
8. **Rhestr wirio'r cam adfer ar gyfer Cynghorwyr Wardiau**

## 1. Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn rôl allweddol i'w chwarae wrth ymateb i unrhyw argyfwng neu ddigwyddiad mawr ar yr Ynys. Mae dinasyddion yn disgwyl i gynghorau ymateb yn ddi-oed ac yn effeithiol ynghyd â sefydliadau partner pan mae digwyddiad, gan barhau i ddarparu gwasanaethau rheng flaen hefyd.

Mae cynllunio at argyfyngau yn aml yn cael ei anghofio nes daw sefyllfa drychinebus. Fodd bynnag, os gwnawn ni gynlluniau i atal, paratoi at ac ymateb i argyfyngau, byddai modd lleihau'r effeithiau; effeithiau fel llifogydd, colli isadeiledd a bygythiadau i fywydau a'r amgylchedd.

Mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru wedi sefydlu un Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol unigol sy'n gweithio ochr yn ochr â'r awdurdodau lleol i baratoi at yr Argyfyngau Mawr sydd wedi'u nodi isod. Mae Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCARh-CGC) yn cael ei gynnal gan Gyngor Sir y Fflint ar ran y pum awdurdod arall.

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi at ymateb i ddigwyddiadau sy'n argyfyngau, ac adfer ar eu hôl hefyd[1]. Mae sawl rhan i baratoi'n ddigonol, ond un rhan sylfaenol yw i bob un sydd ynghlwm:

- ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau
- fod â'r profiad, sgiliau a chefnogaeth angenrheidiol

Er bod cyfrifoldebau gweithredol o ran cydnerthedd sifil yn fater i Swyddogion, mae gan Gynghorwyr yr Awdurdod Lleol rôl wleidyddol bwysig i'w chwarae i baratoi at, ymateb i ac adfer ar ôl argyfyngau arwyddocaol fel Covid-19. Dylai cyfraniadau gan Aelodau Etholedig ategu gwaith swyddogion a, thrwy hynny, osgoi unrhyw ddyblygu.

Mae'r rôl bwysig hon i Aelodau'n cael ei hegluro isod ar ffurf rhestrau gwirio. Mae'r safonau hyn yn gosod disgwyliad ar yr Arweinydd ac Aelodau Gweithredol eraill yn ogystal ag Aelodau Wardiau i fod â rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir o safbwynt cydnerthedd sifil. Maent hefyd yn nodi y dylai trefniadau cefnogi gael eu rhoi ar waith er mwyn i Gynghorwyr Sir allu cyflawni eu rôl yn effeithiol.

Mae'r Llawlyfr hwn wedi'i baratoi i wella ymwybyddiaeth, a dealltwriaeth, ac i gynorthwyo ein Haelodau Etholedig i chwarae rhan lawn ac adeiladol mewn sefyllfaoedd ymateb i ac adfer ar ôl argyfyngau. Mae'n darparu ystod o wybodaeth sy'n berthnasol i rolau Cynghorwyr Sir ynghlwm â chydnerthedd sifil:

- trosolwg o gyfrifoldebau Awdurdod Lleol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004)
- canllawiau i'r Arweinydd ac Aelodau Gweithredol eraill

[1]Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004

- canllawiau i Gynghorwyr Wardiau

Mae'r llawlyfr hwn hefyd yn cefnogi'r Aelodau i ddeall eu rôl nhw i gefnogi'r gymuned pe bai argyfwng mawr.

## 2. Cyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol ar gyfer Cydnerthedd Sifil

Mae pob Cyngor yn ymatebwyr "Categori 1" dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Mae ganddynt gyfrifoldebau clir mewn argyfyngau sifil a nhw fel arfer fydd yn arwain yr adferiad ar ôl unrhyw argyfwng yn eu hardal. Mae'n rhaid i ymatebwyr Categori 1:

- asesu'r perygl o argyfyngau a defnyddio hyn i lywio cynlluniau at argyfyngau posib'
- gosod cynlluniau at argyfwng yn eu lle
- gwneud trefniadau rheoli parhad busnes
- gwneud trefniadau cyfathrebu i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd ynghylch materion amddiffyn sifil a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd mewn argyfwng
- rhannu gwybodaeth a chydweithredu ag ymatebwyr lleol eraill i wella cydlyniant ac effeithlonrwydd

  (Mae hyn hefyd yn cynnwys ymatebwyr Categori 2 – gweler isod)
- Darparu cyngor a chymorth i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol ynghylch parhad busnes (Awdurdod Lleol yn unig)

Fel ymatebydd Categori 1, mae'n rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn gyflawni ei ddyletswyddau dan y Ddeddf yn achos y canlynol:

- byddai'r argyfwng yn debygol o amharu'n ddifrifol ar ei allu i gyflawni ei swyddogaethau
- byddai'n ei chyfrif yn angenrheidiol gweithredu i atal, lleihau, rheoli neu liniaru effeithiau'r argyfwng, neu weithredu fel arall; ac na fyddai'n gallu gweithredu heb newid sut mae ei adnoddau wedi'u neilltuo neu heb gael adnoddau ychwanegol.

Mae pob ymatebydd yn gweithio o fewn fframwaith cenedlaethol cyffredinol i reoli ymateb i ac adfer ar ôl argyfwng, sy'n berthnasol beth bynnag fo maint, natur neu achos argyfwng. Mae'r fframwaith yn rhoi hyblygrwydd lleol i ymatebwyr wneud eu penderfyniadau eu hunain am ba drefniadau cynllunio rhag argyfwng sy'n briodol i gyflawni eu dyletswyddau dan y Ddeddf, ar sail amgylchiadau, blaenoriaethau a risgiau lleol. Fforwm Cydnerthedd Lleol Gogledd Cymru yw'r prif sefydliad i ddatblygu trefniadau ar gyfer yr ardal gyfan i ymateb i argyfyngau ac mae'n gyfrifol am lunio chwe chofrestr risg gymunedol sy'n nodi risgiau lleol penodol ar gyfer eu hardaloedd a chynlluniau amlasiantaeth lleol i ymateb i

argyfyngau.

**Ymatebwyr Categori 1:**

- Gwasanaethau Brys: Yr Heddlu, Gwasanaethau Tân ac Achub/Ambiwlans, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau.
- Awdurdodau Lleol: Pob prif Awdurdod Lleol ac Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd.
- Cyrff Iechyd: Byrddau Iechyd Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Asiantaethau Llywodraeth: Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Ymatebwyr Categori 2; Enghreifftiau:**
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cwmnïau cludiant a chyfleustodau, sy'n gyrff cydweithredol ond yn llai amlwg o ran cynllunio at argyfwng, ond ynghlwm yn helaeth â digwyddiad sy'n effeithio ar eu sector nhw.

Sut mae Argyfyngau a Digwyddiadau Mawr yn cael eu diffinio?

Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn diffinio argyfwng fel:

- Digwyddiad neu sefyllfa sy'n bygwth niwed difrifol i les pobl
- Digwyddiad neu sefyllfa sy'n bygwth niwed difrifol i'r amgylchedd; neu
- Rhyfel, neu derfysgaeth sy'n bygwth niwed difrifol i ddiogelwch y Deyrnas Unedig

Y diffiniad o Ddigwyddiad Mawr yw:

*"Digwyddiad neu sefyllfa, lle mae ystod o oblygiadau difrifol, sy'n golygu bod angen i un neu fwy o asiantaethau ymateb brys roi trefniadau arbennig ar waith"* (Swyddfa'r Cabinet, 2016).

Pa fath o argyfyngau mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru wedi ymateb iddynt, a sut y gallant gyfrannu?

Mae'r prif ddigwyddiadau a welwyd yng Ngogledd Cymru yn ddiweddar sydd wedi gofyn am ymdrechion cydlynol arbennig rhwng ymatebwyr lleol Categori 1 a 2 wedi cynnwys digwyddiadau difrifol yn ymwneud â'r tywydd, fel llifogydd, eira trwm a stormydd gwyntog. Gwelwyd hefyd ddigwyddiadau pecynnau amheus/digwyddiadau ynghlwm ag ordnans, problemau ymateb rheoli ar hen safle cynhyrchu cemegau, sawl digwyddiad ynghlwm â Chanolfannau Ailgylchu a sawl tân mawr.

Bydd y Cyngor yn cynorthwyo ymatebwyr Categori 1 a 2 i argyfwng ac yn sicrhau bod yr adnoddau canlynol ar gael iddynt (nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol):

- Cau ffyrdd a gwyriadau
- Darparu peiriannau a chyfarpar

- Clirio malurion ac adfer priffyrdd
- Gwagio adeiladau/ardaloedd mewn argyfwng a chanolfannau gorffwys
- Llety argyfwng
- Archwiliadau Diogelwch Adeiladau ar adeiladau'r awdurdod lleol
- Asesiadau iechyd yr amgylchedd, a gwasanaethau cysylltiedig
- Cyngor ac arweiniad ar Warchod y Cyhoedd
- Llinellau cymorth i'r cyhoedd a rhannu gwybodaeth i'r cyhoedd
- Swyddogion cyswllt â'r Cyfryngau a'r Gymuned
- Trefniadau cronfa apêl

Mae Gogledd Cymru wedi ysgwyddo rôl gref i wneud gwaith ymyrraeth wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a materion sy'n deillio o dai amlfeddiannaeth anniogel.

**Trefniadau a Strwythurau Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarth Gogledd Cymru**
Mae'r Cyngor yn rhan o drefniant Cynllunio rhag Argyfwng rhanbarthol Gogledd Cymru, ynghyd â'r 5 Cyngor arall. Arweinir y gwasanaeth rhanbarthol gan Gyngor Sir y Fflint. Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn cyfrannu at y meysydd canlynol o gynllunio rhag argyfwng i gefnogi rolau a dyletswyddau craidd yr Awdurdod Lleol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004:

- **Parodrwydd** (cynllunio) – drwy ymgysylltu â gwasanaethau mewnol a chynorthwyo i baratoi, adolygu a gweithredu Cynlluniau Rhag Argyfwng y Cyngor
- **Ymateb** – presenoldeb mewn cyfarfodydd gweithredol, tactegol a strategol mewnol, sganio'r gorwel, cydlynu gweithgarwch cychwynnol yr Awdurdod Lleol, cyfrannu at gydlynu'r ymateb yn amlasiantaethol, casglu – cydlynu gwybodaeth i baratoi at gyfarfodydd y Grŵp Cydlynu Tactegol/Grŵp Cydlynu Strategol
- **Adfer** ar ôl argyfyngau mawr a sylweddol – drwy gefnogi'r Awdurdod Lleol i weithredu a datblygu ein cyfrifoldebau adfer ar ôl argyfwng sydd yn fframwaith y Canllawiau Adfer Cenedlaethol

<u>Trefniadau Rheoli Argyfyngau'r Awdurdod Lleol</u>

Mae gan Awdurdodau Lleol fframweithiau rheoli argyfyngau wedi'u paratoi er mwyn cynllunio at, ac ymateb i argyfyngau mawr.

Mae gan y Cyngor **Dîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng**. Mae'n bosib' mai Cadeirydd y Tîm, neu ddirprwy penodedig, fyddai'r pwynt cyswllt cyntaf i'r Gwasanaethau Brys roi gwybod yn swyddogol am ddigwyddiad mawr.

**3. Rôl Aelodau Etholedig**

Mae'r rhan hon o'r Llawlyfr yn ceisio darparu canllawiau ymarferol i Arweinydd y Cyngor Sir, Aelodau Gweithredol ac Aelodau Wardiau ynglŷn â sut i gyflawni eu rôl cydnerthedd sifil. Mae'n cwmpasu'r ystod o gamau gweithredu wrth baratoi at, ymateb i ac adfer ar ôl argyfyngau.

Mae'r holl gyfrifoldebau gweithredol cydnerthedd sifil yn eiddo i swyddogion ond mae gan Aelodau Etholedig rôl arweinyddiaeth wleidyddol allweddol i'w chwarae wrth baratoi at, ymateb i ac adfer ar ôl argyfyngau neu ddigwyddiadau mawr. Mae gan Aelodau Gweithredol hefyd rôl bwysig i sicrhau bod cynlluniau parhad busnes wedi'u paratoi gan y Cyngor Sir. Dylai cyfraniadau'r Aelodau ategu rôl swyddogion.

**Cadw mewn Cysylltiad**

Os oes argyfwng, bydd trefniadau cyfathrebu effeithiol yn elfennau hanfodol o drefniadau ymateb y Cyngor Sir. Bydd y strategaeth yn cynnwys cyfathrebu â budd-ddeiliaid allweddol, yn cynnwys Aelodau Etholedig. Bydd sianeli cyfathrebu ag Aelodau Etholedig yn cynnwys:

- Rhannu gwybodaeth â Chynghorwyr Sir a staff yn ddyddiol dros e-bost
- Briffio Arweinwyr Grwpiau'n rheolaidd
- Rhannu'r holl ddatganiadau i'r wasg sy'n cael eu cyhoeddi

Seilio unrhyw wybodaeth a ddarperir i etholwyr ar negeseuon wedi'u cadarnhau gan y Cyngor Sir, Heddlu Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru (ac asiantaethau cyhoeddus perthnasol eraill sy'n rhan o Fforwm Cydnerthedd Gogledd Cymru).

**Defnydd cyfrifol o'r Cyfryngau Cymdeithasol**

Wrth eu defnyddio'n ddoeth, gall y cyfryngau cymdeithasol fod yn sianel gyfathrebu hanfodol i roi gwybodaeth i drigolion. Dylai'r Aelodau weithio gyda thîm cyfathrebu'r Cyngor a chyfeirio trigolion at negeseuon sy'n cael eu cyhoeddi gan yr Awdurdod Lleol.

## 4. Canllawiau i'r Arweinydd ac Aelodau Gweithredol eraill – Rhestr Wirio

Yn ystod unrhyw argyfwng neu ddigwyddiad mawr, dylai Aelodau Portffolio:

- Bod yn ddiogel bob amser – mae'n rhaid cyflawni unrhyw rolau a chyfrifoldebau ynghlwm â'r cyngor a'r canllawiau iechyd y cyhoedd diweddaraf gan Lywodraeth Cymru
- Cysylltu â'r Prif Weithredwr i gael brîff cychwynnol a chytuno ar gamau brys i'w cymryd
- Cytuno i'r Aelod Gweithredol gymryd y rolau arwain canlynol:
    - i. "wyneb cyhoeddus" y Cyngor Sir, yn rhan o rôl arweinyddiaeth ddinesig y Cyngor Sir
    - ii. darparu cefnogaeth wleidyddol i waith adfer cychwynnol
    - iii. swyddogaethau arferol
    - iv. Ymgysylltu â Chynghorwyr Wardiau
- Trafod/gweithio gyda thîm cyfathrebu'r Cyngor i sicrhau dull cydlynol gyda'r wasg a'r cyfryngau

- Darparu anogaeth a chefnogaeth i staff a phartneriaid y Cyngor Sir sydd ynghlwm â'r ymateb i'r argyfwng
- Os oes angen, arwain ar wneud sylwadau i gael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.
- Cadw cofnod personol o gamau gweithredu/digwyddiadau i'w defnyddio mewn ôl-drafodaethau, pwyllgorau craffu ac unrhyw ymchwiliadau ffurfiol.
-
- Cynrychioli'r Awdurdod Lleol yn ystod ymweliadau ffurfiol gan sicrhau bod unrhyw ymweliadau'n sensitif i'r sefyllfa ac anghenion yr ardal leol
- Ystyried pa mor briodol yw cychwyn trafodaeth â'r canlynol i sicrhau ymateb gwleidyddol cydlynol:

  i. Arweinwyr Awdurdodau Lleol eraill Gogledd Cymru
  ii. Aelodau'r Senedd ac Aelodau Seneddol San Steffan.

**5. Canllawiau ar rôl Cynghorwyr Wardiau – Rhestr Wirio**

Mae dwy ochr i rôl Cynghorwyr Wardiau mewn argyfyngau a digwyddiadau mawr eraill – fel arweinwyr cymunedol a hefyd fel cynrychiolwyr y gymuned, fel a ganlyn:

**Arweinyddiaeth gymunedol**
Arddangos arweinyddiaeth gymunedol drwy gymryd ymagwedd gyfrifol tuag at y wybodaeth sy'n cael ei rhannu a'r negeseuon sy'n cael eu rhoi, a thrwy ddilyn canllawiau gan y Cyngor Sir.

- Bod yn ddiogel bob amser – mae'n rhaid cyflawni unrhyw rolau a chyfrifoldebau ynghlwm â'r cyngor a'r canllawiau iechyd y cyhoedd diweddaraf gan Lywodraeth Cymru
- Bod yn bresenoldeb gweledol y mae pobl yn ymddiried ynddo yn y gymuned
- Rhoi gwybod i swyddogion arweiniol yr Awdurdod Lleol wrth ddarparu cefnogaeth uniongyrchol ar lefel gymunedol fel bod swyddogion yn gwybod am waith Cynghorwyr a'u bod yn gallu trefnu briffiau sydd eu hangen, ac ati
- Cyfathrebu gwybodaeth a negeseuon allweddol gan y Cyngor i'r trigolion.
- Cyfeirio trigolion a busnesau at wasanaethau cefnogi gan y Cyngor a gan sefydliadau partner hefyd
- Darparu cefnogaeth/anogaeth i staff y Cyngor ac asiantaethau partner sydd ynghlwm â'r ymateb
- Darparu gwybodaeth ac arbenigedd lleol a chyfleu gwybodaeth/pryderon i'r Cyngor

**Cynrychiolwyr y gymuned**
- Presenoldeb mewn cymunedau lleol i ddeall anghenion trigolion unigol a'r gymuned ehangach hefyd, gan eu cyfeirio at y Cyngor lle bo angen
- Cadarnhau dibynadwyedd gwybodaeth leol cyn ei hanfon ymlaen at y Cyngor ac asiantaethau partner
- Osgoi ceisio:

i. cymryd rhan mewn materion gweithredol a allai godi wrth ymateb i unrhyw argyfwng
ii. barnu effeithiolrwydd yr ymateb i'r argyfwng

- Cadw cofnod personol o gamau gweithredu/digwyddiadau i'w defnyddio mewn ôl-drafodaethau, pwyllgorau craffu ac unrhyw ymchwiliadau ffurfiol.

**6. Adfer**

Mae'r rhan hon o'r llawlyfr yn canolbwyntio ar rôl benodol Aelodau Etholedig yng ngwaith y Cyngor o arwain a chefnogi cymunedau'r Ynys wrth symud drwy'r broses o ddod â digwyddiad i ben a thuag at adfer a 'Normal' newydd sy'n datblygu o hyd. Mae gan y Cyngor Sir rôl arweiniol wrth gydlynu'r gwaith adfer.

**Rôl arweinyddiaeth Cynghorydd**

Mae llawer o'r canllawiau blaenorol hefyd yn berthnasol iawn i'r broses adfer. Dros y misoedd canlynol, bydd y Cynghorwyr Sir yn parhau i weithredu fel arweinwyr cymunedol. Rhagwelir bod mwy o ran i Aelodau Etholedig wrth i'r ymateb i'r argyfwng ddatblygu i'r cam adfer. Mae ymateb i argyfwng fel arfer yn golygu ymdrechion byr, dwys gan y gwasanaethau golau glas gydag Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am arwain y am adfer. Mae angen cyfraniad democrataidd a chymunedol yn y cam hwn i allu adfer ar lefel leol

Wrth i'r Awdurdod Lleol a chymunedau lleol ar yr Ynys symud tuag at y cam adfer, bydd angen i arweinwyr gwleidyddol gynnal rôl arweinyddiaeth weledol ac ymarferol i oruchwylio amrywiaeth o weithgareddau pwysig. Wrth gefnogi adfer cymunedau lleol, mae angen i'r Cyngor ddangos arweinyddiaeth drawsbleidiol dda.

**7. Rhestr Wirio'r Cam Adfer ar gyfer yr Arweinydd ac Aelodau Gweithredol eraill**

Dylai Aelodau Portffolio:

- Geisio sicrwydd bod y Cyngor, gan weithio gyda'i bartneriaid, yn parhau i gyflawni ei rôl a defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon ar draws yr holl weithgareddau ymateb ac adfer sydd eu hangen, gan geisio dychwelyd i weithredu fel yr arfer cyn gynted â bo modd
- Sicrhau bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i gefnogi adfer, sy'n cynnwys datblygu dull strategol a chefnogaeth i unigolion sydd wedi'u gwneud yn ddiamddiffyn neu rai sy'n fwy diamddiffyn oherwydd y digwyddiad
  Goruchwylio gwaith o gyflawni Cynllun Adfer y Cyngor
- Sicrhau bod yr holl Aelodau Etholedig yn cael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau a chamau a gymerwyd fel eu bod yn gallu cyfrannu at y gwaith adfer

- Sicrhau bod protocolau effeithiol ar waith ar gyfer cyfranogiad a chyfathrebu gwleidyddol ar bob lefel (cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, yn cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned)
- Ymdrechu i fod yn agored, tryloyw ac yn gynhwysol wrth wneud penderfyniadau sy'n perchnogi'r cyfeiriad cyffredinol ac yn defnyddio Craffu fel offeryn i ennyn cymaint o gyfranogiad â phosib'
- Galluogi ymgysylltu â chymunedau drwy gyfathrebu'n rheolaidd â thrigolion a phartneriaid, yn cynnwys y 3ydd sector

## 8. Rhestr Wirio'r Cam Adfer ar gyfer Cynghorwyr Wardiau

Mae gan bob Cynghorydd Sir rôl arwyddocaol wrth siapio'r broses adfer, galluogi cymunedau lleol i adeiladu ar y cyfle i gryfhau cydnerthedd cymunedol a gwella ardaloedd lleol. Mae'r rôl hon yn cynnwys:

- Siapio a chytuno ar strategaethau adfer
- Arwain a chynrychioli cymunedau a'r Cyngor
- Cefnogi trigolion unigol a bod yn gyswllt rhwng trigolion a gwasanaethau cyhoeddus
- Seilio datblygu cydnerthedd cymunedol ar y grwpiau cefnogaeth gymunedol
- Cefnogi cydlyniant cymunedol
- Dal penderfyniadau i gyfrif trwy brosesau Craffu
- Cryfhau prosesau democrataidd y Cyngor drwy sefydlu unrhyw newidiadau a datblygiadau arloesol.
- Gwarchod iechyd a lles i sicrhau cydbwysedd â'r gwaith sydd ynghlwm â gwasanaethu cymunedau lleol.

<u>Materion ar ôl digwyddiad</u>

Gall materion eraill y gallai fod angen ymdrin â nhw yn rhan o'r broses adfer, lle mae angen eu rheoli'n ofalus, gynnwys:

- Prosesau cyfreithiol sifil
- Achosion troseddol
- Ymchwiliadau cyhoeddus
- Colled incwm i'r Cyngor
- Hawliadau yswiriant
- Twristiaeth
- Hawliadau am gyllid gan y Llywodraeth
- Adfywio busnes ac isadeiledd
- Effeithiau tymor hir ar y gymuned
- Effeithiau tymor hir ar y gweithlu e.e. recriwtio a chadw staff

**Cysylltiadau**

**Pa rif allwch chi ei ffonio os oes argyfwng mawr?**
Os byddwch angen rhoi gwybod am broblem sy'n ymwneud ag argyfwng sydd wedi'i ddatgan, cofiwch 3 phwynt allweddol y gallwch eu dilyn i helpu –

1. **Ffonio'r rhif cywir**
2. **Darparu gwybodaeth glir**
3. **Bod yn amyneddgar**

Bygythiad i Fywyd: 999

Toriad Pŵer: 105

Cyfoeth Naturiol Cymru: Llifogydd / Digwyddiadau Amgylcheddol – 0300 065 3000, 24 awr

Cyngor Sir Ynys Môn:
Y prif rif ffôn yw **01248 750057.**
Rhifau ffôn y Cyngor ar gyfer argyfyngau y tu allan i oriau swyddfa:

1. Ar gyfer argyfyngau mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol, ffoniwch 01248 353551
2. Ar gyfer argyfyngau yn ymwneud â thai, gwasanaethau stryd a materion eiddo, ffoniwch 08081 685652

Peidiwch â ffonio swyddogion unigol y Cyngor i roi gwybod am broblemau. Bydd defnyddio'r rhifau cywir uchod yn sicrhau bod rhagor o oruchwylwyr ar gael – mae'n rhaid iddynt gydlynu ymdrechion ar lawr gwlad, gan drefnu adnoddau yn ôl yr angen.

**Gall y gwefannau canlynol hefyd ddarparu rhagor o wybodaeth am faterion rheoli argyfyngau lleol a chenedlaethol:**

Cyrsiau e-ddysgu:
Cymraeg-Isle of Anglesey Council: Darganfod Cyrsiau (learningpool.com)

Saesneg- Isle of Anglesey Council: Find Learning (learningpool.com)

Cyfoeth Naturiol Cymru – Gwybodaeth am Rybuddion Llifogydd:
https://naturalresources.wales/flooding/?lang=cy

Cyfoeth Naturiol Cymru – Digwyddiad Amgylcheddol:
https://naturalresourceswales.gov.uk/about-us/contact-us/report-an-environmental-incident/

Cofrestr Risg Genedlaethol o Argyfyngau Sifil:
https://www.gov.uk/government/publications/national-risk-register-2020

Argyfyngau: cyfrifoldebau asiantaethau ymateb ac eraill:
https://www.gov.uk/guidance/preparation-and-planning-for-emergencies-responsibilities-of- responder-agencies-and-others

Fforymau Cymru Gydnerth: https://www.llyw.cymru/cymru-gydnerth/beth-rydym-yn-ei-wneud

Canllaw cynghorydd i argyfyngau sifil: https://local.gov.uk/councillors-guide-civil-emergencies

GCARh–CGC – Amdanom Ni – https://www.gcar-cgc.org.uk/cy/About-Us.aspx

Am fwy o wybodaeth am yr ystod eang o beryglon mae partneriaid Fforwm Cydnerthedd Lleol Gogledd Cymru'n cynllunio ar eu cyfer, lawrlwythwch Gofrestr Risg Gymunedol Gogledd Cymru:

https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Dogfennau-Cy/Diogelwch-cymunedol-ag-argyfyngau/Cofrestr-Risg-Gymunedol.pdf

Am fwy o wybodaeth am gynllun gwaith Cynllunio rhag Argyfwng a Chydnerthedd Corfforaethol y Cyngor, cysylltwch â Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCARh-CGC) ar 01352 702124 neu ar e-bost: ymholiadau@gcar-cgc.org.uk.

Gall y Gwasanaeth Cynllunio Rhanbarthol ddarparu hyfforddiant rheoli argyfyngau i Aelodau etholedig bob blwyddyn, felly cofrestrwch eich diddordeb i ddod i sesiwn yn y dyfodol gyda GCARh-CGC ar 01352 702124 neu dros e-bost: ymholiadau@gcar-cgc.org.uk

Am fwy o wybodaeth ynghylch cynllunio rhag argyfwng, defnyddiwch y cysylltiadau isod. Sylwch, cysylltiadau yn ystod oriau swyddfa yn unig yw'r rhain.

Susan Owen Jones – Rheolwr Gweithredol (TA): SusanJones4@ynysmon.llyw.cymru

Jon Zalot – Swyddog Cynllunio Rhag Argyfwng: jon.zalot@nwc-reps.org.uk

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 17 Hydref 2023 |
| **Pwnc:** | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol – Adroddiad Blynyddol |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Rhoi diweddariad blynyddol i'r Pwyllgor Sgriwtini |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Dylan Rees |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cynghorydd Gary Pritchard – Plant a Theuluoedd<br>Cynghorydd Alun Roberts – Oedolion |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fon Roberts– Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost:** | Catrin Roberts, Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol<br><br>Emma Edwards – Rheolwr Busnes<br>01248 751887<br>Emaedwards@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| **Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, yn deall ac wedi ystyried y gwaith y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei wneud.**<br><br>**Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2022-23 yn feysydd gwaith sy'n cael eu datblygu drwy Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru.** |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Nod Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru yw gweithio ar y cyd ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i helpu i gefnogi cymunedau gwydn a hefyd sicrhau gwasanaeth di-dor ar gyfer unigolion sydd angen gofal a chymorth.<br><br>Mae hyn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Cyngor newydd Cyngor Sir Ynys Môn 2023-28 – y mae un ohonynt wedi'i nodi fel 'Gofal Cymdeithasol a Lles – darparu'r cymorth cywir ar yr amser iawn'. Mae hefyd yn sail i'r Gwerthoedd da nodir yn y Cynllun newydd – Cydweithio – 'Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Mon'. |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>Hwn yw Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2022-23. Yn unol â Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae'n rhaid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol baratoi, cyhoeddi a chyflwyno ei adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru (Atodiad 1). |

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth i bartneriaid am Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2022-23.

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

Pwrpas Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw gwella canlyniadau a lles pobl yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn narpariaeth gwasanaethau. Gellir felly disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:

- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
- Gwella canlyniadau ac iechyd a lles.
- Darparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

Pan fydd y Bwrdd yn datblygu adroddiadau, strategaethau neu ddogfennau rhanbarthol, mae swyddogion ac aelodau etholedig sy'n eistedd ar y Bwrdd yn dod â'r rhain i gyfarfodydd perthnasol o fewn eu sefydliadau eu hunain i'w cytuno'n ffurfiol.  Nid oes gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol drefniadau ar gyfer craffu rhanbarthol, a gwneid hyn yn lleol.

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw amlinellu'r cynnydd y mae Byrddau Partneriaeth Ranbarthol wedi ei wneud ac edrych ar sut y mae'r bwrdd yn cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

Gwelwch 5.8 isod.

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**
Gweler Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (Gweler Atodiad 1)

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| |

1. I ba raddau y mae angen eglurhad pellach ynghylch rôl a phwrpas y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol?

2. Beth ydy'r berthynas rhwng Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol?
3. I ba raddu y mae'r Bwrdd wedi cyflawni ei flaenoriaethau allweddol yn ystod 2022/23

4. Beth ydy prif flaenoriaethau allweddol y Bwrdd ar gyfer 2023/24?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**5.1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Yr adroddiad hwn yw Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2022/23 (Atodiad 1). Mae'n ofynnol yn rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn paratoi, yn cyhoeddi ac yn cyflwyno ei adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.

Bydd yr adroddiad yn darparu manylion mewn perthynas â phrosiectau y mae trigolion Ynys Môn wedi elwa ohonynt, fodd bynnag isod mae crynodeb o rai:

- Ap Gofalwyr Ifanc
- Hwb Llesiant Cymunedol Integredig Amlwch
- Cartrefi Clyd

Mae'r adroddiad hefyd yn darparu manylion mewn perthynas â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant y mae Fôn Roberts yn ei Gadeirio sy'n galluogi partneriaid i ganolbwyntio'n benodol ar faterion yn ymwneud â Phlant a Phobl Ifanc.

**5.2 Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i bartneriaid am Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2022/23.

**5.3 Manylion yr adroddiad**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllaw ar gyfer cwblhau adroddiadau Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac roedd y Byrddau i ddefnyddio'r canllaw hwn ar gyfer cwblhau ei adroddiad. Mae'r adroddiad atodedig yn cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd yn ofynnol ei chynnwys yn y Canllawiau hynny. Mae adroddiad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'i ysgrifennu mewn fformat sy'n cyfleu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol.

Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r Bwrdd a sefydlwyd i fodloni gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion ag anghenion am ofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae'n gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu, a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Rhan 9 o'r Ddeddf hefyd yn cynnwys trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Llywodraeth Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd cyfunol) a byrddau partneriaeth.

Pwrpas Rhan 9 y Ddeddf yw gwella canlyniadau a lles pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ddarparu gwasanaethau. Felly, gellir disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:

- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
- Gwella canlyniadau ac iechyd a lles
- Darparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

Pwrpas yr adroddiad Blynyddol yw nodi'r cynnydd y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i wneud ac mae'n ystyried sut mae'r bwrdd yn cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**5.4 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd gweithio mewn partneriaeth ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu i gefnogi cymunedau gwydn a hefyd yn sicrhau gwasanaeth di-dor ar gyfer unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth.

**5.5 Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r 6 Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd PBC yng Ngogledd Cymru yn cronni cyllid i gefnogi gweithio rhanbarthol ar draws y Rhanbarth. Mae hyn hefyd yn ariannu'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol ac mae cytundeb partneriaeth ffurfiol i ategu hyn.

Drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru yn sianelu ffrydiau ariannu grantiau megis y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r cronfeydd cyfalaf Tai â Gofal ac Integreiddio ac Ail-gydbwyso.. Lle mae'n bosibl codi tâl gweithgaredd partneriaeth rhanbarthol ar y grantiau hyn, mae hyn yn cael ei weithredu.

**5.6 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Nid oes asesiad effaith llesiant cyffredinol wedi'i gwblhau ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol ond bydd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau ar gyfer yr elfennau unigol a gynhwysir ynddo.

**5.7 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Bydd yr aelodau'n ymwybodol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a byddant wedi cael gwybodaeth am Ran 9 o'r Ddeddf a datblygiad Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Ni fu unrhyw ymgynghori ffurfiol, ac eithrio gydag aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cynnwys ystod eang o aelodaeth ac sy'n cynnwys dinasyddion a gofalwyr.

**5.8 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y risg yw sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gyda'r Canllawiau ar adroddiadau blynyddol y bwrdd partneriaeth rhanbarthol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 wrth gynhyrchu'r adroddiad blynyddol. Y prif risg yw bod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gallu mynd ymlaen gyda'r amrywiol ofynion fel sy'n ofynnol yn Rhan 9 o'r Canllawiau, a bod y bartneriaeth yn datblygu er mwyn galluogi gweithio ymhellach mewn partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau yn y dyfodol.

**5.9 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

| |
|---|
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, Rhan 9 |

| |
|---|
| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Does dim Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gynnal ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Gwelwch paragraff 5.5 uchod. |

| |
|---|
| **8 – Atodiadau** |
| Atodiad 1 – ADRODDIAD BLYNYDDOL |

| |
|---|
| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| Dim papurau cefndir eraill. |

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

## Adroddiad Blynyddol

## 2022/23




***Cydweithio i sicrhau iechyd a lles pobl o bob oed yng Ngogledd Cymru***

**Tabl Cynnwys**

1 Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC) ..... 3
2 Trosolwg o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ..... 4
2.1 Pwrpas ..... 4
2.2 Datganiad o weledigaeth ..... 4
2.3 Egwyddorion arweiniol ..... 4
2.4 Rôl y BPRhGC ..... 5
2.5 Aelodaeth ..... 5
2.6 Strwythur Llywodraethu ..... 6
3 Beth ydym ni wedi ei gyflawni? ..... 9
3.1 Cynllun Ardal ..... 9
3.2 Cod Ymarfer Awtistiaeth ..... 9
3.3 Cyfalaf ..... 10
3.4 Rhaglen Plant a Phobl Ifanc ..... 11
3.5 Comisiynu ..... 14
3.6 Llwybr Safonau Gofal Dementia (Cymru Gyfan) ..... 15
3.7 Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu ..... 17
3.8 Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad ..... 20
3.9 Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ..... 20
3.10 Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ..... 20
3.11 Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant ..... 21
3.12 Rhaglen Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ..... 22
3.13 Gweithlu ..... 23
4 Cyfathrebu, ymgysylltu a gwerth cymdeithasol ..... 25
4.1 Ymgysylltu yng Ngogledd Cymru ..... 25
4.2 Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru ..... 25
4.3 Grwpiau Gofalwyr Gogledd Cymru ..... 26
4.4 Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru ..... 26
5 Edrych Ymlaen ..... 28
5.1 Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24 a thu hwnt ..... 28
**Atodiad 1 – Aelodaeth BPRhGC** ..... 29
**Atodiad 2 - Cynllun Cyflawni Blynyddol** ..... 31
**Atodiad 3 - Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol - Adroddiad Diwedd Blwyddyn** 36

# 1 Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC)

Mary Wimbury, Prif Weithredwr,
Fforwm Gofal Cymru



Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru am eleni.

Mae'r adroddiad yn amlinellu rhywfaint o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni gan bartneriaid ac sydd wedi cael effaith sylweddol ar fywydau preswylwyr ar hyd a lled Gogledd Cymru.  Mae cymaint i'r Bwrdd a'i bartneriaid ymfalchïo ynddo eleni ac weithiau gallwn golli golwg o'r pethau da a wnaed. Mae'r adroddiad hwn felly yn ffordd dda o'n hatgoffa i gyd o'r hyn a gyflawnwyd gyda'n gilydd yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae'r flwyddyn hon wedi parhau i fod yn gyfnod heriol i'r sector iechyd a chymdeithasol ac ymddengys nad oes unrhyw newid ar y gorwel wrth i ni fynd i 2023/24.  Mae'n bwysig ein bod yn parhau i gydweithio i ymdrin â'r materion hyn ac i adeiladu ar y gwaith rhagorol a gyflawnwyd eisoes.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau ein hadroddiad, os hoffech gael rhagor o wybodaeth, ewch ar ein gwefan https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/bwrdd-partneriaeth-rhanbarthol-gogledd-cymru/

Yn olaf, hoffwn ddiolch yn bersonol i holl aelodau'r Bwrdd a'r bartneriaeth ehangach am eu cefnogaeth a'u holl waith caled i wireddu'r cyflawniadau sylweddol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Dyma fy mlwyddyn olaf fel Cadeirydd a hoffwn ddymuno'n dda iawn i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan fel Cadeirydd nesaf y Bwrdd.

Dymuniadau gorau - Mary Wimbury

# 2 Trosolwg o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

## 2.1 Pwrpas

Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i:

- Wella lles y boblogaeth;

  Gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau iechyd a gofal.

Rydym yn dod â gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a phartneriaid eraill ynghyd i gydlynu'r broses barhaus o drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar draws y rhanbarth.

Mae'r BPRhGC yn cyfarfod ar-lein bob mis gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd, sydd wedi sicrhau ymgysylltiad parhaus i aelodau.

## 2.2 Datganiad o weledigaeth

Cydweithio i sicrhau iechyd a lles pobl o bob oed yng Ngogledd Cymru

## 2.3 Egwyddorion arweiniol

Cytunodd BPRhGC ar ei egwyddorion arweiniol ym mis Tachwedd 2016 ac mae'r rhain yn parhau i fod yn addas i'r diben:

- Newid y system gyfan ac ail-fuddsoddi adnoddau i fodel ataliol sy'n hyrwyddo iechyd a lles da, ac sy'n defnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio orau yn effeithiol;
- Mae gofal yn cael ei ddarparu mewn dulliau cydlynol sy'n canolbwyntio ar anghenion, dewisiadau, ac asedau cymdeithasol pobl (defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a chymunedau);
- Mae pobl yn cael eu galluogi i ddefnyddio eu hyder a'u sgiliau i fyw'n annibynnol, gan dderbyn cefnogaeth gan ystod o ddewisiadau o ansawdd uchel yn y gymuned;
- Ymgorffori cyd-gynhyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn i ddinasyddion a'u cymunedau lunio'r gwasanaethau;
- Rydym yn cydnabod yr ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles a phwysigrwydd cysylltiadau â'r meysydd hyn (gan gynnwys addysg, tai, lles, lleihau digartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd).

## 2.4 Rôl y BPRhGC

Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn:

- Sicrhau bod cydweledigaeth gytunedig a chyfeiriad clir o ran datblygiad y gwasanaeth ac integreiddiad iechyd, gofal a lles, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Chymru Iachach

- Sicrhau bod cynlluniau a rennir a strategaethau ar waith (wedi'u cefnogi gan achosion busnes priodol) i gyflawni'r weledigaeth

- Sicrhau bod y cynlluniau strategol yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu yn erbyn y canlyniadau a dangosyddion perfformiad cytunedig a dealladwy

- Arwain ymagwedd strategol at gyfathrebu a hyrwyddo'r cyfeiriad y symudir iddo a'r cynnydd a wnaed

- Cynnal trosolwg gwrthrychol o'r amcanion

- Adrodd i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol ar gynnydd, materion allweddol ac eithriadau, gan uwchgyfeirio unrhyw rwystr i gynnydd o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn eu datrys

- Sicrhau bod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn cael ei baratoi a'i gyflwyno yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru


## 2.5 Aelodaeth

Mae manylion yr aelodaeth lawn hyd at fis Mawrth 2023 yn Atodiad A.


## 2.6 Strwythur Llywodraethu

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd yn ffurfiol i Fwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru. Rheolir busnes y Bwrdd a busnes yr is-grwpiau rhanbarthol gan y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol ac aelodau o'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol.


Dangosir Strwythur Llywodraethu BPRhGC isod.





**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (RPB):**
**Strwythur llywodraethu plant**




## Llywodraethiant Conwy a Sir Ddinbych




## Llywodraethiant Môn a Gwynedd



# Llywodraethiant Wrecsam a Sir Fflint



# 3 Beth ydym ni wedi ei gyflawni?

## 3.1 Cynllun Ardal

Cafodd y Cynllun Ardal Rhanbarthol ei adolygu a'i gyhoeddi eleni. Mae'r cynllun yn manylu ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio gwasanaethau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac mae hyn yn gosod y cyfeiriad i'r Bwrdd. Mae'n nodi sut y bydd y rhanbarth yn ymdrin â'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, sef yr edefyn aur sydd yn cysylltu yr meysydd gwaith penodol yn y rhanbarth.

https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/wp-content/uploads/2023/04/NW-Regional-Area-Plan-2023-1.0-CY.pdf

## 3.2 Cod Ymarfer Awtistiaeth

Cafodd y Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth ei ddatblygu mewn ymateb i adborth gan bobl awtistig a'u teuluoedd a/neu ofalwyr, i roi eglurder ar y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yng Nghymru. Mae'r Cod yn cyfeirio at y fframweithiau cyfreithiol sydd eisoes ar waith ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff perthnasol wneud eu swyddogaethau yn unol â gofynion y cod wrth drefnu neu ddarparu gwasanaethau i bobl awtistig.

Mae'r Cod ar gyfer:

- pobl awtistig, yn cynnwys y rhai â chyflyrau eraill
- darparwyr cefnogaeth gofal cymdeithasol ac iechyd i bobl awtistig a'u teuluoedd a/neu ofalwyr
- ymarferwyr mewn gofal cymdeithasol ac iechyd sy'n gweithio gyda phobl awtistig a'u teuluoedd a/neu ofalwyr
- comisiynwyr a phobl â rôl strategol i asesu a chynllunio gwasanaethau lleol i bobl awtistig a'u teuluoedd a/neu ofalwyr
- ymarferwyr mewn gwasanaethau cysylltiedig eraill sy'n darparu cefnogaeth i bobl awtistig a'u teuluoedd a/neu ofalwyr, er enghraifft, cyflogaeth, addysg a chyfiawnder troseddol
- darparwyr gwasanaethau ac ymarferwyr sy'n darparu gwasanaethau i bobl awtistig â chyflyrau eraill

Mae tîm Cymorth Busnes y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cydlynu ac yn cefnogi'r partneriaid Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd ar draws Gogledd Cymru i lunio asesiad sylfaenol trosfwaol. Mae partneriaid ar draws Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio tuag at ddarparu tystiolaeth ar bob un o'r codau. Nod yr asesiad sylfaenol yw adolygu i ba raddau mae'r dyletswyddau'n cael eu bodloni ymhlith partneriaid yng Ngogledd Cymru ers iddo gael ei roi ar waith ac i ddatblygu argymhellion ar gyfer gwella. Bydd yr asesiad sylfaenol yn cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2023 a bydd yn

galluogi sefydlu Grŵp Strategol Awtistiaeth i oruchwylio cynllun gweithredu'r Cod Ymarfer Awtistiaeth a grwpiau tasg a gorffen i ymdrin â'r bylchau a'r heriau mewn gwasanaethau awtistiaeth.

Bydd tîm Cymorth Busnes y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio gyda phartneriaid i nodi unrhyw fylchau mewn data, deall pa ddata ychwanegol sydd ei angen ac archwilio rhwystrau a galluogwyr posibl i'w roi ar waith. Yna, bydd tîm Cymorth Busnes y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnig argymhellion i gefnogi partneriaid i fodloni dyletswyddau'r Cod, yn cynnwys rhannu arfer da ac arwain grwpiau tasg a gorffen os bydd eu hangen.

## 3.3 Cyfalaf

Ym mis Ebrill 2022, cyflwynwyd dwy gronfa ranbarthol gyfalaf newydd oedd yn disodli ffrwd gyllido grant cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig. Y ddwy ffrwd gyllido newydd yw'r Gronfa Tai â Gofal a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso.

**Y Gronfa Tai â Gofal -** Pwrpas y gronfa hon yw cefnogi bobl ag anghenion gofal a chymorth i fyw'n annibynnol yn y gymuned i ac i ddarparu lleoliadau gofal canolraddol yn y gymuned fel y gall pobl sydd angen gofal, cymorth ac adsefydlu ddychwelyd i fyw'n annibynnol neu i gynnal eu hannibyniaeth bresennol. Mae'n rhaglen ariannu 4 blynedd sy'n ariannu cynlluniau dan 3 amcan:

**Amcan 1: Cynyddu stoc bresennol tai â gofal yn sylweddol**
Yn 2022/23, cefnogodd BPRhGC bartneriaid rhanbarthol i sicrhau cyllid ar gyfer 4 cynllun Amcan 1 yn cefnogi pobl ag anableddau corfforol a dysgu ar draws Wrecsam, Sir y Fflint, Gwynedd a Chonwy. Roedd y Prosiectau hyn yn cynnwys prynu ac addasu llety i gefnogi pobl i fyw'n fwy annibynnol ac i ddod â phobl yn ôl i'w hardal leol i fyw.

**Amcan 2: Cynyddu stoc lleoliadau gofal canolradd a thymor byr-canolig**
Yn 2022/23, cefnogodd BPRhGC bartneriaid rhanbarthol i sicrhau cyllid ar gyfer 7 cynllun Amcan 2 i ddatblygu darpariaeth i'r henoed, plant a phobl ifanc a phobl ag anableddau dysgu ar draws Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy. Roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys ailwampio cyfleusterau gofal a datblygu cyfleusterau newydd megis cartref preswyl i blant a llety â chymorth.

**Amcan 3: Mân Brosiectau - ailwampio, offer ac addasiadau**
Yn 2022/23, cefnogodd BPRhGC bartneriaid rhanbarthol i sicrhau cyllid ar gyfer dros 30 o fân brosiectau ar draws y rhanbarth i gefnogi pob grŵp blaenoriaeth yn cynnwys ailwampio darpariaeth gofal presennol, addasiadau i gefnogi gofal yn y cartref a phrynu technoleg gynorthwyol megis offer rhyngweithiol y synhwyrau i wella a datblygu darpariaeth gwasanaethau.

**Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso** - Pwrpas y Gronfa hon yw cefnogi datblygiad canolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, a chefnogi'r gwaith o ail-gydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol. Mae hon yn rhaglen 3 blynedd i Gymru gyfan. Gall bob rhanbarth wneud cais am gyllid ar gyfer cynlluniau dan y blaenoriaethau a ganlyn:

**Blaenoriaeth 1 - Datblygu canolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig**
Yn 2022/23, cefnogodd BPRhGC bartneriaid rhanbarthol i sicrhau cyllid ar gyfer 3 cynllun Blaenoriaeth 1 fydd yn cefnogi darparu canolfannau dementia a lles yn Ynys

Môn, Gwynedd a Chonwy.

Sicrhaodd y BPRhGC gyllid Blaenoriaeth 1 hefyd i ddarparu 6 canolfan ddementia ar draws 6 sir Gogledd Cymru mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr, fydd yn darparu'r cyfleusterau hyn fel y nodwyd yn Safonau Dementia Cymru Gyfan.

**Blaenoriaeth 2 - Ail-gydbwyso'r farchnad gofal preswyl**
Yn 2022/23, sicrhaodd BPRhGC gyllid ar gyfer astudiaethau dichonoldeb i ddatblygu cynlluniau i ail-gydbwyso darpariaeth gofal preswyl i oedolion, er mwyn gallu datblygu'r cynlluniau hyn yn ystod y blynyddoedd nesaf.

**Blaenoriaeth 3 - Dileu elw o ddarparu gofal preswyl i blant**
Yn 2022/23, sicrhaodd BPRhGC gyllid i gynnal astudiaethau dichonoldeb i ddatblygu darpariaeth gofal preswyl nid er elw i blant gan Awdurdodau Lleol, er mwyn gallu datblygu'r cynlluniau hyn yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Ymhlith y cynlluniau sydd wedi cael eu datblygu yn 2022/23 mae:

- **Sir y Fflint: Croes Atti –** Bydd y prosiect yn darparu cyfleuster 56 gwely newydd sbon yn y Fflint, gan ddarparu mwy o le i gefnogi rhyddhau o'r ysbyty a gofal canolradd a llety ail-alluogi  yn ogystal â chynyddu'r ddarpariaeth gofal yn y gymuned.
- **Wrecsam: Gofal yn Nes at y Cartref –** Bydd y prosiect yn darparu llety ychwanegol i gartrefi gofal cofrestredig i blant yn Wrecsam.
- **Gwynedd: Canolfan Lleu –** Bydd y prosiect yn darparu canolfan iechyd a lles amlbwrpas fawr yng nghanol Penygroes yn cynnig gofal ychwanegol, gofal preswyl a datrysiadau tai cymdeithasol, gofal sylfaenol ac yn y gymuned, gwasanaethau awdurdod lleol a'r trydydd sector.
- **Ynys Môn: Canolfan Lles Cymunedol Integredig Amlwch –** Bydd y prosiect yn darparu cyfleuster fydd yn galluogi hyrwyddo iechyd meddwl a lles emosiynol da, darparu cyngor, cefnogaeth a gweithgareddau i bawb, yn cynnwys dinasyddion ag anableddau yng nghymuned Amlwch.
- **Sir Ddinbych: Ailwampio Llys Awelon, Rhan 1 –** Bydd y prosiect yn ailwampio rhan o'r adeilad i ddarparu cyswllt di-dor rhwng y cyfleuster presennol a'r adeilad newydd sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.
- **Conwy: Glan yr Afon, Cartref Preswyl i Blant –** Bydd y prosiect yn darparu cartref newydd i blant.

## 3.4 Rhaglen Plant a Phobl Ifanc

**Llywodraethu**
Mae'r strwythur llywodraethu sydd wedi bod ar waith i blant a phobl ifanc yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. I ddechrau, nodwyd yn y Cylch Gorchwyl bod angen ei adolygu, ond cydnabuwyd hefyd nad yw'n gweithio mor effeithiol ag y dylai gan fod presenoldeb yn wael mewn rhai cyfarfodydd, nid oedd cworwm ac o'r oherwydd nid oedd posibl gwneud penderfyniadau.




Cynhaliwyd gweithdy 'Cyfarfodydd sy'n Bwysig' ar 24 Mai gyda chynrychiolaeth o'r Is-grŵp Plant, Bwrdd Gwasanaethau Plant Integredig, Grŵp Cyfeirio Budd-ddeiliaid â'r Is-grŵp Ardal Plant Integredig. Mae'r bartneriaeth yn ddigon aeddfed i gael trafodaeth ddifrifol am sut i wneud y strwythur presennol weithio'n ddoethach a dod yn fwy effeithiol.

***Yr Is-grŵp Plant yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc***

Mae'r bwrdd wedi datblygu dull o 'ganolbwyntio' i edrych yn fanwl ar flaenoriaeth unigol bob dau gyfarfod neu dri. Cyn y cyfarfod mae'r hwb CARh yn casglu pecynnau gwybodaeth am y sefyllfa yng Ngogledd Cymru o ystadegau, ymchwil a gweithgareddau ymgysylltu i arwain y drafodaeth ar y pwnc y canolbwyntir arno. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Rhaglen Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP) i ddatblygu'r dull o "ganolbwyntio" a gofynnwyd i ni ei rannu yn eu cynhadledd fel enghraifft o arfer da.

Gan ddefnyddio'r dull hwn canolbwyntiwyd i ddechrau ar Ofalwyr Ifanc yn ystod mis Hydref 2022. Dosbarthwyd pecyn gwybodaeth, cyflwyniad a fideos oedd yn crynhoi'r dystiolaeth yn cynnwys ystadegau a data, adborth gan ofalwyr ifanc ac enghreifftiau o'r hyn sy'n gweithio'n dda mewn meysydd eraill. Yn dilyn amser i fyfyrio a sgwrsio am y cyflwyniad a'r fideos, gweithiodd y grŵp gyda'i gilydd i lunio cwestiynau i'w trafod a chafwyd cyfle i siarad a meddwl gyda'i gilydd fel rhan o ddull Cymuned Ymholi.

Cynhaliwyd sesiwn ffocws arall yn ymwneud â Phlant ar eu Pennau'u Hunain yn Ceisio Lloches ym mis Rhagfyr ac anabledd a salwch ym mis Mawrth. Sesiwn ar y blynyddoedd cynnar sydd ar y gweill nesaf. Yn seiliedig ar ddarganfyddiadau bob sesiwn, mae'r bwrdd yn llunio cynllun gweithredu ar y pwnc hwnnw ar gyfer sut i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Er enghraifft, archwilio'r posibilrwydd o Gynllun Gwarchodaeth i wella cefnogaeth i geiswyr lloches ifanc sydd ar eu pennau'u hunain.

Cyhoeddir darganfyddiadau bob pwnc y canolbwyntir arno ar dudalennau gwe Is-grŵp Plant y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/plant/

***Datblygu ein hymagwedd at ddull system gyfan Nyth / Nest***

Fel rhan o ddull system gyfan Nyth / Nest Llywodraeth Cymru, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gyda chydweithwyr sy'n arwain ar y rhaglenni trawsnewid ar gyfer plant yng Ngogledd Cymru yn cynnwys: Anableddau Dysgu; Niwro-ddatblygiadol; Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc; y Blynyddoedd Cynnar a Dim Drws Anghywir - y Dull Drws Cywir. Rydym yn cael ein cefnogi gan gydweithwyr yn y Tîm Iechyd Cyhoeddus a'u rhaglen y Dechrau Gorau a 5 Awgrym Llesol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am i becyn hunanasesu gael ei gwblhau ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru i sefydlu sut rydym yn rhoi'r dull hwn ar waith. I wneud hyn, rydym yn cydweithio gydag arweinwyr yr holl raglenni trawsnewid a'r Tîm Iechyd Cyhoeddus a byddwn yn gweithio gyda'r Grŵp Cyfeirio Budd-ddeiliaid i gydweithio'n ehangach i gynhyrchu'r pecyn gwaith ar y cyd. Hefyd, rydym yn datblygu matrics aeddfedrwydd ar y cyd.

***Strategaeth Dim Drws Anghywir – Gweithredu'r dull Drws Cywir***
Mae cam cyntaf y gwaith o roi Dim Drws Anghywir ar waith wedi cael ei gefnogi yn y tair ardal, gyda phresenoldeb da mewn gweithdai ym mhob ardal i ystyried y Trefniant Un Mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a lles emosiynol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r newid wedi cynnwys:

- Nodi pob ardal sy'n darparu model 'un drws ffrynt' sut bynnag maent yn amrywio. O ganlyniad, disgwylir adroddiad ar yr holl fodelau, fydd yn nodi arfer da a'r ffactorau llwyddiant allweddol i'w rhannu i bob partner yn y rhanbarth.
- Mae'r gwaith o fapio gwasanaethau hefyd wedi dechrau, fydd yn rhoi llawer iawn o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn yr ardaloedd i gyd.
- Drwy gydweithio â phlant, mae cam gweithredu Dim Drws Anghywir wedi cael ei ailenwi yn 'Ddull Drws Cywir'. Teimlir bod hyn yn llawer mwy cadarnhaol a chafodd ei gymeradwyo gan y Comisiynydd Plant.
- Cyfres gwe Drws Cywir - Mae plant Ysgol y Gogarth, Ysgol Arbennig dydd a phreswyl sydd â lle i tua 276 o ddisgyblion rhwng 3 a 19 oed ar hyn o bryd, wedi datblygu cyfres gwe i egluro'r Drws Cywir o safbwynt plentyn. Bydd hwn yn parhau i gael ei ddatblygu a'i lansio'n llawn yn 2023/24.
- Daeth BBC Wales (a ddarlledodd ar y newyddion mis nos) a Chomisiynydd Plant Cymru i ddigwyddiad lansio'r gyfres gwe. Mae ymrwymiad i barhau â'r gwaith gyda Hope Productions, sydd mewn sefyllfa dda iawn o safbwynt creadigol/darparu i weithio ar benodau newydd.




  Mae wedi bod yn wych rhannu'r gwaith hwn â phobl. Dyma gyd-greu ar ei orau ac mae TAPE wedi diolch i ni am y ffordd rydym wedi cefnogi'r prosiect hwn hyd yma ac wedi croesawu'r cyfle i drafod canlyniadau disgwyliedig ac annisgwyl y cydweithio, i gefnogi prosiectau a chyfleoedd i'r dyfodol.

  Rhannodd y Comisiynydd Plant y sylw canlynol am y gyfres gwe Right Door ac roedd yn awyddus i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fwy o waith:

> *"Mae wedi bod yn wych cael yr hanes a chyfarfod â'r bobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol oedd yn rhan o roi'r adnodd pwysig hwn at ei gilydd - Cyfres Gwe Right Door. Mae'r dull o gydweithio mewn partneriaeth i wneud hyn ddigwydd wedi gwneud argraff arbennig arnaf, ynghyd ag ymrwymiad gwirioneddol y bobl ifanc oedd yn cyd-gynhyrchu'r adnodd. Gwn fod yr enw 'Y Drws Cywir' yn derm a ysbrydolwyd gan ddull fy swyddfa, Dim Drws Anghywir, ac rwyf yn falch iawn bod y bobl ifanc eu hunain wedi meddwl am yr enw hwn, cymryd y cysyniad a'i droi yn rhywbeth positif, sy'n cadarnhau eu hawliau! Hoffwn longyfarch pawb sy'n rhan ohono ac rwyf yn dymuno pob llwyddiant i chi yn eich gwaith parhaus."*
>
> *Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru, Mai 2023*



***Cyflawniadau eraill:***

- Lansio gwefan Staywise Cymru yn Eisteddfod yr Urdd ar 30 Mai 2023. Mae'r Tîm Plant wedi cefnogi datblygiad gwefan Staywise Cymru ac fe'i hariannwyd drwy'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol. Mae athrawon lleol o Ogledd Cymru wedi darparu sicrwydd ansawdd a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd, mae Gwasanaeth Cyfieithu Cyngor Conwy wedi cyfieithu'r adnoddau i gyd ac mae tîm dylunio graffeg lleol o Ruthun wedi darparu eu harbenigedd. Mae'r wefan yn brosiect cydweithio cenedlaethol rhwng y Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Heddlu, y Gwasanaeth Ambiwlans, Network Rail, Cyfoeth Naturiol Cymru, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, Nofio Cymru a Thîm Cydweithio Gogledd Cymru. Dolen i'r wefan: https://staywise.cymru/

- Mae'r Fframwaith Iechyd Emosiynol, Lles a Gwytnwch wedi cael ei ddatblygu i rai rhwng 0 -18 oed ac mae'r un ar gyfer rhai rhwng 19-25 oedd yn cael ei ddatblygu. Mae wedi'i seilio ar y 5 Awgrym Llesol - bod yn egnïol, cysylltu, rhoi, dal ati i ddysgu a chymryd sylw. Mae'r fframwaith yn nodi nifer o ddatganiadau fesul oed i arwain plant a phobl ifanc, rhieni neu oedolion y gellir ymddiried ynddynt am iechyd emosiynol ar yr oedran hwnnw.

- Mae nifer o brosiectau peilot yn cael eu darparu i archwilio sut y gellir defnyddio'r fframwaith. Gwelwyd rhai llwyddiannau eisoes yn cynnwys ysgolion yn defnyddio'r fframwaith fel rhan o'u trafodaethau ar nosweithiau rhieni i arwain rhieni / oedolion y gellir ymddiried ynddynt. Mae cyfres o animeiddiadau'n cael eu datblygu i egluro manteision y fframwaith a dangos y gall newidiadau bychan ym mywydau bob dydd pobl gael effaith sylweddol ar iechyd emosiynol plant a phobl ifanc mewn rhai achosion.

## 3.5 Comisiynu

Mae Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cefnogi ac yn tanategu datblygiad a'r arfer o gomisiynu strategol ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd yng ngwasanaethau Oedolion a Phlant yng Ngogledd Cymru gan adnabod arferion gorau a darparu ymagwedd strategol gyson ar draws y rhanbarth.

**Grŵp Ffioedd Plant a Phobl Ifanc a Grŵp Ansawdd Plant a Phobl Ifanc**
Mae'r rhain yn ddau grŵp newydd a sefydlwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae'r ddau grŵp yn hwyluso rhannu gwybodaeth am geisiadau i gynyddu ffioedd gan ddarparwyr Gofal Preswyl / Gofal Preswyl ag Addysg i Blant a Phobl Ifanc a gan ddarparwyr Asiantaethau Maethu Annibynnol ble mae plant sy'n derbyn gofal o Ogledd Cymru yn cael eu lleoli, yn ogystal â rhannu ansawdd gofal a chefnogaeth y darparwyr.

Mae'r ddau grŵp wedi bod yn gweithio'n dda, ac er bod eu hagwedd yn anffurfiol, mae'n gyfle i bartneriaid rannu gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau o ran cynnydd mewn ffioedd, ond hefyd i siarad am unrhyw broblemau a allai godi gydag ansawdd. Mae'r partneriaid yn awyddus i barhau â'r grwpiau hyn gan eu bod yn gweld gwerth mewn dod at ei gilydd i drafod yr agweddau gwahanol hyn.

**Uwchgyfeirio Pryderon**
Cytunwyd ar Broses Uwchgyfeirio Pryderon Gogledd Cymru o'r enw Gwasanaethau o Ansawdd: Darparu'r Hyn sy'n Bwysig, ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth wedi'u comisiynu i blant, pobl ifanc ac oedolion, ac mae wedi cael ei rhoi ar waith.


**Cytundeb Cyn Lleoli**
Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud ar ddatblygu Cytundeb Cyn Lleoli Gogledd Cymru.

## 3.6 Llwybr Safonau Gofal Dementia (Cymru Gyfan)

Datblygwyd y Llwybr Gofal Dementia Cymru Gyfan o 20 Safon yn dilyn ymgynghori â phobl sy'n byw â dementia, sefydliadau trydydd sector a'r sector gwirfoddol a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, i ddynodi beth mae pobl sy'n byw â dementia yn feddwl fydd yn gwneud newid cadarnhaol i ofal dementia. Mae'r safonau'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn darparu dull rhagweithiol o fodloni anghenion iaith bob unigolyn.

Mae Gwelliant Cymru wedi cynllunio fframwaith darparu i helpu'r rhanbarth weithredu'r safonau drwy raglen dwy flynedd, gyda blwyddyn o baratoi ac yna blwyddyn o gynllunio gweithredu.

Yng Ngogledd Cymru, mae partneriaid yn gweithio tuag at gyflawni'r 20 safon drwy'r pum ffrwd waith a ddangosir isod. Mae pump grŵp gorchwyl wedi'u sefydlu i ddatblygu'r gwaith hwn, gyda chynrychiolaeth dda o'r bwrdd iechyd, y chwe awdurdod lleol, partneriaid trydydd sector a phobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr.




Mae'r safonau hyn wedi cael eu cysylltu â'r 34 cam gweithredu yn Strategaeth Dementia Gogledd Cymru fel y gallwn olrhain cynnydd a darpariaeth yn erbyn y ddau drwy waith y ffrydiau gwaith.

Gwnaed cynnydd gwych yn ystod 2022-2023 (y cam paratoi) ac rydym ar y trywydd iawn ar gyfer y cam gweithredu yn 2023-2024. Rhai o'r cyflawniadau yn y ffrydiau gwaith hyd yma:


- ✓ Mae’r ffrwdwaith Ymgysylltu â'r Gymuned wedi cynnal ymarferion ymgysylltu a chwmpasu i nodi gwasanaethau presennol ac unrhyw fylchau. Mae hyn wedi rhoi cyfleoedd ar gyfer dysgu a rhannu arferion da.
- ✓ Nodwyd tref Dinbych fel y gymuned gyntaf i ymgysylltu â hi fel rhan o’r ymgyrch wrando gofal dementia yng Ngogledd Cymru.
- ✓ Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu wyneb yn wyneb yn Ninbych a daeth dros 60 o bobl draw fel rhan o’r ymgyrch wrando.
- ✓ Datblygwyd holiaduron i ddeall anghenion cymunedau ar draws Gogledd Cymru fel rhan o’r ymgyrch wrando. Bydd y data’n cael ei ddadansoddi i ddatblygu cynllun o’r hyn y mae gofal dementia’n ei olygu i’r gymuned honno.
- ✓ Comisiynwyd gwasanaeth i ymgysylltu â phobl hŷn sy’n byw â dementia a’r teulu a ffrindiau sy’n gofalu amdanynt i gael eu barn yn y cymunedau canlynol:

  - Pobl â nam ar y synhwyrau - clyw a/neu’r golwg
  - Y gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol neu Cwiar (LHDTC+)
  - Cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith
  - Pobl â dementia cynnar
  - Du, Asiaidd a grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)
  - Pobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig
  - Pobl ddigartref
  - Pobl yn gadael y carchar

- ✓ Cydweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i hyrwyddo Protocol Herbert a chodi ymwybyddiaeth ohono. Mae Protocol Herbert yn rhoi cyfleuster i bobl sy’n byw â dementia a’u gofalwyr i gofnodi eu manylion allweddol, felly os byddant yn mynd ar goll, gellir defnyddio’r wybodaeth i helpu i ddod o hyd iddynt.
- ✓ Cynhaliwyd dadansoddiad o fylchau mewn hyfforddiant gyda’r chwe awdurdod lleol, y bwrdd iechyd a phartneriaid trydydd sector i gael darlun o’r hyfforddiant presennol e.e. gwybodus, medrus a dylanwadwr yn y fframwaith gwaith da.
- ✓ Mae’r gwasanaeth asesu cof awdioleg rhanbarthol wedi’i gyflwyno ar draws y rhanbarth.
- ✓ Mae’r cynllun pili-pala wedi’i roi ar waith i gleifion â diagnosis o ddementia neu amheuaeth ohono.

## 3.7 Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu

Sylfaen y rhaglen yw Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru. Mae’r strategaeth yn cael ei rhoi ar waith gan y tîm drwy 6 ffrwd waith: Strwythurau integredig, datblygu'r gweithlu, comisiynu a chaffael, newid cymunedol a diwylliannol, technoleg gynorthwyol a chyflogaeth.




### Cyflogaeth


Sefydlwyd ffrwd waith cyflogaeth newydd i gyd-gynhyrchu Strategaeth Cyflogaeth â Chymorth i bobl ag anableddau dysgu. Y model gwasanaeth cyflogaeth â chymorth yw sail y strategaeth - fe’i cynlluniwyd i ymateb yn uniongyrchol i’r sail dystiolaeth a mewnbwn gan bobl ag anableddau dysgu ar draws y rhanbarth.

### Rhaglen Hyfforddiant, Strategaeth a Rhwydwaith Cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn

Mae’r Rhaglen Hyfforddi Cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi dechrau gyda Chyflwyniad, Cwrs Gloywi a Chyrsiau Meddwl dwys sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae digwyddiad rhwydweithio cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cael ei gynllunio (dros dro) ar gyfer 29 Mehefin, ble bydd adborth o’r hyfforddiant a’r ymarferion Ymgynghori yn cael eu rhannu â’r gymuned PCP ac Anableddau Dysgu.

Mae'r tîm wedi bod yn rhan o ddatblygiad **Arweiniad 'Penderfynu â Chefnogaeth'** dwyieithog, a hwyluswyd gan Paradigm ac eraill o amgylch y DU.

> ***https://paradigm-uk.org/2023/05/05/new-practical-guide-to-supported-decision-making/.***




**Gweithgareddau cymunedol.** Defnyddir rhan o'r cyllid i ariannu gweithgareddau cymunedol dan arweiniad y trydydd sector, gyda'r pwrpas o ddarparu arian cychwynnol ac annog datblygiad adnoddau yn y gymuned fydd yn bodloni anghenion gofal a chymorth pobl ag anableddau dysgu y tu allan i'r arena iechyd a gofal cymdeithasol. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi buddsoddi bron i £1m mewn gweithgareddau o'r fath.  Eleni, helpodd y North Wales Flyers (rhwydwaith hunan eirioli Gogledd Cymru) i benderfynu sut i ddyrannu'r arian grant cymunedol ar gyfer 2023/24 a 2024/25.



**Adnoddau Taliad Uniongyrchol.** Mae fersiwn electronig y taflenni Taliad Uniongyrchol wedi cael eu dosbarthu i Reolwyr Gwasanaethau ar draws yr ardal. Mae copïau caled ar gael drwy gysylltu â

Ruby.jones@flintshire.gov.uk

**Technoleg**

Cefnogir y ffrwd waith Technoleg gan strategaeth dechnoleg a ddatblygwyd yn 2020. Mae'r strategaeth yn nodi tri rhwystr i ddefnyddio technoleg: Sef:

- Mynediad at offer a'r rhyngrwyd
- Hyder i ddefnyddio offer, a
- Sgiliau a gwybodaeth am yr offer a'r rhaglenni sydd ar gael

Mae hyfforddiant yn allweddol i ymdrin â'r rhwystrau hyn ac mae'r ddwy sesiwn gyntaf (o 8) wedi cael eu cynnal ar gyfer y cwrs Ymwybyddiaeth o Dechnoleg Gynorthwyol. Mae tri chwrs yn cael eu treialu yn Wrecsam a Gwynedd a byddant yn cael eu cyflwyno ar draws y rhanbarth o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Mae'r hyfforddiant wedi'i anelu at y rhai sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu a chynlluniwyd y sesiynau i wella hyder a gwybodaeth am ddefnyddio technoleg gyda phobl ag anableddau deallusol.

Mae gan y rhaglen lyfrgell dechnoleg sy'n benthyca neu ddarparu offer i bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr. Mae arweinydd y ffrwd waith hefyd yn darparu mynediad at raglenni sy'n helpu i gefnogi gwahanol agweddau o fywydau ac anghenion cefnogi unigolion. Ymhlith enghreifftiau sy'n cael eu treialu mae'r ap 'paincheck', sy'n dynodi poen mewn unigolion sy'n methu cyfleu'r boen honno, a'r ap PBAS sy'n helpu i gefnogi trefn ddyddiol pobl i'w galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd.

**Lansio fideos Life After School.** Lansiwyd cyfres o ffilmiau byrion o'r enw 'Life After School' yn Ysgol y Gogarth ddydd Gwener 5 Mai 2023. Mae'r tîm yn falch o fod wedi gweithio ochr yn ochr â Chlwb Ieuenctid Cefn Llwyfan Cerddoriaeth a Ffilm TAPE ar y prosiect hwn. Helpodd y bobl ifanc yn y clwb ieuenctid i animeiddio, trosleisio a chreu'r ffilmiau, gyda'r nod o helpu pobl ifanc ag anableddau dysgu wneud dewisiadau ar gyfer eu bywydau ar ôl ysgol. Mae'r fideos yn cynnwys pynciau fel dod o hyd i rywle i fyw, mynd i'r coleg a chael gwaith. Gellir gweld y ffilmiau hyn ar ein tudalen YouTube North Wales Together - Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd. Neu drwy sganio'r cod QR yma:

**Gweithgareddau a Ariennir i Blant a Phobl Ifanc.** Mae gweithgareddau wedi cael eu hariannu hefyd i blant a'u teuluoedd, sy'n cynnwys dyddiau yng Nglan Llyn, gweithgareddau chwarae meddal yn Ynys Môn, grwpiau drama i blant, prosiect trawsnewid gan Gyswllt Conwy a llawer mwy.







## 3.8 Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad

Rydym wedi cyhoeddi ein Hadroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad cyntaf sy'n cynnwys gwybodaeth am argaeledd gofal a chefnogaeth ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys cartrefi gofal, gofal cartref, cartrefi plant, maethu, mabwysiadu, eirioli a chymorth i ofalwyr di-dâl. Mae'r adroddiad yn asesu pa mor dda mae'r ddarpariaeth gyfredol yn bodloni anghenion pobl ac yn argymell ffyrdd o wneud yn siŵr fod digon o gefnogaeth ar gael yn y dyfodol.

## 3.9 Asesiad o Anghenion y Boblogaeth

Wrth i ddata Cyfrifiad 2021 ddechrau cael ei gyhoeddi, rydym wedi cynhyrchu cyfres o adroddiadau am y canlyniadau cychwynnol ar gyfer gogledd Cymru, gan gynnwys data am ddemograffeg a chydraddoldeb.

Rydym wedi cyflwyno amrediad o adroddiadau data pwrpasol i'n partneriaid ar bynciau fel anghenion pobl hŷn, iechyd meddwl plant a phobl ifanc ac i lywio Strategaeth Gogledd Cymru Actif. Rydym wedi cynhyrchu proffiliau ystadegol ar gyfer gogledd Cymru, sy'n cynnwys gwybodaeth am yr amgylchedd cymdeithasol a ffisegol ehangach all effeithio ar iechyd a lles yn ardaloedd cynghorau lleol, ardaloedd y bwrdd iechyd ac ardaloedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng ngogledd Cymru. Rydym hefyd yn adolygu pynciau fel rhan o'n gwaith canolbwyntio ar blant a phobl ifanc i Is-grŵp Plant y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ofalwyr ifanc, ffoaduriaid a cheiswyr lloches ifanc.

Ewch i weld y tudalennau ystadegau ac ymchwil ar wefan y Gydweithredfa Ranbarthol.

## 3.10 Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Ym mis Ebrill 2022, cyflwynwyd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) newydd oedd yn disodli ffrydiau ariannu Refeniw a Thrawsnewid y Gronfa Gofal Canolraddol (ICF).

Mae'r RIF yn rhaglen ariannu bum mlynedd i gefnogi cynllunio hir dymor y BPRhGC ac mae'n allweddol o ran hyrwyddo newid a thrawsnewid ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol. Y nod erbyn diwedd y rhaglen pum mlynedd yw y byddwn wedi sefydlu a phrif-ffrydio o leiaf chwe model cenedlaethol newydd o ofal integredig fel y gall dinasyddion Cymru, ble bynnag y maen nhw'n byw, fod yn sicr o wasanaeth effeithiol a di-dor.

Mae'n rhaid i'r holl weithgaredd a ariennir gan y RIF gefnogi datblygiad a darpariaeth y chwe model cenedlaethol o ofal integredig yn uniongyrchol, sef:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal cymunedol –** ***atal a chydgysylltu cymunedol*** | **Gofal cymunedol** ***– gofal cymhleth yn nes adref*** | **Hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da** | **Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal** | **Gartref o'r ysbyty** | **Atebion seiliedig ar lety** |

Dangosir y buddsoddiad yn 2022/23 ym mhob un o'r modelau gofal cenedlaethol gan arian RIF Llywodraeth Cymru a gan sefydliadau partner yn y tabl isod:

| Model Gofal | Cyfanswm Buddsoddiadau £ | Cyllid Llywodraeth Cymru £ | Arian Cyfatebol Partner £ | Adnodd Cyfatebol Partner £ |
|---|---|---|---|---|
| Gofal yn y Gymuned - Atal a Chydlynu | £8,702,362 | £7,225,965 | £1,294,823 | £181,574 |
| Gofal yn y Gymuned - Gofal Cymhleth yn Nes at y Cartref | £13,804,024 | £7,100,244 | £4,829,106 | £1,874,674 |
| Adref o'r Ysbyty | £5,631,881 | £4,755,991 | £614,240 | £261,650 |
| Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o ofal | £12,247,846 | £9,164,837 | £1,723,974 | £1,359,035 |
| Atebion yn Seiliedig ar Lety | £1,034,308 | £712,934 | £280,635 | £40,739 |
| Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da | £2,339,406 | £1,203,936 | £654,712 | £480,758 |
| **Cyfanswm** | **£43,759,826** | **£30,163,907** | **£9,397,489** | **£4,198,430** |

Gwariwyd ychydig dros £7 miliwn ar brosiectau a oedd yn cefnogi gofalwyr yn uniongyrchol a buddsoddwyd £5 miliwn i gefnogi prosiectau gwerth cymdeithasol.

Mae adroddiad diwedd blwyddyn y RIF ynghlwm yn ei gyfanrwydd yn Atodiad 3.

## 3.11 Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant

Nod yr Hwb yw cydlynu gweithgareddau ymchwil, arloesi a gwella iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru.

Yn 2022-23, aethom ati i werthuso syniadau arloesol megis y prosiect Catalyddion Cymunedol a dyfeisiau RITA i gefnogi gweithgareddau therapi hel atgofion, adsefydlu a rhyngweithiol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Edrychwn ymlaen at gael rhannu effeithiau cadarnhaol y prosiectau hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Er mwyn cefnogi'r Bwrdd Digidol, Data a Thechnoleg rhanbarthol newydd, bu i ni ddechrau mapio'r prosiectau digidol arloesol sy'n cael eu cynnal yng Ngogledd Cymru.

Buom yn cydweithio'n agos â'r rhaglen Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP) i wella ein dulliau o gasglu, trafod a defnyddio tystiolaeth ymchwil. Mae hyn yn cynnwys dulliau adrodd straeon o gasglu tystiolaeth a defnyddio dull a elwir yn Gymuned Ymholi i fyfyrio ar dystiolaeth a gasglwyd gennym i gefnogi gwaith Is-grŵp Plant y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Bu i ni gefnogi rhaglenni rhanbarthol gyda chwiliadau i ganfod tystiolaeth ymchwil am bynciau y maent yn gweithio arnynt. Roedd hyn yn cynnwys chwiliadau am gynhwysiant digidol, plant nad ydyn nhw'n mynd i'r ysgol a gofalwyr ifanc sy'n gofalu am oedolion â phroblemau iechyd meddwl.

Gan gydweithio'n agos â hybiau rhanbarthol eraill a sefydliadau cenedlaethol, aethom ati i rannu, hyrwyddo a datblygu syniadau newydd, gan gynnwys aelodaeth o Rwydwaith Arloesi newydd ar gyfer Gogledd Cymru. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd nifer dilynwyr ein cyfrif Twitter wedi cynyddu i 400, gyda 172 o bobl wedi tanysgrifio i restr bostio'r hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol (CARh).

Dilynwch ni ar Twitter @_NW_RICH, cofrestrwch i dderbyn ein newyddlen ac ewch draw i dudalennau gwe hwb CARh i gael rhagor o wybodaeth.

*Yn 2022-23, ail-frandiwyd yr hwb fel Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol (arferai gael ei adnabod fel Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant), sef rhan o Raglen Arloesi, Technoleg a Phartneriaethau Llywodraeth Cymru.*

## 3.12 Rhaglen Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl

Mae'r Rhaglen Fedra i ("Annibynnol, Cysylltiol, Gweithredol a Rhwydweithiol") a ariennir gan Gymru Iachach yn rhan o'r strategaeth gyffredinol hon. Ei nod gyffredinol yw rhoi system a diwylliant gofal mwy integredig ac arloesol ar waith sy'n atal, ond pan fo angen, yn ymateb yn effeithiol i gyfnodau o angen iechyd meddwl llym ac argyfwng. Mae'r rhaglen a ariennir yn ceisio datblygu'r hyn sy'n gweithio a chynyddu cyflymdra trawsnewid ar draws Gogledd Cymru i greu system gofal brys integredig sy'n arweinydd yn y sector. Yn sylfaen i hyn, mae creu llwybr integredig Fedra i sy'n gwella cydweithio, o fewn a rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, partneriaid statudol a sefydliadau trydydd sector.

Mae cydrannau'r cynnig Fedra i wedi newid a datblygu yn ystod cyfnod y Rhaglen. Maent wedi datblygu i'r cydrannau allweddol canlynol:

- Canolfannau Fedra i - 8 canolfan gymunedol ym mhob un o'r prif drefi yn y rhanbarth, yn gweithio gyda phartneriaid o'r trydydd sector i gynnig cefnogaeth hawdd cael gafael arni, cyfeirio ac amgylchedd diogel.
- Fedra i Gofal Sylfaenol - Prosiect peilot i roi Therapyddion Galwedigaethol arbenigol mewn Meddygfeydd, yn cynnig ymyrraeth iechyd meddwl penodol, cyngor, cyfeirio ac atgyfeiriadau ymlaen.
- Fedra i Weithio - Cefnogaeth â chyflogaeth
- Fedra i Digidol - mynediad at gymorth at les meddyliol gan ddefnyddio ystod o apiau ac adnoddau ar-lein.

## 3.13 Gweithlu

Mae'r Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol wrthi'n adolygu Strategaeth Gweithlu Rhanbarthol Gogledd Cymru ar hyn o bryd i gefnogi'r Strategaeth Gweithlu Cenedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a bydd yn sicrhau bod y saith thema strategol a nodwyd yn y strategaeth genedlaethol yn cael eu cynnwys yn llawn yn y rhaglen gyflawni.

Mae'r Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol yn parhau i gefnogi strategaethau a blaenoriaethau cenedlaethol presennol sy'n cynnwys yr ymgyrch genedlaethol, Gofalwn, i ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr gofal. Cynhaliwyd cyfarfodydd cynllunio â Gyrfa Cymru i drafod sut i arddangos yr ymgyrch Gofalwn wrth ymgysylltu ag ysgolion yn enwedig. Cynhaliwyd trafodaethau tebyg â'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd. Cysylltwyd â thimau cyflogadwyedd awdurdodau lleol a darparwyd cyflwyniadau i ddangos pa adnoddau sydd ar gael iddynt i hyrwyddo'r sector.

Datblygwyd Rhaglen Llysgennad Gogledd Cymru sy'n cynnwys ymweliadau ag ysgolion, darparu digwyddiadau ar-lein a mynychu ffeiriau swyddi. Mae cyfleoedd yn cael eu datblygu i Lysgenhadon rannu eu profiadau a'u syniadau hefyd.
Mae cynghrair strategol wedi'i ffurfio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o ran eu rhaglen Camu mewn i Waith i oedolion sy'n gwirfoddoli. Mae'r rhaglen yn dynodi cyfleoedd lleoliadau gwaith i amrywiaeth o grwpiau sy'n cynnwys, ymhlith eraill, aelwydydd di-waith, pobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor, myfyrwyr addysg uwch a phellach.

O ganlyniad i'r gynghrair hon, mae wedi bod yn bosibl datblygu rhaglen amgen o'r enw 'Blas ar Ofal'. Nod y rhaglen hon yw dynodi'r unigolion hynny sydd â diddordeb mewn gweithio yn y maes gofal cymdeithasol yn unig. Mae'n rhaglen fyrrach, yn cynnwys diwrnod yr wythnos o brofiad gwaith am bedair wythnos i gyd. Dilynir modiwlau e-ddysgu, sy'n ymestyn drosodd i Fframwaith Ymsefydlu Cymru Gyfan, pe baent yn dymuno cael gyrfa yn y sector gofal.

Menter arall ar y cyd â BIPBC yw banc staff rhanbarthol. Dechreuodd hyn yn ystod y pandemig Covid, gyda'r bwriad o ddarparu cefnogaeth ychwanegol i gartrefi gofal yn y rhanbarth. Cydnabyddir nad oedd hyn yn ateb addas i bawb ar y pryd efallai, oherwydd nifer o amgylchiadau lliniarol. Fodd bynnag, mae wedi rhoi cyfle i drafod sut gallai hyn fod o fudd i bawb yn y dyfodol, gan gymryd y gellir goresgyn yr anawsterau a gafwyd eisoes. I'r perwyl hwn, mae grŵp llywio bychan wedi cael ei greu er mwyn trafod y ffordd ymlaen, gyda'r bwriad o gynnal prosiect peilot. Yna, gellir cynnal gwerthusiad i nodi pa rannau o'r fenter sy'n gweithio, neu sydd ddim yn gweithio, a yw'n darparu gwerth am arian a pha fanteision hirdymor fyddai yna i fenter o'r fath.

Un maes sy'n peri pryder a amlygwyd i'r Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol yn ddiweddar yw'r prinder Therapyddion Galwedigaethol i'r bwrdd iechyd a'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth. Ffurfiwyd gweithgor bychan a thrwy drafod, dynodwyd atebion posibl yn rhanbarthol ac yn genedlaethol a allai ymdrin â hyn yn y dyfodol. Gyda hyn mewn golwg ac er mwyn amlygu'r materion hyn, mae'r Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol wedi cyfathrebu â Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru i fynegi'r pryderon hyn, gan awgrymu ffordd o'u datrys. Rhagwelir y bydd y gweithgor yn ymgysylltu eto â'r ddau sefydliad yn ystod y misoedd nesaf.

Mae Cynllun Gweithredu Datblygu'r Gweithlu Rhanbarthol, a ariannwyd drwy Grant Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cael ei gymeradwyo a'i rannu â phob awdurdod lleol. Mae disgwyliad ym mhob awdurdod lleol i ddatblygu cynlluniau hyfforddi'r gweithlu, yn unol â'r blaenoriaethau yn Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Asesiad Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth.

# 4 Cyfathrebu, ymgysylltu a gwerth cymdeithasol

## 4.1 Ymgysylltu yng Ngogledd Cymru

Mae BPRhGC yn parhau i ymgysylltu â phobl mewn gwahanol ffyrdd e.e. y cyfryngau cymdeithasol; ar-lein; dros Teams/Zoom ac ati. Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu wyneb yn wyneb yn 2022/23 wedi i gyfyngiadau Covid gael eu llacio. Mynychwyd digwyddiadau lleol a chynhaliwyd Ymgyrch Wrando gyntaf Gogledd Cymru ar Ddementia yn nhref Dinbych.

Ffurfiwyd perthnasoedd gwaith rhagorol, sy'n caniatáu i ni ymgysylltu â grwpiau nes clywir ganddynt yn aml, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Mae ymgysylltu parhaus â'n pobl, partneriaid a budd-ddeiliaid yn hanfodol.

Roedd Swyddog Ymgysylltu BPRhGC yn aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen ar gyfer llunio ymrwymiadau'r Siarter Ymgysylltu a Llais ar gyfer holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol Cymru. Mae'r Siarter yn nodi cyfranogiad ystyrlon defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr ar y Byrddau. Mabwysiadodd y BPRhGC y Siarter ym mis Rhagfyr 2022.

Mae gan Swyddog Ymgysylltu BPRhGC berthnasoedd gwaith rhagorol â swyddogion cyfathrebu ac ymgysylltu sefydliadau partner ac mae'n parhau â'r trefniadau cyfredol ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu yn ymwneud â'r Bwrdd a'i waith. Drwy gael Swyddog Ymgysylltu pwrpasol mae'r Bwrdd yn medru cyflymu ei weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu a datblygu ar sail y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud.

## 4.2 Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru

Mae Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru wedi tyfu ers iddo gael ei ffurfio yn 2016 ac mae aelodau newydd wedi ymuno ers hynny. Mae'r aelodau newydd hyn yn cynnwys partneriaid o BIPBC, awdurdodau lleol a'r trydydd sector/sector gwirfoddol, fodd bynnag, mae'n amser da i edrych eto ar aelodaeth a chylch gorchwyl y grŵp hwn. Gwneir hyn ym mis Mai mewn cyfarfod wyneb yn wyneb. Bydd y grŵp hwn yn dal i gefnogi darpariaeth gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru yn parhau i weithio gyda Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru i hyrwyddo datblygiad sefydliadau dielw preifat (yn cynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector) i ddarparu gofal a chefnogaeth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol.

Bydd y grŵp yn hyrwyddo gwaith ar y cyd, partneriaeth a chyfleoedd rhwydweithio ar draws sectorau, gyda'r nod o gynyddu gwerth cymdeithasol a chyd-gynhyrchu ar draws yr holl ddarparwyr sy'n darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a/neu wasanaethau lles yng Ngogledd Cymru.

Dros y 3 blynedd nesaf, bydd y grŵp yn canolbwyntio ar:

- Bydd y Fforwm yn dyfeisio cynllun gweithredu ar gyfer y tair blynedd nesaf.
- Bydd y Fforwm yn parhau i weithio gyda Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru.
- Bydd y Fforwm hefyd yn ceisio mesur effaith gwerth cymdeithasol a sut mae'n cael ei ddarparu yng Ngogledd Cymru. Bydd angen cytuno a fydd hyn yn cael ei fesur drwy Fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau Llywodraeth Cymru i'w cytuno arnynt yn rhanbarthol, yna'n lleol.
- Bydd aelodau'r Fforwm yn parhau i weithio'n agos gyda Chwmpas fel rhan o is-grŵp o'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol i ganolbwyntio ar "*Hyrwyddo Modelau Cyflawni Gwerth Cymdeithasol mewn Gofal Cymdeithasol".* Dogfen ganllawiau sydd wedi'i hanelu at gomisiynwyr, rhai sy'n caffael a darparwyr gwasanaethau i'w helpu i ddeall pam a sut y gallai hyrwyddo Modelau Cyflawni Gwerth Cymdeithasol wrth dendro effeithio ar eu gweithgareddau.
- Gan weithio gyda Chynghorau'r Gwasanaethau Gwirfoddol, bydd y Fforwm yn canolbwyntio ar brosiectau Trydydd Sector, yn arbennig gan ddefnyddio arian y Gronfa Gofal Integredig i gyflawni'r budd mwyaf posibl.

## 4.3 Grwpiau Gofalwyr Gogledd Cymru

Mae Grŵp Gweithredol Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru wedi parhau i gyflawni ar Strategaeth Ranbarthol Gofalwyr Gogledd Cymru. Mae'r grŵp wedi cytuno y bydd y cynllun gweithredu sy'n cefnogi Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'r blaenoriaethau cenedlaethol yn cael eu hadolygu a'u hadnewyddu ar gyfer y flwyddyn nesaf gan y grŵp gweithredol.

Mae ein Gwasanaeth Hwyluso Meddygon Teulu ac Ysbytai a ariannwyd gan Grant Blynyddol Gofalwyr Llywodraeth Cymru, wedi parhau i gefnogi gofalwyr di-dâl mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Bu pwyslais penodol ar yr Hwyluswyr Gofalwyr Ysbyty a rhoddwyd cefnogaeth pan oedd rhywun yn cael ei ryddhau o'r ysbyty. Bydd y pwyslais yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf, ac mae Grant Blynyddol Gofalwyr Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai'r pwyslais fod ar gefnogi gofalwyr di-dâl pan fydd y sawl maen nhw'n gofalu amdano yn cael ei dderbyn neu ei ryddhau o'r ysbyty. Bwriad y newid hwn yw helpu i ryddhau cleifion yn gyflym o'r ysbyty drwy gefnogi a chynnwys eu gofalwyr di-dâl yn y broses.

Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2022, cafodd dros 800 o ofalwyr di-dâl eu dynodi a'u cefnogi mewn gofal sylfaenol gan y ddau ddarparwr a gomisiynwyd gennym, Cynnal Gofalwyr a Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae nifer debyg o ofalwyr di-dâl wedi cael eu dynodi a'u cefnogi mewn gofal eilaidd hefyd wrth gefnogi claf mewnol neu wrth i'r gofalwr ei hun gael ei dderbyn i'r ysbyty.

## 4.4 Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru

Mae nifer y gofalwyr ifanc sydd wedi eu nodi yng Ngogledd Cymru wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd cynnydd mewn atgyfeiriadau drwy ymgyrchoedd llwyddiannus i godi ymwybyddiaeth a pherthnasoedd cadarnhaol gydag asiantaethau partner. Ym mis Tachwedd 2021, pan gasglwyd y data ar gyfer yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, roedd 1,752 o ofalwyr ifanc yn cael eu cefnogi ar draws Gogledd Cymru.

Lansiwyd y cerdyn adnabod cenedlaethol i Ofalwyr Ifanc yng Ngogledd Cymru ym mis Mawrth 2021 mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, i ddynodi gofalwyr ifanc ac i godi ymwybyddiaeth, yn ogystal â chydnabod eu rôl gofalu bwysig, sy'n anweledig yn aml. Nod y fenter genedlaethol hon, a gefnogir gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yw helpu gofalwyr ifanc gael mynediad at y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir; boed hynny yn eu hysgol, mewn fferyllfa neu wrth siopa ar gyfer y sawl maen nhw'n gofalu amdano.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Ynys Môn a Gwynedd wedi treialu ap, AIDI, sy'n cynnwys cerdyn adnabod digidol yn ogystal â nodwedd gyfathrebu "Cysylltu â fy ysgol", sy'n ffordd hawdd i ofalwyr ifanc gysylltu â'u hysgol os ydynt yn cael problemau ac angen cefnogaeth gyda'u gwaith ysgol oherwydd eu rôl gofalu gartref. Lansiwyd AIDI yn ffurfiol y mis diwethaf ac mae bellach ar gael i bob gofalwr ifanc yn y ddwy sir.

I ddechrau, lansiodd Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam gerdyn plastig i sicrhau ei fod yn hygyrch i bob gofalwr ifanc, yn cynnwys y rhai oedd heb ddyfeisiau electronig, a hyd yma cyhoeddwyd dros 200 ohonynt. Mae mwy o waith ar y gweill eleni i lansio ap â nodweddion tebyg i AIDI yn y Gorllewin.

# 5 Edrych Ymlaen

## 5.1 Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24 a thu hwnt

Mae blaenoriaethau ar gyfer y Bartneriaeth Ranbarthol yn dod o'r:

- Asesiad o Anghenion y Boblogaeth
- Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad
- Arweiniad y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol
- Cynllun Cyfalaf Strategol
- Mentrau Llywodraeth Cymru
- Blaenoriaethau Partneriaid

Rydym wedi cwblhau ein blaenoriaethau a'n pwyslais ar gyfer y tymor byr a hir ac mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Ardal Rhanbarthol.

https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/wp-content/uploads/2023/04/NW-Regional-Area-Plan-2023-1.0-CY.pdf

I gefnogi'r cynllun, mae Cynllun Darparu blynyddol manwl sy'n amlinellu beth mae arnom eisiau ei gyflawni yn y 12 mis nesaf yn erbyn pob ffrwd waith. Mae copi wedi'i atodi yn Atodiad A.

**Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio i fodloni'r gofynion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

# Atodiad 1 – Aelodaeth BPRhGC

Ar 31 Mawrth 2023

**Alwyn Jones**
Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Alwyn Williams**
Prif Arolygydd Heddlu Gogledd Cymru

**Ann Woods**
Prif Swyddog, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint

**Catrin Roberts**
Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol

**Cyng Alun Roberts,**
Cyngor Sir Ynys Môn

**Cyng Christine Jones**
Cyngor Sir y Fflint

**Cyng John Pritchard**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Cyng Liz Roberts**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Cyng Dilwyn Morgan**
Cyngor Gwynedd

**Cyng Elen Heaton**
Cyngor Sir Ddinbych

**Dr Lowri Brown**
Pennaeth Gwasanaethau Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Dylan Owen**
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd

**Estelle Hitchon**
Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu, WAST

**Ffion Johnstone**
Cyfarwyddwr Cymunedau Iechyd Integredig (y Gorllewin) BIPBC

**Fôn Roberts**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ynys Môn

**Gill Harris**
Cyfarwyddwr Gweithredol, BIPBC

**Jenny Williams**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Karen Higgins**
Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Lliniarol a Gwasanaethau Plant, BIPBC

**Libby Ryan-Davies**
Cyfarwyddwr Cymunedau Iechyd Integredig (Ardal y Canol) BIPBC

**Liz Grieve**
Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Ddinbych

**Mary Wimbury**
Prif Swyddog Gweithredol ac Uwch Gynghorydd Polisi, Fforwm Gofal Cymru

**Meinir Williams-Jones**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Barnardo's Cymru ar gyfer Gogledd Cymru

**Michelle Green**
Cyfarwyddwr Cymunedau Iechyd Integredig (Dwyrain) BIPBC

**Neil Ayling**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir y Fflint

**Nicola Stubbins**
Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, Cyngor Sir Ddinbych

**Rhun ap Gareth**
Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Roger Seddon**
Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth

**Siân Elen Tomos**
Prif Weithredwr, GISDA

**Steve Gadd**
Pennaeth Cyllid ac Archwilio, Cyngor Sir Ddinbych

**Teresa Owen**
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus BIPBC

# Atodiad 2 - Cynllun Cyflawni Blynyddol

Mae pob ffrwd waith yn ystyried y themâu trawsbynciol: Y Gymraeg - 'Cynnig Rhagweithiol', cydraddoldeb a hawliau dynol, anfantais economaidd-gymdeithasol, tai, digartrefedd, unigrwydd ac arwahanrwydd, gwerth cymdeithasol, cyd-gynhyrchu a llais y dinesydd, atal, diogelu, trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol a Covid-19.

| **Ffrwd Waith** | **Cam Gweithredu** | **Dolenni i ddogfennau allweddol** | **Arweinydd Rhanbarthol** | **Arweinydd/Arweinwyr Ffrwd Waith** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol | Cyflwyno Rhaglen Gynlluniau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer pob Model Gofal | Tudalennau gwe y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol | | Siobhan Gothorp<br>Sharon Hinchcliffe<br>Kathryn Whitfield<br>Lisa Goodier | |
| Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol | Sefydlu fframwaith canlyniadau sy'n galluogi adrodd cyson ar fesurau perfformiad ar draws yr holl brosiectau a Modelau Gofal fel y gellir monitro'r gwahaniaeth a wnaed a'r pellter a deithiwyd. | | | Siobhan Gothorp<br>Sarah Bartlett | |
| Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol | Datblygu fframwaith gwerthuso i alluogi gwerthusiad cadarn rheolaidd o gynlluniau i lywio'r gwaith o gynllunio rhaglenni yn y dyfodol | | | Siobhan Gothorp<br>Sarah Bartlett | |
| Plant a phobl ifanc | Gweithredu'r Strategaeth Drws Cywir (mewn ymateb i'r adroddiad Dim Drws Anghywir) | Y Strategaeth Drws Cywir | Fôn Roberts<br>Louise Bell | Sharon Hinchcliffe | |
| Plant a phobl ifanc | Datblygu blaenoriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, gan ystyried gwahanol anghenion ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. | Tudalennau gwe Is-grŵp Plant y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Fôn Roberts<br>Louise Bell | Sharon Hinchcliffe | |
| Plant a phobl ifanc | Fframwaith NYTH/NEST: dull system gyfan ar gyfer iechyd meddwl | Fframwaith NYTH | Fôn Roberts<br>Louise Bell | Sharon Hinchcliffe | |
| Dementia | Gweithredu Strategaeth Dementia Gogledd Cymru | Strategaeth Dementia Gogledd Cymru | | Siobhan Gothorp | |
| Dementia | Anghenion llety dementia yn y Cynllun Cyfalaf Strategol | | | Siobhan Gothorp | |

| Ffrwd Waith | Cam Gweithredu | Dolenni i ddogfennau allweddol | Arweinydd Rhanbarthol | Arweinydd/Arweinwyr Ffrwd Waith | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Anableddau dysgu | Gweithredu Rhaglen Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd, wedi'i ategu gan waith cyd-gynhyrchu sy'n canolbwyntio ar gymunedau a newid diwylliannol, llety, technoleg gynorthwyol, cyflogaeth a phlant a phobl ifanc. | Gwefan Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd | Neil Ayling | Kathryn Whitfield | |
| Awtistiaeth | Gweithredu'r cod ymarfer statudol ar gyflwyno Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Awtistiaeth 2021-22 | | | Alison Lowry | |
| Iechyd Meddwl | Adolygu a gweithredu strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ar gyfer Gogledd Cymru | | | Vicky Jones | |
| 'Ymhellach, Ynghynt' - Ein nod o adeiladu Gwasanaeth Gofal Cymunedol Integredig ar gyfer Cymru | Cefnogi datblygiad Gwasanaeth Gofal Cymunedol ar gyfer Cymru | | | Catrin Roberts | |
| 'Ymhellach, Ynghynt' - Ein nod o adeiladu Gwasanaeth Gofal Cymunedol Integredig ar gyfer Cymru | Adolygu Rhaglen y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i nodi unrhyw gyfleoedd i gynyddu capasiti cymunedol ymhellach fel rhan o'r gwaith Ymhellach Ynghynt | | | Catrin Roberts | |
| Cynllun Cyfalaf Strategol | Datblygu Cynllun Cyfalaf Strategol 10 mlynedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru | | Neil Ayling | Siobhan Gothorp<br>Joseph Griffiths | |
| Gweithlu | Cwmpasu rhaglen waith Ffrwd y Gweithlu | | Jenny Williams | Llinos Howatson | |
| Gweithlu | Recriwtio a chadw | | Jenny Williams | Llinos Howatson | |

| Ffrwd Waith | Cam Gweithredu | Dolenni i ddogfennau allweddol | Arweinydd Rhanbarthol | Arweinydd/Arweinwyr Ffrwd Waith | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithlu | Rhaglen Blas ar Ofal: yn rhoi cipolwg ar y sector gofal i bobl sydd â diddordeb mewn gyrfa newydd | | Jenny Williams | Rebecca Szekely | |
| Comisiynu | Adolygiadau blynyddol Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad | Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad | | Llinos Howatson | |
| Comisiynu | Cwblhau Cynllun Gweithredu Archwilio Pobl Hŷn Cymru i gynnwys drafftio, cytuno a gweithredu Strategaeth Gomisiynu Ranbarthol | | Alwyn Jones<br>Jane Trowman | Llinos Howatson | |
| Comisiynu | Gweithredu Cytundeb Cyn Lleoli ar gyfer Darparwyr Gwasanaeth i gynnwys cydlynu'r Gweithdai a sefydlu proses ar gyfer coladu'r CCLI gorffenedig. | | Alwyn Jones<br>Jane Trowman | Llinos Howatson | |
| Comisiynu | Cwblhau'r Polisi Uwchgyfeirio Pryderon a'i roi ar waith | | Alwyn Jones<br>Jane Trowman | Llinos Howatson | |
| Comisiynu | Datblygu Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Lleoliad Pobl Hŷn | | Alwyn Jones<br>Jane Trowman | Llinos Howatson | |
| Comisiynu | Adolygu trefniadau Gwir Gost Gofal ar gyfer y rhanbarth | | David Soley | Llinos Howatson | |
| Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol | Cydlynu ymchwil, arloesi a gweithgareddau gwella<br>Y diweddaraf ar asesiad o anghenion y boblogaeth | Tudalennau gwe hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol | Jenny Williams | Sarah Bartlett | |
| Mwy Na Geiriau | Ysgogi cynnydd o dan thema gyffredinol **diwylliant ac arweinyddiaeth** a'r tair thema<br>1. Cynllunio a Pholisïau Cymraeg gan gynnwys data<br>2. Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol<br>3. Rhannu arferion gorau a dull o alluogi | Mwy na geiriau: cynllun 5 mlynedd 2022 i 2027 | Ffion Johnston | Eluned Yaxley | |

| Ffrwd Waith | Cam Gweithredu | Dolenni i ddogfennau allweddol | Arweinydd Rhanbarthol | Arweinydd/Arweinwyr Ffrwd Waith | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Diogelu | Ymateb yn effeithiol i'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiadau Ymarfer Oedolion/ Plant Rhanbarthol, y fforwm proffesiynol Amlasiantaethol Rhanbarthol ac adolygiadau diogelu Cenedlaethol a'r DU. | | Jenny Williams Neil Ayling | David Lewis | |
| Diogelu | Ymgysylltu a chyfathrebu yn effeithiol: Gwella ymgysylltu ac ymgynghori gyda phlant ac oedolion mewn risg, grwpiau diamddiffyn, gweithwyr proffesiynol a phartneriaethau | | Jenny Williams Neil Ayling | David Lewis | |
| Diogelu | Cefnogi proses weithredu'r ddeddfwriaeth newydd a chyfredol, gan gynnwys Stopio Cosbi Corfforol a Threfniadau Amddiffyn Rhyddid ochr yn ochr ag ymateb i gynlluniau gweithredu cenedlaethol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol ac atal achosion o gam-drin Pobl Hŷn. | | Jenny Williams Neil Ayling | David Lewis | |
| Diogelu | Parhau i sicrhau dull cadarn, cryf a chyson o ran arfer diogelu. | | Jenny Williams Neil Ayling | David Lewis | |
| Partneriaeth Ranbarthol | Datblygu cytundeb partner i gynnwys y gwaith partneriaeth rhanbarthol i gynnwys strategaeth ariannol. | | Dilwyn Morgan | Catrin Roberts | |
| Partneriaeth Ranbarthol | Gweithredu Canllawiau Rhan 2 a Rhan 9 diwygiedig. | | Dilwyn Morgan | Catrin Roberts | |
| Partneriaeth Ranbarthol | Cysylltiadau â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | | | Catrin Roberts | |
| Ymgysylltu | Adolygu trefniadau ymgysylltu, cydlynu a llais presennol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. | Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu | | | |
| Trawsnewid Data Digidol | Datblygu dull Gogledd Cymru o ddefnyddio data digidol a thechnoleg i alluogi gwasanaethau integredig, di-dor | | Dylan Roberts | Sarah Bartlett | |

| **Ffrwd Waith** | **Cam Gweithredu** | **Dolenni i ddogfennau allweddol** | **Arweinydd Rhanbarthol** | **Arweinydd/Arweinwyr Ffrwd Waith** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygiad Clwstwr Carlam | Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Datblygiad Clwstwr Carlam i gynnwys llywodraethu. Datblygu perthynas rhwng y Grŵp Cynllunio Gofal Sylfaenol. | | | Jo Flannery | |
| Gofalwyr di-dâl | Diweddaru Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru, darparu Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru | Y diweddaraf ar strategaeth gofalwyr a chynlluniau gweithredu | Ffion Johnston | Lindsey Duckett | |
| Fforwm Gwerth Cymdeithasol | Parhau i ddatblygu'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol. Cysylltiad â blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus. | | Neil Ayling | Lindsey Duckett | |
| Cydraddoldeb, hawliau dynol ac anfantais economaidd-gymdeithasol | Parhau i wreiddio o fewn prosesau gwaith gan gynnwys asesiadau o effaith ar gydraddoldeb a gwblhawyd ar strategaethau a phrosiectau newydd a diwygiedig. | | | | |
| Tai a digartrefedd | Ysgrifennu adran tai a digartrefedd ychwanegol ar gyfer Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. | | | | |
| Unigrwydd ac arwahanrwydd | Cysylltiad â blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus. | | | | |
| Trais yn erbyn merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol. | Cefnogi gwaith Bwrdd Pobl Ddiamddiffyn a Cham-fanteisio Gogledd Cymru a Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru | | | | |
| Covid-19 | Parhau i gefnogi Proses Adfer Covid-19. | | | | |

# Atodiad 3 - Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol - Adroddiad Diwedd Blwyddyn

## 1. Crynodeb o Raglen y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Roedd rhaglen Cronfa Integreiddio Ranbarthol Gogledd Cymru 2022/23 yn cynnwys 20 cynllun ar draws y 6 Model Gofal cenedlaethol. Cyfanswm y buddsoddiad (ac eithrio costau isadeiledd a rheoli rhaglen) oedd £43,759,826. Mae hyn yn cynnwys arian ac adnoddau cyfatebol o £13,595,919 gan bartneriaid.

Gwariwyd £6,949,020 (21%) ar gynlluniau sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl yn uniongyrchol

Gwariwyd £4,992,983 (15%) ar gynlluniau gwerth cymdeithasol

**Tabl 1: Buddsoddiad ym mhob Model Gofal cenedlaethol**

| Model Gofal | Nifer y cynlluniau | % | Cyfanswm Buddsoddiadau £ | Cyllid Llywodraeth Cymru £ | Arian Cyfatebol Partner £ | Adnodd Cyfatebol Partner £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal yn y Gymuned - Atal a Chydlynu | 14 | 20% | £8,702,362 | £7,225,965 | £1,294,823 | £181,574 |
| Gofal yn y Gymuned - Gofal Cymhleth yn Nes at y Cartref | 7 | 32% | £13,804,024 | £7,100,244 | £4,829,106 | £1,874,674 |
| Adref o'r Ysbyty | 5 | 13% | £5,631,881 | £4,755,991 | £614,240 | £261,650 |
| Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o ofal | 6 | 28% | £12,247,846 | £9,164,837 | £1,723,974 | £1,359,035 |
| Atebion yn Seiliedig ar Lety | 4 | 2% | £1,034,308 | £712,934 | £280,635 | £40,739 |
| Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da | 4 | 5% | £2,339,406 | £1,203,936 | £654,712 | £480,758 |
| **Cyfanswm** | **40** | **100%** | **£43,759,826** | **£30,163,907** | **£9,397,489** | **£4,198,430** |
| | | | **100%** | **69%** | **21%** | **10%** |

## 2. Mesuryddion Perfformiad

Gofynnwyd i bob prosiect adrodd yn erbyn y 6 mesur perfformiad yn dilyn y model Canlyniadau'n Cyfrif. Mae Canlyniadau'n Cyfrif yn awgrymu, yn ychwanegol at fesuryddion perfformiad sy'n benodol i'r prosiect (a ddefnyddir i werthuso'r prosiect), y dylid adrodd ar nifer fach o fesuryddion rhaglen hefyd fel y gellid gweld effaith y rhaglen.

Ar gyfer rhaglen Cronfa Integreiddio Rhanbarthol 2022/23, y mesuryddion i'w cofnodi ar draws pob cynllun oedd:

**Faint Mesur 1**
Nifer y bobl sydd wedi cael mynediad a/neu wedi cael cymorth gan y cynllun

**Faint Mesur 2**
Nifer o ofalwyr sydd wedi cael mynediad a/neu wedi cael cymorth gan y cynllun

**Pa mor dda Mesur 1**
Nifer a % o fobl sy'n adrodd eu bod yn teimlo'n llai unig

**Pa mor dda Mesur 2**
Nifer a % o fobl sy'n adrodd profiad cadarnhaol o'r gwasanaeth

**Gwahaniaeth a Wnaed Mesur 1**
Nifer a % o fobl a gyflawnodd yr hyn sy'n bwysig iddynt

**Gwahaniaeth a Wnaed Mesur 2**
Nifer a % o fobl sy'n adrodd gwellhad yn ei iechyd emosiynol a lles

Dangosir y data perfformiad ar gyfer y rhaglen RIF gyfan isod.

Dangosir y data perfformiad ar gyfer pob Model Gofal yn yr adrannau Model Gofal ar dudalennau 3-8.

Dangosir y data perfformiad ar gyfer bob prosiect ym mhob Model Gofal yn yr atodiadau.

DS: Nid oedd pob prosiect wedi adrodd ar y data erbyn y dyddiad cau ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Bwriedir ail-wneud y data ddiwedd mis Mehefin er mwyn gallu dangos unrhyw ganlyniadau a gyflwynwyd yn hwyr.

**Mesur 1: 62,429**
Nifer yr unigolion sydd wedi defnyddio a/neu gael eu cefnogi gan gynlluniau â chyfraniad gan y Gronfa Integreiddio Ranbarthol

**Mesur 2: 8,997**
Nifer y gofalwyr sydd wedi defnyddio a/neu gael eu cefnogi gan gynlluniau â chyfraniad gan y Gronfa Integreiddio Ranbarthol

**Mesur 3: 10,823 a 86%**
Nifer a % y bobl sy'n dweud nad ydynt yn teimlo mor ynysig

**Mesur 4: 10,694 a 95%**
Nifer a % y bobl sydd wedi nodi profiad cadarnhaol â'r gwasanaeth

**Mesur 5: 13,476 a 94%**
Nifer a % y bobl sydd wedi cyflawni beth sy'n bwysig iddyn nhw

**Mesur 6: 8,412 a 95%**
Nifer a % y bobl sy'n dweud bod eu hiechyd emosiynol a lles wedi gwella

## 3. Gofal yn y Gymuned - Atal a Chydlynu

Buddsoddwyd £8,702,362 mewn 14 chynllun yn y Model Gofal hwn.
Mae hyn gyfystyr ag 20% o gyllid rhaglen Cronfa Integreiddio Ranbarthol Gogledd Cymru.

### Tabl 2: Cynlluniau yn y Model Gofal yn y Gymuned - Atal a Chydlynu

| Model Gofal yn y Gymuned - Atal a Chydlynu | |
|---|---|
| CBC PC 01 | Canolbwynt Cymunedol - Llyw-wyr, Asiantiaid a Chysylltwyr, Cydlynwyr Asedau Lleol |
| CBC PC 02 | Swyddogion Lles / Gweithwyr Cefnogi |
| CBC PC 03 | Timau Un Pwynt Mynediad |
| CBC PC 04 | Dilyniant ac Atal a Phontio |
| CBC PC 05 | Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Dementia |
| CBC PC 06 | Gwella Llwybr Gwasanaethau Asesu Cof (GAC) |
| CBC PC 07 | Swyddogion Comisiynu a Gweithredu Strategaeth Ddementia |
| CBC PC 08 | Seibiant Dementia |
| CBC PB 09 | Nyrs Datblygu Ymarfer |
| CBC PC 10 | Statws Deall Dementia |
| CBC PC 11 | Gwasanaethau Seibiant ar gyfer Gofalwyr |
| CBC PC 12 | Swyddogion Cefnogi Gofalwyr |
| CBC PC 13 | Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Rhanbarthol |
| CBC PC 14 | Cymunedau anabledd dysgu rhanbarthol |

Pwyslais y cynllun yw atal, ymyrraeth gynnar a chydlynu.

Mae pwyslais y gwaith atal ar raglenni imiwneiddio a sgrinio, rhoi’r gorau i ysmygu, colli pwysau, atal unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol.

Mae pwyslais y gwaith ymyrraeth gynnar ar wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol, gwasanaethau cysylltwr/llywiwr cymdeithasol yn defnyddio asedau lleol, creu cysylltiadau a rhwydweithiau i gyd-gynllunio datrysiadau lleol, darparu gwybodaeth a chyngor hawdd cael gafael ynddo.


Mae cydlynwyr lleol yn gweithio gyda phobl fyddai angen gwasanaethau cymdeithasol fel arall.  Drwy ymgysylltu’n gynnar, adeiladu ar gryfderau a helpu pobl i feithrin cysylltiadau lleol, maen nhw’n helpu pobl i ddod o hyd i’w datrysiadau parhaol eu hunain a meithrin gwytnwch cymunedol.


Mae canolfannau cymunedol yn rhan bwysig o’r model gofal hwn. Maent yn ganolbwynt i’r gymuned (gwirioneddol neu ar-lein), ble gellir cydlynu a darparu mentrau ataliol, gwasanaethau ymyrraeth gynnar a datrysiadau dad-ddwysau.

Mae cynlluniau cefnogi ac ymgysylltu cymunedol i bobl sy’n byw â dementia a’u gofalwyr, yn unol â’r blaenoriaethau yn Strategaeth Dementia Gogledd Cymru a Safonau Dementia Cymru Gyfan yn cael eu cynnwys yn y model gofal hwn.

Dangosir y mesuryddion perfformiad ar gyfer y cynlluniau yn y Model Gofal hwn yng ngraffiau 3 a 4.

### Graffiau 3 a 4: Mesuryddion Perfformiad yn y Model Gofal yn y Gymuned, Atal a Chydlynu



## 4. Gofal yn y gymuned - gofal cymhleth yn nes at y cartref

Buddsoddwyd £13,804,024 mewn 7 cynllun yn y Model Gofal hwn.
Mae hyn gyfystyr ag 14% o gyllid rhaglen Cronfa Integreiddio Ranbarthol Gogledd Cymru.

### Tabl 5: Cynlluniau yn y Model Gofal yn y Gymuned - gofal cymhleth yn nes at y cartref

| Model Gofal yn y Gymuned - gofal cymhleth yn nes at y cartref | |
|---|---|
| CBC CC 01 | Atal Codymau |
| CBC CC 02 | Timau Adnoddau Cymunedol |
| CBC CC 03 | Gwasanaeth Cefnogaeth Gymhleth a Dwys |
| CBC CC 04 | Gwasanaeth Ymateb |
| CBC CC 05 | Cymorth i'r Sector Gofal |
| CBC CC 06 | Gwelyau Camu |
| CBC CC 07 | Grymuso Annibyniaeth |

Pwyslais y cynlluniau yw atal codymau yn ystod y nos, lleihau nifer y galwadau ambiwlans, atal derbyniadau i'r ysbyty a chefnogi rhyddhau effeithlon o'r ysbyty.


Drwy gefnogi pobl i reoli anghenion clinigol cymhleth yn y gymuned, gan alluogi pobl i wella yn y cartref neu yn nes at y cartref i osgoi derbyniadau i'r ysbyty. Mae Timau Adnoddau Cymunedol Aml-ddisgyblaethol yn cefnogi oedolion sydd mewn perygl, darparu'r gefnogaeth angenrheidiol mewn argyfwng pecynnau gofal / diwedd oes a galluogi unigolion hŷn i gael cefnogaeth yn y gymuned, trefnu triniaeth a chefnogaeth os yw'n ddiogel i wneud hynny'n glinigol.


Mae cynlluniau yn y model gofal hwn yn cryfhau'r sector gofal hefyd - mae cefnogi cynaliadwyedd cartrefi gofal yn un o benderfynyddion hanfodol system iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel.

Mae gwelyau camu i fyny / camu i lawr a chynlluniau ymateb i argyfwng yn nodweddion allweddol o'r model gofal hwn yn ogystal â phrosiectau grymuso annibyniaeth sy'n sicrhau bod unigolion yn cymryd rheolaeth o'u gofal a chefnogaeth, a chynllunio ymlaen i osgoi argyfyngau.

Dangosir y mesuryddion perfformiad ar gyfer y cynlluniau yn y Model Gofal hwn yng ngraffiau 6 a 7.

### Graffiau 6 a 7: Mesuryddion Perfformiad yn y Model Gofal yn y Gymuned, gofal cymhleth yn nes at y cartref



## 5. Adref o'r Ysbyty

Buddsoddwyd £5,631,881 mewn 5 cynllun yn y Model Gofal hwn.
Mae hyn gyfystyr ag 13% o gyllid rhaglen Cronfa Integreiddio Ranbarthol Gogledd Cymru.

### Tabl 8: Cynlluniau yn y Model Gofal Adref o'r Ysbyty

| Model gofal Adref o'r Ysbyty | |
|---|---|
| HfH 1 | Timau Cartref yn Gyntaf |
| HfH 2 | Capasiti Therapi D2RA |
| HfH 3 | Camu i fyny a chamu i lawr |
| HfH 4 | Cydlynydd Derbyn/Broceriaid Gofal |
| HfH 5 | Timau Gofal Integredig mewn Cartrefi Gofal |

Mae pwyslais y cynlluniau ar gynyddu trosiant yn y 'drws ffrynt' drwy gefnogaeth therapi 7 diwrnod ynghyd â chefnogaeth rhyddhau gan y timau Cartref yn Gyntaf a mwy o gapasiti i'r Cydlynydd Rhyddhau.


Mae gweithredu model Cartref yn Gyntaf sy'n cyd-fynd â'r Llwybr D2RA yn cefnogi pobl i wella yn eu cartref cyn cael eu hasesu am unrhyw angen parhaus. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys ystod eang o ddulliau a fydd yn sicrhau cynllunio ar gyfer gadael yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r pwyslais ar drosglwyddo gofal yn ddiogel i'r gymuned ac asesiadau manwl yng nghartref y claf ar gyfer anghenion gofal hirdymor.

Mae'r ddarpariaeth camu i fyny / camu i lawr a phrynu pan fo'r angen yn nodwedd hanfodol o'r model gofal Adref o'r Ysbyty.

Mae'r cynllun tîm gofal integredig mewn cartrefi gofal yn cefnogi pobl i wella mewn lleoliadau gofal canolraddol cyn cael eu hasesu am unrhyw angen parhaus.

Dim ond nifer fechan o'r cynlluniau Adref o'r Ysbyty a lwyddodd i adrodd eleni a dim ond yn erbyn mesur perfformiad 1: fel y dangosir yng ngraff 9 isod.

### Graff 9: Mesuryddion Perfformiad yn y Model Gofal Adref o'r Ysbyty



## 6. Cefnogi teuluoedd i aros gyda’i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o ofal

Buddsoddwyd £12,247,846 mewn 6 cynllun yn y Model Gofal hwn.
Mae hyn gyfystyr ag 28% o gyllid rhaglen Cronfa Integreiddio Ranbarthol Gogledd Cymru.

**Tabl 10: Cynlluniau yn y Model Gofal Cefnogi Teuluoedd a Phlant**

| Model Gofal Cefnogi Teuluoedd a Phlant | |
|---|---|
| **SF&C 01** | Ymyrraeth Gynnar |
| **SF&C 02** | Gwasanaethau Dychwelyd ac Atal |
| **SF&C 03** | Datblygu gwytnwch teulu i atal gwaethygu |
| **SF&C 04** | Cefnogaeth breswyl ddwys i blant ag anghenion cymhleth |
| **SF&C 05** | Timau cefnogaeth ddwys i blant ag anghenion cymhleth |
| **SF&C 06** | Cymorth arbenigol i blant ag anghenion cymhleth / arbenigol |

Pwyslais y cynlluniau Cefnogi Teuluoedd a Phlant yw:
Ymyrraeth gynnar ac atal i blant ag anghenion cymhleth
Anghenion ychwanegol ac atal eilaidd yn cynnwys cymorth cynnar aml asiantaeth
Anghenion cymhleth ac atal eilaidd yn cynnwys cymorth cynnar aml asiantaeth
Anghenion risg uchel ac anghenion cymhleth iawn - difrifol/arbenigol yn cynnwys diogelu


**Ymyrraeth gynnar ac atal i blant ag anghenion cymhleth - Cefnogi Teuluoedd a Phlant 01**
Mae’r cynlluniau hyn yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phryder o ran lles ac sydd wedi gwneud cynnydd cyffredinol da gan ddefnyddio sianeli ataliol ac anarbenigol.


**Anghenion Ychwanegol ac Atal Eilaidd - Cefnogi Teuluoedd a Phlant 02**
mae’r cynlluniau hyn yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion na all gwasanaethau cyffredinol eu diwallu ac mae angen cymorth amlasiantaethol cydgysylltiedig ychwanegol a chymorth cynnar arnynt.

**Cynlluniau anghenion cymhleth ac atal eilaidd - SF&C 03, SF&C 04, SF&C 05**
Mae’r cynlluniau hyn yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd â lefel gynyddol o anghenion heb eu bodloni a’r rhai sydd angen cymorth ac ymyrraeth mwy cymhleth a chymorth cydgysylltiedig i atal pryderon rhag gwaethygu.

**Anghenion risg uchel ac anghenion cymhleth iawn - difrifol/arbenigol yn cynnwys diogelu - Cefnogi teuluoedd a phlant 06**
Mae’r cynlluniau hyn yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi cael niwed sylweddol, neu sydd mewn perygl o niwed sylweddol. Mae gan y plant hyn y lefel uchaf o angen ac efallai y bydd angen ymyriad brys neu arbenigol iawn.
Dangosir y mesuryddion perfformiad ar gyfer y cynlluniau yn y Model Gofal hwn yng ngraffiau 11 a 12.

**Graffiau 11 a 12: Mesuryddion Perfformiad yn y Model Gofal Cefnogi teuluoedd a phlant**



## 7. Atebion yn seiliedig ar lety

Buddsoddwyd £1,034,308 mewn 4 cynllun yn y Model Gofal hwn.
Mae hyn gyfystyr ag 2% o gyllid rhaglen Cronfa Integreiddio Ranbarthol Gogledd Cymru.

### Tabl 13: Cynlluniau yn y Model Gofal Atebion yn seiliedig ar lety

| Model Gofal Atebion yn seiliedig ar lety | |
|---|---|
| ABS 01 | Gwasanaethau Seibiant |
| ABS 02 | Gwasanaeth Dilyniant |
| ABS 03 | Darpariaeth Gofal y Dyfodol |
| ABS 04 | Llety Rhanbarthol LD |


Dyma fodel gofal sy'n datblygu ac sydd yn ei ddyddiau cynnar iawn.


Pwyslais y model gofal hwn yw darparu gofal i blant ac oedolion ag anableddau ac anghenion cymhleth, gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr trydydd sector i ddarparu gofal preswyl lleol a seibiant hyblyg byr dymor i blant ag anghenion cefnogi cymhleth.

Mae'r gwasanaeth dilyniant yn cefnogi oedolion ifanc sydd ag anableddau corfforol a/neu anableddau dysgu i gynyddu eu hannibyniaeth. Mae hyn yn cynnwys cefnogi pobl i weithio ac i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain, yn aml gyda chefnogaeth gan gymheiriaid.

Dangosir y mesuryddion perfformiad ar gyfer y 4 cynllun yn y Model Gofal hwn yng ngraffiau 14 a 15.

### Graffiau 14 a 15: Mesuryddion Perfformiad yn y Model Gofal Atebion yn seiliedig ar lety



## 8. Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da

Buddsoddwyd £2,339,406 mewn 4 cynllun yn y Model Gofal hwn.

Mae hyn gyfystyr ag 5% o gyllid rhaglen Cronfa Integreiddio Ranbarthol Gogledd Cymru.

**Tabl 16: Cynlluniau yn y Model Gofal Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da**

| Model Gofal Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da | |
|---|---|
| EH&WB 1 | Hyfforddiant a Datblygu |
| EH&WB 2 | Gweithgareddau Cymunedol |
| EH&WB 3 | Swyddogion Lles Cymunedol |
| EH&WB 4 | iCAN |

Mae pwyslais y model gofal hwn ar ddarparu swyddogion lles cymunedol a gwasanaethau cymunedol i gefnogi lles emosiynol.


Mae'r canolfannau iechyd meddwl Fedra i hefyd yn cael eu cefnogi drwy fuddsoddiad o'r gronfa, yn ogystal â hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ymhlith staff.

Mae llawer o gynlluniau sy'n hyrwyddo iechyd a lles emosiynol sy'n rhan o fodelau gofal eraill.

Dim ond yn erbyn mesur perfformiad 1 mae'r cynllun Fedra i wedi gallu adrodd eleni.


Dangosir y mesuryddion perfformiad ar gyfer y cynlluniau yn y Model Gofal hwn yng ngraffiau 17 a 18.


**Graffiau 17 a 18: Mesuryddion Perfformiad yn y Model Gofal Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da**





# Atodiadau


## Data Mesur Perfformiad fesul Prosiect yn y Model Gofal Atebion yn seiliedig ar lety





















# Data Mesur Perfformiad fesul Prosiect yn y Model Gofal yn y gymuned - Gofal cymhleth yn nes at y cartref


























CBC CC 04
524
114
638
638
No. accessed/ supported by scheme
No. of carers supported by scheme
No. reporting they are less isolated
No. who have achieved what matters to them


CBC CC 04
100%
100%
Percentage reporting they are less isolated
Percentage who have achieved what matters to them



CBC CC 05
1207
No. accessed/ supported by scheme



CBC CC 06
90
No. accessed/ supported by scheme



CBC CC 07
58
40
98
98
98
98
No. accessed/ supported by scheme
No. of carers supported by scheme
No. reporting they are less isolated
No. reporting a positive experience
No. who have achieved what matters to them
No. reporting improved health/wellbeing



CBC CC 07
100%
100%
100%
100%
Percentage reporting they are less isolated
Percentage reporting a positive experience
Percentage who have achieved what matters to them
Percentage reporting improved health/wellbeing


**Data Mesur Perfformiad fesul Prosiect yn y Model Gofal yn y gymuned - Atal a chydlynu**






























CBC PC 08
784
788
194
763
332
350
No. accessed/ supported by scheme
No. of carers supported by scheme
No. reporting they are less isolated
No. reporting a positive experience
No. who have achieved what matters to them
No. reporting improved health/wellbeing



CBC PC 08
100%
100%
100%
67%
Percentage reporting they are less isolated
Percentage reporting a positive experience
Percentage who have achieved what matters to them
Percentage reporting improved health/wellbeing



CBC PC 10
53
114
802
386
853
853
No. accessed/ supported by scheme
No. of carers supported by scheme
No. reporting they are less isolated
No. reporting a positive experience
No. who have achieved what matters to them
No. reporting improved health/wellbeing


CBC PC 10
100%
100%
100%
100%
Percentage reporting they are less isolated
Percentage reporting a positive experience
Percentage who have achieved what matters to them
Percentage reporting improved health/wellbeing



CBC PC 12
51
2143
1381
1575
2143
51
No. accessed/ supported by scheme
No. of carers supported by scheme
No. reporting they are less isolated
No. reporting a positive experience
No. who have achieved what matters to them
No. reporting improved health/wellbeing



CBC PC 12
64%
100%
100%
100%
Percentage reporting they are less isolated
Percentage reporting a positive experience
Percentage who have achieved what matters to them
Percentage reporting improved health/wellbeing



CBC PC 14
1058
34
803
965
734
314
No. accessed/ supported by scheme
No. of carers supported by scheme
No. reporting they are less isolated
No. reporting a positive experience
No. who have achieved what matters to them
No. reporting improved health/wellbeing



CBC PC 14
96%
86%
88%
97%
Percentage reporting they are less isolated
Percentage reporting a positive experience
Percentage who have achieved what matters to them
Percentage reporting improved health/wellbeing


## Data Mesur Perfformiad fesul Prosiect yn y Model Gofal Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da





















**Data Mesur Perfformiad fesul Prosiect yn y Model Gofal Adref o'r Ysbyty**









**Data Mesur Perfformiad fesul Prosiect yn y Model Gofal** Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o ofal

























SF&C 05
350
300
250
200
150
100
50
0
321
307
113
112
113
113
No. accessed/ supported by scheme
No. of carers supported by scheme
No. reporting they are less isolated
No. reporting a positive experience
No. who have achieved what matters to them
No. reporting improved health/wellbeing


SF&C 05
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
100%
99%
100%
100%
Percentage reporting they are less isolated
Percentage reporting a positive experience
Percentage who have achieved what matters to them
Percentage reporting improved health/wellbeing


SF&C 06
900
800
700
600
500
400
300
200
100
0
787
8
8
8
8
8
No. accessed/ supported by scheme
No. of carers supported by scheme
No. reporting they are less isolated
No. reporting a positive experience
No. who have achieved what matters to them
No. reporting improved health/wellbeing


SF&C 06
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
100%
100%
100%
100%
Percentage reporting they are less isolated
Percentage reporting a positive experience
Percentage who have achieved what matters to them
Percentage reporting improved health/wellbeing

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 17 Hydref 2023 |
| **Pwnc:** | Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cyflwyno Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd Cyngor Sir Ynys Môn |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Dylan Rees |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Carwyn Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Carys Edwards |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** Nodi'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd

**A2** Cytuno i argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd Cyngor Sir Ynys Môn a bod y Cyngor llawn yn mabwysiadu'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, a'i bod yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd a bydd yn parhau i adeiladu ar ein llwyddiannau hyd yma.

**A3** Awdurdodi'r Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid mewn ymgynghoriad efo'r Deilydd Portffolio - Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer i baratoi'r ddogfen derfynol yn unol â'r ffurf corfforaethol cyn llwytho'r ddogfen ar wefan y Cyngor.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Cafodd Cynllun y Cyngor 2023-2028 ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn ym Mawrth 2023 ac mae'r Strategaeth hon yn adlewyrchu'r Gwerthoedd sydd yn y Cynllun. Mae Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn amlinellu'r ffyrdd niferus mae'r Cyngor yn ymwneud â rhanddeiliaid ac yn **cydweithio** â nhw gan eu trin nhw gyda **pharch** a bod yn **onest** gyda nhw. Bydd hyn yn helpu i **hyrwyddo'r Cyngor a'r ynys**.

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal

- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Pam mae'r Cyngor yn paratoi Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus a sut mae'r Strategaeth yn galluogi'r Cyngor i wireddu Cynllun y Cyngor 2023-2028?
2. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus yn golygu bod rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl sydd heb nodwedd o'r fath. Pa ystyriaeth rhoddwyd i'r ddyletswydd hon i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda wrth ddatblygu'r Strategaeth ddrafft?
3. Pa drefniadau a phrosesau ychwanegol y bwriedir eu rhoi mewn lle i sicrhau cydymffurfiaeth lawn efo'r gofynion newydd?
4. Beth yw oblygiadau ariannol gwireddu'r Strategaeth arfaethedig?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad sy'n nodi'r ffyrdd y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu nod Cyngor Sir Ynys Môn o annog pobl i gymryd rhan ym musnes a phroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor ac i adeiladu ar y llwyddiant y mae'r Cyngor wedi'i gael wrth gysylltu â thrigolion. Yn y strategaeth hon, rydym wedi ceisio egluro sut y bydd ein hamcanion o ran cyfranogiad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl Ynys Môn.

Mae'r strategaeth hon yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd a bydd yn adeiladu ar ein llwyddiannau hyd yma. Disgwylir y bydd y strategaeth yn newid dros amser wrth i arferion da barhau i gael eu datblygu ac wrth i ddatblygiadau technolegol pellach gael eu gwneud.

Mae'r adroddiad yn disgrifio'r ymarfer ymgynghori gynhaliwyd gyda swyddogion y Cyngor oedd yn mynd o 31 Gorffennaf hyd at 27 Awst sef cyfnod o 4 wythnos.

Ei nod oedd cael barn rhanddeiliaid ar y Strategaeth Cyfranogi Cyhoeddus er mwyn i'r adborth gyfrannu at y Strategaeth.

Roedd yr ymgynghoriad yn dangos fod y swyddogion ymatebodd yn cadarnhau'r angen am y Strategaeth.

| 6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Mae'r Strategaeth Gyfranogi Cyhoeddus yn annog trigolion Môn o bob cefndir i gyfranogi ym mhenderfyniadau'r Cyngor. Felly, ni fydd yn cael unrhyw effaith ddrwg ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Byddai rhoi'r Strategaeth ar waith yn arwain at gynnwys fwy o bobl Ynys Môn ym mhenderfyniadau'r Cyngor gan gynnwys y rhai sydd ddim yn gallu fforddio bod ar y we a'r manteision sy'n deillio o hynny. |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Mae'r Strategaeth Gyfranogi Cyhoeddus yn annog trigolion Môn, beth bynnag eu cefndir ieithyddol, i gyfranogi ym mhenderfyniadau'r Cyngor. Felly, ni fydd yn cael effaith drwg ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Dim |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| A. Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021<br>Hunan Asesiad Corfforaethol 2022 |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# STRATEGAETH CYFRANOGIAD Y CYHOEDD 2023 – 2028

Fersiwn 0.8

DRAFT

**Rhagair**



Yn sgil fy ailethol fel Arweinydd y Cyngor, rwy'n falch o gyflwyno strategaeth cyfranogiad y cyhoedd Cyngor Môn. Mae'r strategaeth yn amlinellu ein dulliau amrywiol o gynnwys y cyhoedd ac yn canolbwyntio ar sut mae ein cymunedau'n cymryd rhan yn y prosesau gwneud penderfyniadau i weithio ochr yn ochr â ni wrth lunio ein cymunedau.

Fel Cyngor, rydym yma i wasanaethu ein trigolion a'n rhanddeiliaid. Rydym yn gwybod bod polisïau a newidiadau yn cael effaith ar fywydau ein trigolion, a bywydau eu ffrindiau a'u teulu. Rydym yn eich annog a byddwn yn eich cefnogi i gymryd rhan a dweud eich dweud oherwydd bod pawb yn haeddu'r cyfle i gyfrannu a chael eu grymuso i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.

**Cynghorydd Llinos Medi**

**Arweinydd - Cyngor Sir Ynys Môn**

DRAFT

**Cyflwyniad**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i weithio gyda'i drigolion, cymunedau, sefydliadau, undebau llafur a rhanddeiliaid i annog pobl i gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Leol.

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad sy'n nodi'r ffyrdd y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu nod Cyngor Sir Ynys Môn o annog pobl i gymryd rhan ym musnes a phroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor ac i adeiladu ar y llwyddiant y mae'r Cyngor wedi'i gael wrth gysylltu â thrigolion. Yn y strategaeth hon, rydym wedi ceisio egluro sut y bydd ein hamcanion o ran cyfranogiad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl Ynys Môn. Mae'r strategaeth hon yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd (ôl pob etholiad cyffredin) a bydd yn adeiladu ar ein llwyddiannau hyd yma.

Disgwylir y bydd y strategaeth yn newid dros amser wrth i arferion da barhau i gael eu datblygu ac wrth i ddatblygiadau technolegol pellach gael eu gwneud.

Cafodd Cynllun y Cyngor 2023-2028 ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn ym Mawrth 2023 ac mae'r Strategaeth hon yn adlewyrchu'r Gwerthoedd sydd yn y Cynllun. Mae Strategaeth Cyfranogi y Cyhoedd yn amlinellu'r ffyrdd niferus mae'r Cyngor yn ymwneud â rhanddeiliaid ac yn **cydweithio** â nhw gan eu trin nhw gyda **pharch** a bod yn **onest** gyda nhw. Bydd hyn yn helpu i **hyrwyddo'r Cyngor a'r ynys**.

## 1. Cyfranogi

### 1.1 Beth yw cyfranogiad y cyhoedd a pham ei fod yn bwysig?

Mae cyfranogiad y cyhoedd yn disgrifio cyfathrebu neu ymwneud â'n cymunedau a'n rhanddeiliaid mewn prosesau datrys problemau neu wneud penderfyniadau.

Mae Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, a baratowyd yn 2011 o dan arweiniad Panel Ymgynghorol Cyfranogiad Cymru ac a adolygwyd ac a ailgyhoeddwyd yn 2022, yn defnyddio'r diffiniadau canlynol:

**Ymgysylltu**

Proses weithredol a chyfranogol lle gall pobl lunio a dylanwadu ar bolisi a gwasanaethau sy'n cynnwys ystod eang o wahanol ddulliau a thechnegau (gan gynnwys ymgynghori, cyfranogi, a chyd-gynhyrchu ac ymwneud).

Enghraifft o hyn yw'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â chymunedau drwy ein hagenda Cynllunio Lle. Mewn partneriaeth â Medrwn Môn, mae'r Cyngor yn parhau i hybu'r gwaith o greu cynghreiriau dan arweiniad y gymuned. Mae'r cynghreiriau hyn yn dwyn ynghyd grwpiau cymunedol, unigolion, gwirfoddolwyr, cynghorau tref a chymuned, busnesau lleol ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn cydweithio i wneud yr ardaloedd y maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddynt yn fwy annibynnol a gwydn.

**Ymgynghori**

Proses ffurfiol lle mae llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau yn gofyn am farn grwpiau ac unigolion â diddordeb ar bolisïau, penderfyniadau neu ymyriadau penodol.

Enghraifft o hyn yw'r ymgynghoriad ar Foderneiddio Cymunedau Dysgu a Strategaeth Datblygu Cymru. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda disgyblion ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig y Sir i gael barn y disgyblion. Bydd eu sylwadau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad ar y Strategaeth. Gallai hyn yn ei dro effeithio ar y penderfyniadau a wneir ynghylch materion Dysgu yn y dyfodol.

**Cyfranogiad**

Pobl sy'n ymwneud â llunwyr polisi a chynllunwyr gwasanaethau yn gynnar yn y broses o gynllunio ac adolygu polisi a gwasanaethau, i lunio a dylanwadu ar y canlyniadau a'r penderfyniadau. Er enghraifft, cynhaliwyd arolwg rhwng 29 Gorffennaf a 26 Awst 2022 ynghylch gwneud gwelliannau i wasanaeth Tanysgrifio Gwastraff Gwyrdd 2023/24 drwy ofyn cwestiynau am brofiad cwsmeriaid wrth danysgrifio. Cafodd yr arolwg **3,246** o ymatebion

**Cyd-gynhyrchu**

Pan fydd pobl sy'n darparu gwasanaethau, a phobl sy'n defnyddio a derbyn gwasanaethau'n rhannu pŵer a chyfrifoldeb, a gweithio gyda'i gilydd er budd y ddwy ochr mewn perthynas gyfartal, dwy ffordd ac ystyriol. Mae'n galluogi pobl i gael gafael ar gymorth perthnasol ac ystyrlon pan fydd ei angen arnynt. Mae'n golygu bod gwasanaethau'n effeithiol ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ym mywydau pobl, ac mae pobl, gwasanaethau a chymunedau'n dod yn hwyluswyr newid mwy effeithiol.

**Ymwneud**

Mae'n ofynnol i sefydliadau weithredu'n agored er mwyn cael eu dylanwadu gan ddinasyddion a rhanddeiliaid, gan symud i ddiwylliant o 'weithio gyda' yn hytrach na 'gwneud'. Yn wahanol i ymgynghori, mae'r broses o ymwneud yn gweithio gyda phobl yn ystod camau cynharach, megis helpu i nodi materion ac atebion posibl, a chael eu cefnogi i barhau i gymryd rhan drwy gydol prosesau dylunio, gweithredu a gwerthuso.

Gall y rhain fod yn faterion sydd o ddiddordeb neu sy'n effeithio ar ein cymunedau neu eu ffrindiau a'u teulu ac yn ei dro, mae'r ymwneud hwn yn ein helpu i wneud penderfyniadau ar sail eu meddyliau a'u teimladau.

Er mwyn i'r Cyngor wneud y penderfyniadau gorau posibl ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, ac er mwyn i'n polisïau a'n penderfyniadau ddylanwadu'n gadarnhaol ar fywydau ein cymunedau a'n rhanddeiliaid neu fywydau eu ffrindiau a'u teulu, mae angen i ni:

- Ddarparu wybodaeth a chynnwys pobl drwy weithgareddau ymgysylltu
- Gwrando ar bobl ac ymgynghori â nhw drwy ofyn y cwestiynau perthnasol ar yr amser mwyaf cyfleus
- Grymuso a dirprwyo drwy gefnogi rhanddeiliaid i gymryd cyfrifoldeb
- Cyd-gynhyrchu a darparu gwasanaethau drwy rannu'r broses o wneud penderfyniadau a chynnal cysylltiadau

Er mwyn defnyddio dull pragmatig, rydym yn bwriadu cynnwys ac ymgysylltu â phawb i'r pwynt lle gallan nhw gymryd rhan i ddangos ein bod yn gwrando ar adborth. Efallai na fydd y Cyngor bob amser yn bwrw ymlaen â'r opsiwn a ddewisir gan y cyhoedd ond pan nad ydym yn gwneud hynny, mae angen i ni fod yn glir ac yn dryloyw, ac egluro'r rheswm am hynny. Nid yw ymgysylltu a / neu ymgynghori yn golygu ein bod yn cytuno â phob sylw a fynegir. Mae'n rhaid i'r Cyngor bob amser weithredu o fewn cyfyngiadau megis y gyfraith a chyfyngiadau ariannol.

Bydd hyn yn darparu'r fethodoleg fel y gall trigolion ddweud wrthym beth maen nhw'n ei feddwl a chael cyfle i ddylanwadu ar sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei dadansoddi a'i dwyn i sylw ein pwyllgorau gwneud penderfyniadau lle bo hynny'n berthnasol.

Fodd bynnag, nid ydym am stopio yma, rydym am ymgysylltu'n rheolaidd â phobl ar faterion yr ydym ni a chi yn teimlo sy'n bwysig, bydd hyn yn ein helpu i gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl i lunio ein syniadau a'n cynlluniau fel bod ein dinasyddion a'n rhanddeiliaid yn chwarae rhan flaenllaw mewn unrhyw benderfyniad a wnawn, i'n grymuso ni i wneud penderfyniadau ar y cyd.

## 1.2 Y gwahaniaethu rhwng statudol ac anstatudol

Y gwahaniaeth rhwng ymgynghoriad statudol ac anstatudol yw bod statudol yn golygu bod yn rhaid iddo gael ei wneud drwy statud neu yn ôl y gyfraith. Nid oes rhaid cynnal ymgynghoriad anstatudol yn ôl y gyfraith ac felly mae'n wirfoddol. Gall y Cyngor hefyd ddewis cynnal ymgynghoriadau gwirfoddol.

DRAFT

Fel Cyngor, ac fel y nodwyd uchod, rydym yn dilyn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Cyhoeddus[1] sy'n rhoi arweiniad i annog gweithgarwch ymgysylltu cyson o ansawdd da gyda defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

Mae'r manteision o gynnwys ein cymunedau'n glir a **credwn fod penderfyniadau a wneir trwy gynnwys y gymuned yn fwy cadarn ac yn para'n hirach os yw dinasyddion yn gefnogol iddynt.**

## 2. Penderfyniadau

### 2.1 Dull gweithio presennol

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnal Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y cyd gyda chynrychiolwyr y trydydd sector. Nod y Bwrdd yw sefydlu dull cyson, addas i'r diben ac effeithiol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori'n gyhoeddus ar draws gwasanaethau'r Cyngor fel bod anghenion y cyhoedd yn cael eu diwallu mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Mae'r Bwrdd yn nodi'r prosesau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i sicrhau ein bod yn bodloni'r gofynion i 'wreiddio a chyflwyno diwylliant o bartneriaeth gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. I adeiladu'r diwylliant hwn o bartneriaeth ac i'r cyhoedd fod yn hyderus yn ymrwymiad y Cyngor i annog a gweithredu ar sail eu sylwadau'.

Nod y Bwrdd yw cefnogi staff ac uwch swyddogion i wneud yn siŵr ein bod yn sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl ar draws yr holl weithgareddau, sy'n ein helpu i wneud penderfyniadau gwell sy'n seiliedig ar wybodaeth. Mae aelodau'r Bwrdd yn gweithio i wireddu'r uchod drwy ymrwymiad ar y cyd i:

- wella ansawdd gwasanaethau,
- gwneud defnydd gwell o adnoddau a
- diwallu anghenion cymunedau'n fwy effeithiol.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gyfranogi mewn sawl ffordd – mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn Nhabl 1.

### 2.2 Sut mae'r Cyngor yn gweithio

Amlinellir gwahanol bwyllgorau'r Cyngor yn Niagram 1

Mae'r Cyngor yn cynnwys 35 o Gynghorwyr etholedig sy'n cynrychioli 14 rhanbarth etholiadol. Mae cynghorwyr yn atebol yn ddemocrataidd i drigolion eu hetholaeth. Mae dyletswydd bennaf y Cynghorwyr i'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai na phleidleisiodd drostynt. Mae'r holl gynghorwyr yn cyfarfod fel y Cyngor. Mae cyfarfodydd y Cyngor fel arfer ar agor i'r cyhoedd. Yma mae cynghorwyr yn penderfynu ar bolisïau cyffredinol y Cyngor ac yn gosod y gyllideb bob blwyddyn.

Y Pwyllgor Gwaith yw'r rhan o'r Cyngor sy'n gyfrifol am wneud y rhan fwyaf o'r prif benderfyniadau. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cynnwys Arweinydd, a benodir gan y Cyngor, a hyd at 8 Cynghorydd arall a benodir gan yr Arweinydd. Cyhoeddir y busnes sydd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgorau Sgriwtini a'r Cyngor yn y blaenraglen waith. Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgorau Sgriwtini, y Cyngor a Phwyllgorau eraill ar agor i'r cyhoedd fod yn bresennol ynddynt ac eithrio pan fo materion personol neu gyfrinachol yn cael eu trafod, fel y'u diffinnir gan y gyfraith. Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniadau sy'n unol â pholisïau a chyllideb gyffredinol y Cyngor. Os yw'n dymuno penderfynu ar fater sydd y tu allan i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi, rhaid ei gyfeirio at y Cyngor llawn.

[1] https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/11/National-Principles-for-Public-Engagement-Egwyddorion-Cenedlaethol-ar-gyfer-Ymgysylltu-ar-Cyhoedd.pdf

DRAFT

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn[2] esbonio sut mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau a phwy sy'n gyfrifol am y penderfyniadau hynny. Mae'r Cyfansoddiad wrth wraidd busnes yr awdurdod lleol gan ei fod yn nodi'r cyfrifoldebau o fewn yr awdurdod lleol, a lle mae'r Cyngor yn gweithio gydag eraill.

Mae'r Cyngor yn darparu nifer o wasanaethau i drigolion Ynys Môn e.e. addysg, gofal cymdeithasol, llyfrgelloedd a chyfleusterau hamdden i enwi dim ond rhai. Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn eu darparu ar gael yn:

https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Residents.aspx

**Deiagram 1 – Strwythur gwneud penderfyniadau'r Cyngor**

**CYNGOR (cyfarfod bob chwarter)**

- Gosod cyllideb flynyddol y Cyngor
- Cymeradwyo polisïau a strategaethau allweddol sy'n gyfrifoldeb ar bob un o'r 35 Cynghorydd

**Y Cabinet (Pwyllgor Gwaith)**

- Gall gynnwys rhwng 3 a 10 Cynghorydd gan gynnwys yr Arweinydd.
- Mae pob aelod gweithredol yn gyfrifol am bortffolio thematig.
- Cynnig polisi a chyllideb i'r Cyngor
- Gweithredu polisïau'r Cyngor o dan arweiniad gwleidyddol yr Arweinydd
- Gwneud penderfyniadau gweithredol dirprwyedig, yn unol â pholisi a chyllideb y Cyngor

**Pwyllgorau Sgriwtini* (2)**

- Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
- Penodir 12 Aelod o'r Cyngor Sir i bob Pwyllgor Sgriwtini.
- Maen nhw'n craffu ar benderfyniadau
- Yn adrodd a/neu'n gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn a/neu'r Pwyllgor Gwaith

**Pwyllgorau'r Cyngor**

- Pwyllgor Apeliadau
- Pwyllgor Penodiadau
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Pwyllgor Trwyddedu
- Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
- Pwyllgor Polisi Cynllunio
- Pwyllgor Apeliadau Derbyniadau a Gwaharddiadau Ysgolion
- Pwyllgorau Sgriwtini
- Gwasanaethau Cymdeithasol - Y Pwyllgor Apeliadau
- Pwyllgor Safonau

*Gwahoddir rhiant lywodraethwyr a chynrychiolwyr yr Eglwys i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Sgriwtini lle bwriedir trafod swyddogaethau addysg yr Awdurdod a bydd ganddynt hawl i siarad a phleidleisio ar y materion hynny'n unig.

Yn ogystal â hyn, gall y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio gyfethol unrhyw berson ac eithrio Aelod o'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'i swyddogaethau trosedd ac anhrefn.

*Gall pob Pwyllgor Sgriwtini argymell bod y Cyngor yn penodi aelodau cyfetholedig ychwanegol nad ydynt yn pleidleisio i bob Pwyllgor Sgriwtini.

O fewn eu cylch gorchwyl, bydd y Pwyllgorau Sgriwtini yn:

- adolygu a/neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor;
- adrodd a/neu wneud argymhellion i'r Cyngor llawn a/neu'r Pwyllgor Gwaith a/neu unrhyw Bwyllgor ar y Cyd neu Bwyllgor Ardal mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau;
- ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion;
- arfer yr hawl i alw i mewn, ar gyfer ailystyried, benderfyniadau (o fewn ei gylch gwaith) a wnaed ond nas gweithredwyd eto gan y Pwyllgor Gwaith a/neu unrhyw Bwyllgorau Ardal; a
- chynnal adolygiadau o'r swyddogaethau o fewn ei faes gweithgarwch ac adrodd drwy'r Pwyllgor Gwaith i'r Cyngor.

Am fwy o wybodaeth am Gyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn, dilynwch y ddolen hon https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Y-Cyfansoddiad/Cyfansoddiad-Cyngor-Sir-Ynys-M%C3%B4n.aspx

[2] Am fwy o wybodaeth am Gyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn, dilynwch y ddolen hon https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Y-Cyfansoddiad/Cyfansoddiad-Cyngor-Sir-Ynys-M%C3%B4n.aspx

## 2.3 Perfformiad

Fel dangosir yn Deiagram 1, mae gan y Cyngor ddau Bwyllgor Sgriwtini sef:

- Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r
- Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

Bydd gwaith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn canolbwyntio ar roi sicrwydd ynglŷn â pherfformiad /darpariad yr holl wasanaethau, sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion gwasanaeth (fel yr amlinellwyd yn ei Gynllun Busnes Corfforaethol, Cyllideb Flynyddol, Fframwaith Cyllideb a Pholisi, Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu gynlluniau a pholisïau sy'n eu holynu) ac i gefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaol. Yn ogystal, bydd yn sgriwtineiddio perfformiad gwasanaethau o dan anghenion Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

Bydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn sgriwtineiddio perfformiad gwasanaethau o dan anghenion Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

Yn unol â Rhan 2 o Gyfansoddiad y Cyngor, mae'r Pwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor yn:

- adolygu a sgriwtineiddio ar y penderfyniadau a pherfformiad y Pwyllgor Gwaith a/neu Bwyllgorau a Swyddogion y Cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau unigol a thros gyfnod o amser;
- adolygu sgriwtineiddio perfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig;
- holi aelodau'r Pwyllgor Gwaith a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion am eu penderfyniadau a'u perfformiad, p'un ai yn gyffredinol o'i gymharu â chynlluniau gwasanaeth a thargedau dros gyfnod o amser, neu mewn perthynas â phenderfyniadau, cynlluniau neu brosiectau neilltuol;
- gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a/neu Bwyllgor priodol a/neu'r Cyngor yn deillio o ganlyniadau'r broses sgriwtini;
- adolygu a sgriwtineiddio perfformiad cyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal a gwahodd adroddiadau ganddynt drwy ofyn iddynt annerch y Pwyllgor Sgriwtini a phobl leol i sôn am eu gweithgareddau a'u perfformiad; a
- holi a chasglu tystiolaeth gan unrhyw berson arall (gyda'i ganiatâd).

Yn ogystal, pan gynhelir Adolygiadau Gwasanaeth mae disgwyl i'r Gwasanaethau ennyn barn y cyhoedd ar berfformiad y gwasanaeth perthnasol.

**Pwyllgor Gwaith**
Mae Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn ei gyfarfodydd cyhoeddus, yn rhoi cyfle i drigolion Môn leisio eu barn ar a herio'r Sgorfwrdd Corfforaethol, Cynllun y Cyngor am y flwyddyn ac ar Adroddiad perfformiad y Cyngor. Bydd hyn yn digwydd yn chwarterol.

## 3. Dulliau

### 3.1 Sut a phryd y gallwch gymryd rhan

Mae'r Cyngor yn cynnig nifer o ffyrdd i gymryd rhan yn ein gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori a gynhelir mewn partneriaeth â mudiadau'r trydydd sector neu a drefnir gan y gymuned.

Gallwch gysylltu â ni drwy'r prosesau ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol. Yn gyffredinol, dim ond am gyfnod penodol y bydd ymgynghoriadau'n para. Fodd bynnag, rydym yn croesawu adborth ar unrhyw ffurf ar unrhyw adeg drwy bwyllgorau, gweithgareddau grŵp neu'n annibynnol drwy e-bost, trwy ddeisebau neu drwy eich Aelod Etholedig lleol neu gyngor cymuned.

Rhestrir isod y gwaith sydd wedi ei wneud i sefydlu gwaelodlin o'r ffyrdd mae trigolion Môn yn cyfranogi ym mhenderfyniadau'r Cyngor. Mae tabl 1 isod yn rhestru nifer o ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol i drigolion gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r Cyngor:

**Tabl 1**

| Categori | Sylw | Dolen |
|---|---|---|
| Aelodau Etholedig (Cynghorwyr) | Mae gan Ynys Môn 14 ward gyda 35 Aelod Etholedig (Cynghorwyr) sydd yno i gynrychioli eu hetholwyr. I ddod o hyd i'ch Aelod Etholedig lleol i godi pryderon/wneud sylwadau, ewch i: | https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgMemberIndex.aspx?LLL=1 |
| Cynghorau Tref a Chymuned | Mae Cynghorau Tref a Chymuned yn gweithredu er budd y gymuned gyfan drwy wneud penderfyniadau ac argymhellion, ymgynghori a gwrando ar y trigolion i ddeall eu hanghenion, eu dymuniadau a'u pryderon. Maen nhw fel arfer yn cyfarfod unwaith y mis. I gysylltu â'ch cyngor tref a chymuned lleol i godi pryderon/wneud sylwadau, ewch i: | https://democracy.anglesey.gov.uk/mgParishCouncilDetailsList.aspx?LLL=0 |
| Pwyllgorau | Gall pobl edrych drwy strwythur pwyllgorau'r Cyngor a gweld agendâu, cofnodion ac adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau drwy fynd i; | https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieDocHome.aspx?Categories=-13004&bcr=1&LLL=1 |
| Pwyllgorau Sgriwtini | Mae strwythur yr Awdurdod Lleol yn cynnwys dau Bwyllgor Sgriwtini, a'u rôl yw darparu her gadarnhaol i wasanaethau i gynnal safon uchel gwasanaethau a sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgorau yn rheolaidd ar hyd y flwyddyn ddinesig ac mae sawl ffordd y gall y cyhoedd gymryd rhan yn y broses Graffu:<br>awgrymu pwnc i'w adolygu<br>fynd i gyfarfodydd y Pwyllgorau Sgriwtini fel arsylwyr<br>gwneud cais i siarad ar bwnc penodol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor – cyfeiriwch at Brotocol Cyfarfodydd y Pwyllgor ar Siarad yn Gyhoeddus i gael rhagor o wybodaeth a chanllawiau: | https://democracy.anglesey.gov.uk/mgCommitteeDetails.aspx?ID=153&LLL=0 |

| | | |
|---|---|---|
| | Siarad yn gyhoeddus ym Mhwyllgorau Sgriwtini (llyw.cymru)<br>cymryd rhan mewn ymchwiliadau Craffu ar ôl gwahoddiad gan banel adolygu Craffu<br>cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig sy'n berthnasol i ymchwiliad Craffu pan gewch eich gwahodd i wneud hynny. I gael gwybod mwy a gweld ein pwyllgorau presennol ac archif o rai blaenorol, ewch i; | |
| Ymgynghoriadau | Cynhelir ymgynghoriadau i gasglu adborth pobl ar bynciau penodol. I roi barn ar ymgynghoriadau presennol y gall pobl gymryd rhan ynddynt ewch i; | https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cymryd-rhan/Cymryd-rhan.aspx |
| Ymgysylltu | Mae barn a blaenoriaethau pobl yn cael eu casglu gan wasanaethau trwy ddull graddol. I roi barn ar yr ymrwymiadau presennol y gall pobl gymryd rhan ynddynt ewch i; | https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cymryd-rhan/Cymryd-rhan.aspx |
| Pleidleisio ac Etholiadau | Gall pobl gymryd rhan yn yr Etholiadau a bwrw eu pleidlais drwy'r post, pleidlais drwy ddirprwy a thrwy fynd i'r orsaf bleidleisio agosaf. Mae'r drefn hon yn unol â disgwyliadau cyfreithiol. I gael gwybodaeth am etholiadau a sut i gofrestru, ewch i'r dudalen ganlynol: | https://www.anglesey.gov.wales/en/Council/Council.aspx#as?folderIds=2864,3416 |
| Canmoliaethau, sylwadau a chwynion | Mae gan y Cyngor ffurflen ar-lein a ffurflen bapur lle y gall pobl ganmol, gwneud sylw neu gŵyn yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae'r ffurflen hon ar gael yn: | https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cymryd-rhan/Cymryd-rhan.aspx |
| Fforwm Tenantiaid | Mae'r Cyngor yn annog cyfranogiad tenantiaid. Isod rhestrir pedair ffordd wahanol y gall tenantiaid gymryd rhan:<br><br>Cynhelir y Fforymau Tai Gwarchod ddwywaith y flwyddyn – Mehefin a Rhagfyr fel arfer. Nod y fforwm hwn yw rhoi mwy o wybodaeth am Dai a gwybodaeth yn ymwneud â Thai i denantiaid Tai Gwarchod. Mae'r Cyngor yn darparu cludiant, bwyd a lluniaeth am ddim ar y diwrnod.<br><br>Mae Grwpiau Gorchwyl a Gorffen wedi'u targedu yn casglu barn tenantiaid i wella gwasanaethau yn y dyfodol.<br><br>Mae'r Grŵp Amgylcheddol yn cynnwys tenantiaid ac yn cael ei gefnogi gan y Tîm Cyfranogiad Tenantiaid. Bydd y grŵp yn asesu pob ffurflen gais a dderbynnir ac yn penderfynu a ydyn nhw'n gymwys ar gyfer y Gronfa Gwella Amgylcheddol a Chymunedol. Misoedd y bydd yn cyfarfod; rhwng Ebrill a Hydref (tua 3 – 4 cyfarfod anffurfiol)<br><br>Mae'r Grŵp Cyhoeddiadau yn cynnwys tenantiaid ac yn cael ei gefnogi gan y Tîm Cyfranogiad Tenantiaid. Nod y grŵp yw sicrhau bod yr holl | I gymryd rhan, cysylltwch â'r Tîm Cyfranogiad Tenantiaid dros y ffôn 01248 752983 e-bost, tenantiaid@ynys.llyw.cymru neu anfonwch neges drwy Facebook ar dudalen Tai Môn. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | ddogfennau a baratoir gan y Gwasanaethau Tai ar ffurf sy'n hawdd ei deall ac sy'n addas i denantiaid. | |
| Mentrau cymdeithasol | Mewn partneriaeth â'r Cyngor, mae Medrwn Môn yn cynnig sawl ffordd o gymryd rhan weithredol, y ddau brif ddull ymgysylltu ar hyn o bryd yw:<br><br>Rhwydwaith y Trydydd Sector: Fforwm ar gyfer grwpiau cymunedol a mudiadau'r trydydd sector yw hwn. Cynhelir cyfarfodydd rhwydwaith bob chwarter (yn seiliedig ar thema neu bwnc fel arfer) ac anogir grwpiau a mudiadau i drafod, darparu sylwadau ac adborth ar y pwnc/thema a chynllunio sesiynau yn y dyfodol. Mae gwybodaeth ac adborth o'r sesiynau'n cael eu casglu a'u hanfon fel ymatebion i ymgynghoriadau, fforymau eraill ac i lunwyr polisi.<br><br>Yn gyffredinol, fel Sefydliad, mae Medrwn Môn yn gwahodd pobl i ryngweithio drwy gyfryngau cymdeithasol, drwy e-bost neu dros y ffôn, trwy ei fws gwybodaeth, mewn digwyddiadau a chyfarfodydd, neu wyneb yn wyneb. | Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Lyndsey Campbell-Williams Lyndsey@medrwnmon.org |
| Cynllunio Lle | Cynllunio Lle: fforwm cymunedol yw hwn a gwahoddir pobl i ddweud wrthym sut maen nhw'n byw a gweithio'n eu cymunedau. Defnyddir hyn i nodi blaenoriaethau lles ar gyfer pob ardal ac i nodi themâu sy'n gyffredin ar draws yr Ynys.<br><br>Mae dwy elfen i'r rhaglen:<br>1. Mapio cymunedol: gwahoddir cymunedau i ymgysylltu â ni mewn unrhyw ffordd y maen nhw'n gyfforddus ag ef (trwy sgyrsiau wyneb yn wyneb, grwpiau ffocws, blychau pleidleisio, dulliau gweledol a lluniau, arolygon (ar-lein a phapur) ac ati)<br>2. Cynghreiriau Cymunedol: Sefydlir cynghreiriau ym mhob ardal ac maen nhw'n cyfarfod o bryd i'w gilydd i drafod eu blaenoriaethau dewisol. Mae cynghreiriau yn gwahodd pobl i gymryd rhan naill ai drwy fynychu eu cyfarfodydd, ymuno â grwpiau gorchwyl a gorffen, drwy arolygon, ar y cyfryngau cymdeithasol neu drwy siarad ag aelodau'r Gynghrair wyneb yn wyneb. | Susan Jones, Rheolwr Gweithredol (Tim Arweinyddiaeth) Susanjones4@ynysmon.llyw.cymru |
| Cyngor a Fforymau Pobl Hŷn Ynys Môn | Pwrpas y Cyngor Pobl Hŷn yw cynrychioli barn pobl hŷn Ynys Môn ar faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd, eu gofal cymdeithasol a'u lles. Mae'n gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, y sectorau gwirfoddol a phreifat a phobl hŷn, i ddatblygu polisïau ymhellach. Nod Cyngor Pobl Hŷn yw;<br>Bod yn llais i Bobl Hŷn ar Ynys Môn | Seiriol Edwards, Cydlynydd Strategaeth Pobl Hŷn a Gofalwyr seirioledwards@ynysmon.llyw.cymru |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | Gwerthfawrogi pobl hŷn<br>Gweithio gyda phobl hŷn<br>Gwrando ar bobl hŷn<br>Cefnogi Pobl Hŷn<br>Darparu cyfleoedd i bobl hŷn<br>4 cyfarfod y flwyddyn a gynhelir ar ddyddiad priodol yn dilyn Fforwm Ynys Môn ar gyfer Pobl Hŷn. | |
| Fforwm Pobl Hŷn Ynys Môn | Mae'r Fforymau Pobl Hŷn yn cryfhau lleisiau pobl hŷn ac yn cryfhau hawliau pobl hŷn ar yr un pryd. Mae fforymau'n rhoi cyfle i ferched a dynion hŷn gyfarfod, rhannu a thrafod eu profiadau a dod â'u lleisiau ynghyd, yn ogystal â chreu rhyngwyneb lle gall pobl hŷn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae cyfleoedd o'r fath hefyd yn galluogi pobl hŷn i ddysgu sut i gyfathrebu a chael mwy o lais; cael mynediad at wybodaeth a chanllawiau sy'n ymwneud â'u hawliau. Cynhelir Fforwm Pobl Hŷn bob chwarter ac maen nhw ar agor i aelodau'r cyhoedd ei fynychu. | Seiriol Edwards, Cydlynydd Strategaeth Pobl Hŷn a Gofalwyr seirioledwards@ynysmon.llyw.cymru |
| Fforwm Defnyddwyr Hamdden | Mae'r Fforwm Defnyddwyr Hamdden yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn i rannu profiadau pobl o ddefnyddio'r ganolfan a chyflwyno unrhyw newidiadau arfaethedig. Caiff cyfranogwyr eu hannog i roi eu barn. | MairEluned@ynysmon.llyw.cymru |
| Arolwg cwsmeriaid Hamdden | Anfonir dau arolwg y flwyddyn i gasglu adborth gan gwsmeriaid i gasglu gwybodaeth gan gwsmeriaid i wella gwasanaethau yn y dyfodol. | OwainJones@ynysmon.llyw.cymru |
| Fforwm Ieuenctid | Y cynllun yw datblygu strategaeth cyfranogiad plant a phobl ifanc ar draws yr awdurdod, gyda chynllun gweithredu clir sy'n cynnwys ailsefydlu grŵp Amlasiantaeth Plant a Phobl Ifanc a grwpiau penodol o bobl ifanc. | GeralltRoberts@ymysmon.llyw.cymru |
| Môn Actif | Cyfryngau cymdeithasol ac e-bost Môn Actif yw'r dull mwyaf cyffredin o gael adborth cwsmeriaid. Gall cwsmeriaid adael adborth a gofyn cwestiynau ar y llwyfannau hyn. | monactif@ynysmon.llyw.cymru |
| Partneriaeth Natur Leol | Mae Partneriaeth Natur Leol Ynys Môn yn rhwydwaith annibynnol o unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n byw neu'n gweithio ar yr Ynys sydd â diddordeb mewn natur. Mae'r Bartneriaeth hon yn agored i unrhyw un a hoffai gymryd mwy o ran mewn cadwraeth natur ar Ynys Môn ac a hoffai gael y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau, digwyddiadau a chyfleoedd ariannu perthnasol. Mae aelodau'n cymryd rhan drwy gylchlythyr, rhoi cyngor fel arbenigwr mewn maes cadwraeth, yn sicrhau cyllid ar gyfer prosiect, a/neu'n mynychu cyfarfodydd partneriaeth (bob dwy flynedd ar hyn o bryd). Yn fuan, rydym hefyd yn gobeithio cael cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i aelodau ryngweithio â nhw ymhellach. | AuroraHood@ynysmon.llyw.cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Cymdeithas Twristiaeth Ynys Môn | Mae busnesau twristiaeth sy'n gysylltiedig â'r Gymdeithas hon yn gallu rhoi sylwadau yn y cyfarfodydd chwarterol | Michael Thomas MichaelThomas@ynysmon.llyw.cymru |
| Cydbwyllgor Cynghori | Mae'r Cydbwyllgor Cynghori fel arfer yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a bydd yn cynghori'r awdurdod lleol, a chyrff eraill, ar y camau priodol er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli'r AHNE. | Alun M Owen AlunOwen@anglesey.llyw.cymru |
| Grŵp Defnyddwyr Porth Amlwch | Mae Grŵp Defnyddwyr Porth Amlwch yn cymryd rhan trwy gyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn mewn rôl ymgynghorol yn unig er mwyn hwyluso'r broses gyfathrebu dwy ffordd rhwng Awdurdod yr Harbwr (CSYM) a defnyddwyr/rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb yn y porthladd. | Am ragor o fanylion cysylltwch ag Iwan Huws Iwanhuws@anglesey.llyw.cymru |
| Grŵp Defnyddwyr Porthladd Biwmares a Phorthaethwy | Mae Grŵp Defnyddwyr Porthladd Biwmares a Phorthaethwy yn cymryd rhan trwy gyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn mewn rôl ymgynghorol yn unig er mwyn hwyluso'r broses gyfathrebu dwy ffordd rhwng Awdurdod yr Harbwr (CSYM) a defnyddwyr/rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb yn y porthladd. | Am ragor o fanylion cysylltwch ag Iwan Huws Iwanhuws@anglesey.llyw.cymru |
| Cruise Cymru | Mae Cruise Cymru yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru i greu trefniant ardderchog i deithwyr ar longau mordeithio sy'n ymweld â Chymru. Mae Cyngor Môn yn parhau i ddenu cwmnïau llongau mordeithio newydd ac rydym yn gweithio ar wella'r seilwaith ym mhorthladd Caergybi. Yn ddiweddar mae tîm twristiaeth Ynys Môn wedi trefnu a chreu Partneriaeth Hwylio Caergybi, sydd wedi cyfarfod unwaith, ac a fydd yn cyfarfod eto ddiwedd mis Hydref i roi eu barn. | Michael Thomas MichaelThomas@ynysmon.llyw.cymru Elaine Thomas Elaine.Thomas4@gov.cymru a Suzanne Thomas Suzanne.Thomas@gov.cymru |
| Fforwm Strategol Ynys Ynni | Mae rhanddeiliaid allweddol a datblygwyr ynni sy'n dangos diddordeb i ddatblygu'r ynys yn mynychu'r fforwm ac yn gwneud sylwadau yn y cyfarfodydd chwarterol. Dylid nodi bod presenoldeb trwy wahoddiad yn unig. | AngharadCrump@ynysmon.llyw.cymru |
| Cynghorau Ysgol | Mae gan bob ysgol ar Ynys Môn gyngor ysgol sy'n cael eu trefnu o fewn yr ysgolion. Mae'r Cyngor yn defnyddio cynghorau ysgol er mwyn ymgysylltu â chynllun y Cyngor a materion pwysig eraill. Yn ogystal â chynghorau ysgol, mae gan bob ysgol uwchradd ddau ddisgybl sy'n eistedd ar y cyrff llywodraethu. | |
| Radio lleol | Môn FM<br>Mae gwybodaeth a newyddion y cyngor yn cael eu rhannu gyda'r cyhoedd drwy Môn FM | www.monfm.co.uk |
| Llwyfannau cyfryngau cymdeithasol | Facebook / Twitter / Instagram ac ati<br>Fel arfer, rhoddir eitemau ar dudalen Ystafell Newyddion gwefan y Cyngor ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y mae'r Cyngor yn eu defnyddio | Dolen i dudalen Newsroom:<br><br>Newsroom (llyw.cymru) |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fodd i Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor Gwaith yn debygol o'u gwneud dros y misoedd nesaf.<br>Gall penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith gael eu gwneud fel corff ar y cyd neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith sy'n gweithredu o dan bwerau dirprwyedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau y mae angen eu gwneud, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion Arweiniol a'r Deiliaid Portffolio ar gyfer pob eitem.<br>Dylid nodi, fodd bynnag, fod y rhaglen waith yn ddogfen hyblyg gan na fydd pob eitem y mae angen penderfynu yn ei chylch yn hysbys ymlaen llaw ac efallai y bydd angen newid rhai amserlenni i adlewyrchu blaenoriaethau newydd ac ati. Felly, mae'r rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac mae'r diweddariadau'n cael eu cyhoeddi bob mis. | https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Docs-en/Council/Democracy/Executive-Forward-Work-Programme/Executive-blaengar-waith.pdf |
| Cofnodion o benderfyniadau | Gall y cyhoedd weld y penderfyniadau diweddar a wnaed gan y canlynol:<br>• Cyrff gwneud penderfyniadau'r Cyngor<br>• Arweinwyr y Cyngor drwy ddefnyddio pwerau dirprwyedig<br>• Y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion<br>• Deiliaid portffolio, swyddogion ac Arweinydd y Cyngor | https://democratiaeth.ynysmon.llyw.cymru/mgDelegatedDecisions.aspx?DR=18%2f05%2f2023-01%2f06%2f2023&RP=0&K=0&DM=0&HD=0&DS=2&Next=true&META=mgdelegateddecisions&V=0&LLL=1 |

### 3.2 Adnoddau a Mynediad Digidol

Gellir cysylltu â llawer o gyfranogwyr a gallan nhw gymryd rhan yn hawdd trwy adnoddau ar-lein fel llwyfannau rhyngweithio wedi'u targedu trwy gronfeydd data cysylltiedig â phwnc ynghyd â'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, isod amlinellir y ffordd yr ydym yn ceisio darparu ar gyfer cyfranogwyr anodd eu cyrraedd ac sydd wedi'u cau allan yn ddigidol yn yr adran Cyfathrebu heb adnoddau Digidol. Bydd pob gweithgaredd yn cael eu hadolygu i sicrhau bod yr adnoddau cywir ar waith i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gallu cymryd rhan a chyfrannu os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

### 3.3 Pwy sy'n gallu cymryd rhan

Mae ein holl drigolion/cymunedau a rhanddeiliaid (y rhai sydd â diddordeb neu ran mewn mater) yn gallu cymryd rhan. Mae hyn yn cynnwys pawb sy'n byw, gweithio, chwarae neu ymweld â'r ardal ac mae'n cynnwys pob grŵp oedran, o blant ifanc i oedolion hŷn ac nid yw'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un o'n grwpiau gwarchodedig.

Gallwch gymryd rhan fel unigolion, o fewn grwpiau, megis grwpiau cymunedol, cynghorau tref a chymuned neu gyrff llywodraethol a phroffesiynol ac ar ran neu gyda mudiadau trydydd sector ac undebau llafur.

Er ein bod yn ceisio rhoi cyfle i'r holl randdeiliaid gymryd rhan, weithiau nid yw hyn yn ymarferol oherwydd y pynciau amrywiol ac weithiau pwnc-benodol sy'n cael eu trafod. Er enghraifft, wrth

bleidleisio mewn etholiadau lleol a chyffredinol, er enghraifft, mae terfyn oedran o 16 oed a throsodd, y mae'n rhaid cydymffurfio ag ef yn gyfreithiol.

Wrth gynllunio ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd, ein nod yw sicrhau ein bod yn cyrraedd y bobl iawn. Gwneir hyn trwy fapio rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn cyrraedd yr holl grwpiau angenrheidiol. Yn aml gallai ddibynnu ar bwnc, lleoliad, a grŵp oedran neu ddemograffeg. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn golygu y bydd yr ymgynghoriadau a'r ymgysylltu hyn yn cau allan grwpiau neu unigolion eraill.

Ceisiwn ei gwneud yn glir pwy sy'n gallu cymryd rhan ac rydym yn anelu at wrando ar bob barn a safbwynt.

### 3.4 Sut y byddwn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth

Mae meithrin a chynnal perthynas agos â mudiadau'r trydydd sector yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Ceisiwn hybu ymwybyddiaeth o'n gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu trwy ymwneud â'n grwpiau trydydd sector a'u partneriaethau o fewn grwpiau cymunedol, gydag unigolion ac aelodau gweithgar o'n cymuned.

Mae gennym adran benodol ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu presennol a blaenorol ar ein gwefan www.anglesey.gov.wales/consultations a cheisiwn hybu hyn yn ehangach trwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy ein partneriaethau pan fydd gweithgareddau'n fyw.

Mae technoleg wedi datblygu'n sylweddol yn ddiweddar, ac mae pandemig Covid-19 wedi galluogi mwy o bobl i ddefnyddio/cysylltu drwy ddulliau digidol. Ein nod yw archwilio a datblygu adnoddau a ffyrdd digidol newydd o weithio, e.e. cyfarfodydd hybrid / rhithwir i gyrraedd cynulleidfa ehangach ac annog hygyrchedd ehangach

### 3.5 Cyfathrebu heb adnoddau digidol

Nid oes gan bawb fynediad at gyfrifiadur neu'r rhyngrwyd. Rhaid i'n holl ymarferion ymgysylltu ystyried sut i ymgysylltu â defnyddwyr heb adnoddau digidol fel mater o flaenoriaeth. Enghreifftiau o hyn yw trafod wyneb yn wyneb, trafod dros y ffôn a darparu copïau papur o ddogfennau perthnasol. Mae copïau papur o ddogfennau ymgysylltu / ymgynghori ar gael i randdeiliaid drwy Cyswllt Môn.

### 3.6 Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod holl drigolion Ynys Môn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chael cyfle cyfartal i rannu eu barn. Felly, mae angen i ni ystyried yn benodol y ddemograffeg ganlynol a'r ffordd orau o ymgysylltu â nhw. Mae rhai enghreifftiau i'w gweld isod:

### 3.7 Pobl ag anableddau

Pan fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth neu'n paratoi gwybodaeth i ymgysylltu ar-lein, mae angen i ni ystyried sut y gall pobl gael mynediad ati. Efallai y bydd angen dogfennau mewn print bras ar bobl â nam ar eu golwg neu ddefnyddio darllenydd sgrin i weld yr wybodaeth ac ymgysylltu. Mae angen i ni ystyried sut y bydd dogfennau, tudalennau gwe, arolygon ac ati yn cael eu darllen ar ddarllenydd sgrin. Enghraifft o hyn yw defnyddio strwythur pennawd hierarchaidd cywir neu ddarparu testun amgen i ddelweddau. Gyda fideos, efallai y bydd angen is-deitlau ar bobl â nam ar eu clyw. Efallai y bydd rhai pobl hefyd angen gwybodaeth

ar ffurf hawdd ei darllen. Mae dogfen hawdd ei darllen yn defnyddio iaith glir a brawddegau syml i gyfleu cynnwys y ddogfen lawn yn gywir.

### 3.8 Plant a Phobl Ifanc

Mae dyletswydd arnom i blant a phobl ifanc ein bod yn sicrhau ein bod yn estyn allan atynt mewn ffordd sy'n eu hannog i gyfranogi fel yr amlinellir yn y Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Atodiad B. Cydnabod Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc fel fframwaith ar gyfer cyfranogiad; byddwn yn parhau i hwyluso cyfleoedd i bobl ifanc gyfranogi a sicrhau ein bod yn dysgu ac yn eirioli dros eu hawl o dan Erthygl 12 y CCUHP.

Hawliau Plant - Comisiynydd Plant Cymru (childcomwales.org.uk)

Ar ôl ail-ddechrau yn dilyn cyfnod y cyfyngiadau symud oherwydd Covid, bydd Fforwm Ieuenctid CSYM yn gweithredu fel llwyfan i gael barn plant a phobl ifanc ar draws Ynys Môn. Byddwn yn cynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol. Byddwn yn sicrhau bod adborth priodol yn cael ei ddarparu trwy wahanol ddulliau a fydd yn cynnwys adroddiadau, cyflwyniadau ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn parhau i ddatblygu a chynnwys cyfranogiad plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc.

### 3.9 Cyfle gwella 1

**Gwella'r ffyrdd y mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn ein penderfyniadau ac yn dylanwadu arnynt**

### 3.10 Effeithlonrwydd

Mae'n bwysig peidio ag ymgynghori ac ymgysylltu'n ormodol. Yn aml mae pobl yn rhoi'r gorau i'w hamser rhydd a'u pellteroedd teithio i fynychu digwyddiadau ymgysylltu. Efallai y bydd gennym ni, neu ein partneriaid gwasanaethau cyhoeddus ddata perthnasol eisoes ar ôl ymgysylltu neu gynnal arolygon blaenorol. Efallai y byddwn hefyd yn gallu defnyddio data a gwybodaeth a gesglir o ymgysylltu parhaus.

### 3.11 <u>Dulliau Ymgysylltu</u>

**Ymgysylltu Parhaus**

Byddwn yn ymgysylltu'n barhaus â thrigolion Ynys Môn trwy gyfarfod â grwpiau rhanddeiliaid a thrwy gynnal sgyrsiau uniongyrchol â'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym yn datblygu llwyfan ymgysylltu digidol i helpu i gasglu'r sgyrsiau hyn a sicrhau bod y gwaith hwn yn parhau.

Mae'n bwysig bod y cyhoedd yn ymwybodol o sut mae'r Cyngor yn gweithio a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar unrhyw adeg benodol.

Mae'r tîm Cyfathrebu yn hybu ymwybyddiaeth o weithgareddau'r Cyngor drwy'r cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg sy'n cael eu rhannu â ffynonellau newyddion. Mae'r holl ddatganiadau i'r wasg hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

Mae gwefan y Cyngor yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gyda'r nod o wella adrannau sy'n berthnasol i wybodaeth ar gyfer y cyhoedd.

Mae manylion cyfarfodydd arfaethedig y Cyngor yn cael cyhoeddusrwydd drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a chyhoeddir blaen raglenni gwaith mewn modd amserol i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o eitemau i'w hystyried mewn cyfarfodydd sydd i ddod. Gall aelodau'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd ar-lein. Caiff cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet eu darlledu, ac maen nhw ar gael yn electronig am 6 mis ar ôl y cyfarfod. Mae dull i bobl leol fwydo i mewn i'r broses Graffu, mae hwn ar gael ar wefan y Cyngor. Mae manylion am eitemau agenda sydd ar ddod hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Hysbysir Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn am yr holl ddeisebau a dderbynnir gan y cyhoedd drwy Aelodau'r Cyngor a bydd cyfle i'r cyhoedd gyflwyno eu cais neu eu gwrthwynebiad. Mae manylion ar gael ar wefan y Cyngor.

### 3.12 Ymgysylltu Penodol

Rydym am i bobl gael llais cryf a gallu dylanwadu'n effeithiol ar ein penderfyniadau, yn enwedig pan fyddwn yn gwneud newidiadau i wasanaethau neu ddatblygu polisïau newydd. Rydym yn ymgynghori'n aml â phobl Ynys Môn. Gellir gweld enghreifftiau presennol ar dudalen ymgynghoriadau ein gwefan:

http://www.anglesey.gov.wales/en/browse/Get-involved/Consultations/Current-consultations/

Rydym hefyd yn defnyddio dulliau amrywiol eraill fel y nodir isod:

- Arolygon ar-lein
- Digwyddiadau Ymgysylltu
- Cyfarfodydd Cyhoeddus
- Grwpiau Ffocws
- Fforymau

Yn ystod Covid-19 roedd rhai mathau o ymgysylltu yn fwy heriol. Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu grwpiau ffocws wyneb yn wyneb ledled y sir gyda phwyslais ar ddefnyddio grwpiau presennol y mae trigolion yn gyfarwydd â nhw ac yn eu defnyddio.

### 3.13 Asesiadau Effaith

Pan fyddwn yn gwneud cynlluniau i greu polisi newydd neu newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau, mae'n rhaid i ni ystyried yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar ein dinasyddion, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae Asesiad Effaith yn dwyn ynghyd y deddfwriaethau perthnasol ac yn nodi sut y byddwn yn ystyried (pwyso a mesur yn briodol), wrth wneud penderfyniadau.

Pan fyddwn yn cynnal Asesiad Effaith:

- Rydym yn ystyried tystiolaeth berthnasol i ddeall effeithiau tebygol neu wirioneddol polisïau neu arferion ar y rhai sy'n agored i niwed yn ein cymunedau, gan gynnwys y rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Rydym yn ystyried ble y gallem leihau effeithiau negyddol.
- Rydym yn nodi cyfleoedd a gollwyd ac yn manteisio ar effeithiau cadarnhaol.
- Rydym yn ystyried hawliau'r plentyn.

Fel y soniwyd uchod, mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n dda â'i drigolion. Fodd bynnag, mae angen i CSYM archwilio a datblygu ymhellach ffyrdd o wella'r broses o ymgysylltu â'i drigolion, naill ai trwy ddulliau traddodiadol neu ddigidol.

### 3.14 Cyfle gwella 2

**Gwella ffyrdd o dderbyn a chynnwys adborth drwy ddefnyddio'r adnoddau traddodiadol a digidol sydd ar gael**

### 3.15 Cysylltu â'ch Cynghorydd lleol

Gallwch ddod o hyd i'ch cynghorydd lleol i drafod materion o fewn eich ward o'r rhestr ganlynol o'r holl gynghorwyr sir. Mae eu manylion cyswllt ar gael ar wefan y Cyngor yma:

https://democracy.anglesey.gov.uk/mgMemberIndex.aspx?bcr=1&LLL=0

Gallwch hefyd ddefnyddio'r ddolen uchod os nad ydych yn siŵr pwy yw eich cynghorydd, gallwch chwilio ar-lein drwy ddefnyddio'r ddolen uchod neu gysylltu â'r Cyngor a fydd yn gallu darparu'r wybodaeth hon i chi.

### 3.16 Cymryd rhan yn y broses Graffu

Mae gan Bwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor ddiddordeb mewn clywed barn pobl yr ynys a darganfod beth sy'n achosi pryder i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu.

Mae sawl ffordd y gallwch chi, fel aelod o'r cyhoedd, gymryd rhan yn y broses Graffu:

- drwy awgrymu pwnc i'w adolygu
- mynychu cyfarfodydd fel arsylwyr
- drwy wneud cais i siarad ar bwnc penodol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor – gweler y Protocol Siarad Cyhoeddus yng Nghyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini
- drwy gymryd rhan mewn ymchwiliadau Craffu ar ôl cael gwahoddiad gan banel adolygu Sgriwtini
- drwy gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig sy'n berthnasol i ymchwiliad Craffu pan gewch eich gwahodd i wneud hynny

Os hoffech awgrymu pwnc i'w adolygu, yna lawrlwythwch gopi Word neu PDF o'r ffurflen awgrym, a'i hanfon yn ôl at y Tîm Sgriwtini drwy'r post:

Sgriwtini, Busnes y Cyngor, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni LL77 7TW.

neu llenwch ein ffurflen ar-lein

**Cysylltu â Sgriwtini**

Sgriwtini
Busnes y Cyngor
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor Sir
Llangefni
Môn
LL77 7TW

E-bost: Scrutiny@anglesey.llyw.cymru

### 3.17 Mynychu cyfarfod a chymryd rhan ynddo

Gall unrhyw un sy'n byw yn Ynys Môn fynychu unrhyw gyfarfod o'r Cyngor ac arsylwi ar y trafodion a'r drafodaeth yn y siambr. Cynhelir cyfarfodydd yn Siambr y Cyngor yn Adeiladau'r Cyngor yn Llangefni sydd ag oriel wylio gyhoeddus. Yn ddiweddar, mae presenoldeb o bell

yng nghyfarfodydd y Cyngor wedi cael ei gyflwyno felly hyd yn oed os na allwch ddod i'r cyfarfod yn bersonol, efallai y bydd cyfle i chi gymryd rhan o bell.

Mae lleoliad, dyddiad ac amser dechrau'r cyfarfodydd ar gael ar yr agenda a baratoir ar gyfer y cyfarfod sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor.

Gall unrhyw un sy'n mynychu'r cyfarfod gael ei wahardd rhag bod yn bresennol pan fo eitem agenda wedi'i dosbarthu fel un sydd wedi'i heithrio. Fel arfer, eitemau eithriedig yw rhai lle gallai gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol gael ei thrafod a dim ond y rhai sy'n gallu pleidleisio ar y mater sy'n cael bod yn bresennol.

### 3.18 Ychwanegu eitem at agenda i'w thrafod

Mae dwy ffordd y gall aelod o'r cyhoedd annog pwyllgor i ystyried eitem a'i hychwanegu at agenda'r cyfarfod yn y dyfodol.

- Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd gysylltu â chadeirydd pwyllgor a gofyn iddo neu iddi ychwanegu eitem at y blaen raglen waith i'w thrafod yn y dyfodol.
- Mynychu cyfarfod o'r pwyllgor perthnasol a gofyn yn y cyfarfod o dan eitem - blaenraglen waith – i'r eitem gael ei hychwanegu i'w hystyried yn y dyfodol.

### 3.19 Cyflwyno cwestiwn i'r Cyngor

Mae gan aelodau'r cyhoedd hawl i ofyn cwestiwn i unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Gwaith mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn. Mae cwestiynau wedi'u cyfyngu i un cwestiwn gan bob unigolyn neu sefydliad a byddant yn cael eu gofyn yn y drefn y derbyniwyd nhw oni bai bod cadeirydd y Cyngor yn dymuno grwpio rhai cwestiynau gyda'i gilydd. Dylid cyfyngu ar gyfanswm yr amser a neilltuir i gwestiynau cyhoeddus mewn cyfarfod o'r Cyngor i 15 munud.

Er mwyn gofyn cwestiwn rhaid cyflwyno rhybudd ysgrifenedig neu drwy e-bost i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd heb fod yn hwyrach na hanner dydd dri diwrnod gwaith cyn diwrnod y cyfarfod. Rhaid i bob person sy'n cyflwyno cwestiwn roi ei enw a'i gyfeiriad.

Gellir gwrthod cwestiwn os:

- Nad yw'r cwestiwn yn ymwneud â mater y mae gan y Cyngor gyfrifoldeb amdano, neu sy'n effeithio ar y Sir.
- Ei fod yn ddifenwol, yn ddisylwedd neu'n sarhaus
- Ei fod yr un fath i raddau helaeth â chwestiwn a gyflwynwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf
- Yn gofyn am ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr holwr i ofyn y cwestiwn i'r Cynghorydd perthnasol. Os na all holwr sydd wedi cyflwyno cwestiwn ysgrifenedig fod yn bresennol, gall ofyn i'r cadeirydd ofyn y cwestiwn i'r cynghorydd ar ei ran. Gall y cadeirydd ofyn y cwestiwn, gan nodi y bydd y cynghorydd yn darparu ateb ysgrifenedig, neu, gan nad yw'r holwr yn bresennol gall benderfynu na fydd y pwyllgor yn ymdrin â'r cwestiwn.

Gall holwr ofyn un cwestiwn atodol heb rybudd i'r Cynghorydd a allai godi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ateb.

Bydd unrhyw gwestiwn na ellir ymdrin ag ef yn ystod y cyfarfod, naill ai oherwydd diffyg amser neu am nad yw'r cynghorydd perthnasol yn bresennol, yn cael sylw drwy ymateb ysgrifenedig.

### 3.20 Cyflwyno barn i bwyllgorau dethol

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, gall unrhyw aelod o'r cyhoedd fynychu un o'r ddau Bwyllgor Sgriwtini a gynhelir gan y Cyngor a chyflwyno eu barn ar eitem benodol ar yr agenda. Rhaid i'r Pwyllgor roi ystyriaeth lawn i'r safbwyntiau a gyflwynwyd gan aelod o'r cyhoedd o dan y trefniadau hyn. Mae rhagor o wybodaeth am graffu ar gael ar wefan y Cyngor yma.

### 3.21 Sut i ddod yn Gynghorydd

Bydd yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yn cael eu cynnal ym mis Mai 2027. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth i chi ar sut i sefyll mewn etholiad a'r hyn a ddisgwylir gennych pe baech yn cael eich ethol yn Gynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn.

### 3.22 Sefyll fel ymgeisydd

Rhaid i ymgeisydd ar gyfer etholiad gwblhau pecyn o bapurau enwebu y mae'n rhaid i'r ymgeisydd eu llofnodi ym mhresenoldeb tyst a fydd yn dyst i'r llofnod. Yna bydd angen i chi ennill mwyafrif y pleidleisiau yn y blwch pleidleisio os oes yna gystadleuaeth am y sedd. Mae nifer y pleidleisiau y mae angen i chi eu hennill yn dibynnu ar yr etholaeth y byddwch yn dewis sefyll drosti mewn etholiad. Mewn rhai rhanbarthau etholiadol mae dau neu dri aelod yn cynrychioli'r rhanbarth.

Bydd pecynnau enwebu ar gael yn gynnar yn 2027. Os hoffech gofrestru eich diddordeb, cysylltwch â'r Gwasanaethau Etholiadol ar 01248 750057.

Os ydych chi'n ystyried sefyll fel ymgeisydd ar gyfer plaid wleidyddol benodol, yna dylech gysylltu â sefydliad lleol y blaid honno yn gyntaf. Os ydych yn bwriadu sefyll etholiad fel Cynghorydd annibynnol, cysylltwch â ni a byddwn yn falch o roi mwy o wybodaeth i chi.

Mae cynghorwyr yn derbyn cyflog sy'n cael ei bennu bob blwyddyn gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gallant hefyd hawlio costau teithio a chynhaliaeth (telir cynhaliaeth am brydau a llety 'y tu allan i'r sir' yn unig) wrth ymgymryd â dyletswyddau swyddogol. Gall cynghorwyr hefyd hawlio tuag at gostau gofal a chymorth personol er mwyn iddynt gyflawni'r dyletswyddau y gymeradwyir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer cynllun peilot i ariannu addasiadau a chefnogaeth resymol i ymgeiswyr anabl sydd am gael eu hethol yn etholiadau Llywodraeth Leol. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yma.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am lwfansau drwy glicio ar y ddolen ganlynol:

[Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol | GOV. CYMRU]

### 3.23 Beth sy'n digwydd os cewch eich ethol?

Mae'r Cyngor yn cynnwys 35 o Gynghorwyr sy'n cael eu hethol bob pum mlynedd. Mae cynghorwyr yn atebol yn ddemocrataidd i drigolion eu hetholaeth. Mae dyletswydd bennaf y Cynghorwyr i'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai na phleidleisiodd drostynt.

Mae gan gynghorwyr hawl i gael cyflog sylfaenol. Gellir cael rhagor o wybodaeth am daliadau gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (dolen uchod). Gellir gweld copi o'r penderfyniadau ar gyfer 2022-23 hefyd ar wefan y Panel.

Mae gan gynghorwyr hawl hefyd i lwfansau teithio a gall y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu hefyd dderbyn ad-daliad am gostau gofal.

Ar ôl eu hethol disgwylir i Gynghorwyr fynychu sesiynau hyfforddi a datblygu amrywiol yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Darperir sesiwn sefydlu ar gyfer yr holl Gynghorwyr newydd a'r rhai sy'n dychwelyd yn ystod y 12 mis cyntaf yn y swydd, gyda hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu'n barhaus trwy ddigwyddiadau datblygu aelodau.

Disgwylir i gynghorwyr fynychu cyfarfodydd a phwyllgorau ac maen nhw wedi ymrwymo i gadw at ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr.

Fel cynrychiolwyr lleol, mae gan gynghorwyr gyfrifoldebau tuag at eu hetholwyr a sefydliadau lleol. Mae'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau hyn yn aml yn dibynnu ar yr hyn y mae'r cynghorydd am ei gyflawni a faint o amser sydd ar gael. Gall gynnwys: mynychu cyfarfodydd cyrff llywodraethu ysgolion yn eu ward, mynychu cyfarfodydd sefydliadau lleol fel cymdeithasau tenantiaid, cyrff sy'n effeithio ar y gymuned ehangach, codi materion ar ran aelodau'r cyhoedd, cynnal cymorthfeydd i drigolion godi materion a chyfarfod trigolion unigol yn eu cartrefi eu hunain.

### 3.24 Faint o amser mae'n ei gymryd?

Os ydych mewn gwaith ac yn bwriadu sefyll fel ymgeisydd, efallai y byddwch am ofyn i'ch cyflogwr pa ddarpariaethau sydd ganddynt i'ch galluogi i fod yn bresennol ar gyfer busnes y Cyngor. Amcangyfrifir bod cynghorwyr, ar gyfartaledd, yn treulio'r hyn sy'n cyfateb i dri i bedwar diwrnod yr wythnos ar fusnes y cyngor. Yn amlwg, mae rhai cynghorwyr yn treulio mwy o amser na hyn – ac eraill yn treulio llai.

Mae dolen i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a baratowyd ar y cyd ag awdurdodau lleol ac sy'n ganllaw defnyddiol i ddarpar ymgeiswyr:

BYDDWCH YN GYNGHORYDD. SICRHEWCH MAI CHI YW'R NEWID.

### 3.25 Cyfleusterau a chymorth cynghorwyr

Mae'r Uned Gwasanaethau Democrataidd yn gweinyddu cyfarfodydd y Cyngor ac yn darparu gwasanaeth cefnogi pwrpasol, gan ddarparu cyngor ar arferion a chyfraith yn ymwneud â chyfarfodydd i Gynghorwyr, swyddogion a'r cyhoedd a chymorth i bob Cynghorydd gydag ymholiadau a cheisiadau gweinyddol cysylltiedig.

Bydd cynghorwyr, unwaith y cânt eu hethol, yn cael dyfais tabled ddigidol, gliniadur a chyfeiriad e-bost @ynysmon.llyw.cymru y mae'n rhaid ei ddefnyddio wrth gynnal busnes y Cyngor. Mae holl gyfarfodydd y Cyngor yn ddi-bapur ac argymhellir bod pob ymgeisydd yn gallu ei ddefnyddio'n hyderus neu'n barod i gael hyfforddiant.

Mae'r Cyngor yn Awdurdod dwyieithog ac, fel Cynghorydd, byddwch yn gallu gweithio yn eich dewis iaith, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg, ac mae cyfleusterau cyfieithu ar gael ym mhob cyfarfod o'r Cyngor i hwyluso hyn. Mae hyfforddiant Cymraeg hefyd ar gael i unrhyw Gynghorwyr sy'n dymuno dysgu'r iaith.

### 3.26 Y manteision i Gynghorwyr o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn offeryn pwerus i Gynghorwyr, gan eu helpu i ymgysylltu â chymunedau, codi ymwybyddiaeth o faterion cymunedol, digwyddiadau neu fentrau'r Cyngor ac i ofyn am farn a derbyn adborth.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi newid sut mae gwleidyddiaeth yn gweithio, mae'n gwneud gwleidyddion a sefydliadau cyhoeddus yn fwy hygyrch, yn caniatáu i unigolion gael eu lleisiau eu clywed ac yn helpu i rannu syniadau neu hyrwyddo ymgyrchoedd.

Drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol gall Cynghorwyr:-

- Ddysgu am faterion lleol, a phryderon yn eu ward.
- Dod o hyd i'r newyddion a'r cyhoeddiadau diweddaraf gan y Cyngor Sir, awdurdodau lleol eraill, Llywodraeth Cymru a sefydliadau fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Hyrwyddo eu rôl a'r hyn rydych chi'n ei wneud o ddydd i ddydd.
- Rhannu gwybodaeth yn gyflym ac ar unwaith a chael barn eich etholwyr.

Mae llawer o gynghorwyr eisoes yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, fel Cynghorydd, mae pethau ychwanegol i'w hystyried wrth eu defnyddio, gan gynnwys y Cod Ymddygiad a rheoli disgwyliad.

Ar ôl cael eu hethol, gwahoddir Cynghorwyr i fynychu sesiwn sefydlu ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac mae gan y Cyngor fodiwl e-ddysgu ar gael hefyd.


Bydd pob Cynghorydd yn bersonol gyfrifol am y cynnwys y maent yn ei gyhoeddi a rhaid iddynt gadw at y Cod Ymddygiad wrth bostio gwybodaeth gan fod y Cod Ymddygiad yn berthnasol i gynnwys ar-lein a chyfryngau cymdeithasol, a thrwy gyfeirio ar-lein at eu rôl fel Cynghorydd, ystyrir eu bod yn gweithredu yn rhinwedd eu 'swyddogaeth swyddogol' a bydd y Cod yn berthnasol.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi darparu arweiniad am ddim i Gynghorwyr ynghyd â rhai awgrymiadau a chyngor o ran trin cam-drin ar-lein.

Cyfryngau cymdeithasol a cham-drin ar-lein - CLILC (wlga.cymru)

## 4. Gwerthuso

### 4.1 Dadansoddi ac adborth




Er mwyn i unrhyw gyfranogiad y cyhoedd fod yn llwyddiannus, mae'n hanfodol ein bod yn rhoi adborth i'r rhai a gymerodd ran. Rydym yn cydnabod y gall hyn fod yn heriol ac rydym yn



DRAFT

edrych ar opsiynau i ddatblygu hyn ymhellach a sicrhau y gallwn hwyluso'r broses hon i staff a chymunedau'r Cyngor gael mynediad at adborth a'i dderbyn.

Unwaith y bydd y gweithgareddau cyfranogi drosodd, byddwn yn eich diweddaru a'ch cynnwys drwy roi gwybod i chi am y canlyniadau neu roi cyfle i chi, naill ai drwy e-bost, llythyr, trafodaeth wyneb yn wyneb neu ddulliau eraill, gyfranogi ymhellach ar yr un pwnc, os byddwch yn dewis cymryd rhan.

Rydym yn gwerthfawrogi eich mewnbwn a'ch gwybodaeth, felly mae'n bwysig sicrhau ein bod yn ystyried pob llais a sylw. Gwneir hyn drwy gyfeirio at eich mewnbwn mewn dogfennau cryno neu adroddiadau ar y cyfranogiad.

Mae pob ymgysylltiad ac ymgynghoriad yn wahanol, felly bydd amserlenni'n amrywio. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i roi adborth i'n holl gyfranogwyr yn dilyn gweithgareddau cyfranogiad y cyhoedd, naill ai'n unigol neu ar y cyd. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn ffordd a bennir gan y swyddog arweiniol e.e.:

- Hysbysu cyfranogwyr ar lafar / drwy e-bost / ffôn
- Dosbarthu adroddiadau o'r ymatebion a'r penderfyniadau i gyfranogwyr
- Crynodeb o'r dadansoddiad ar wefan gorfforaethol ar ein tudalennau ymgynghori
- Ystyried y cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau ar-lein.

### 4.2 Eich preifatrwydd

Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut rydym yn defnyddio gwybodaeth, cyfnodau cadw a'ch hawliau yn ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan, https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Diogelu-Data-a-Rhyddid-Gwybodaeth/Polisi-Diogelu-Gwybodaeth-a-Hysbysiad-Preifatrwydd.aspx

### 4.3 Gwaith y bydd angen ei flaenoriaethu dros y cyfnod nesaf:

1. Gwella'r ffyrdd y mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn ein penderfyniadau ac yn dylanwadu arnynt
2. Gwella ffyrdd o dderbyn a chynnwys adborth drwy ddefnyddio adnoddau traddodiadol a digidol sydd ar gael

**Ystyried ffyrdd o fesur llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant cyfranogiad neu ddatblygu dangosfwrdd cyfranogiad.**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **17 Hydref, 2023** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2023/24** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2023/24<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2023/24 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2023

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2023/24 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

Mae’r ddogfen hon ar gael yn ddwyieithog / *This document is available bilingually*

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2023→ Ebrill, 2024**
**[Fersiwn dyddiedig 09/10/23]**

## Nodyn i Randdeiliaid a’r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi’i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio’r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â’r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk ]



| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2023 (23/05/23)** | **Mai, 2023 (23/05/23)** |
| Ethol Cadeirydd: 2023/24 | Ethol Cadeirydd: 2023/24 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 | Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 |
| | |
| **Mehefin, 2023 (20/06/23) – Ch4** | **Mehefin, 2023 (21/06/23)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2022/23 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau’r Gymraeg: 2022/23<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2022/23 → Mesur Cynnydd<br>• Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg |
| Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu’r Gymraeg | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2022/23 |
| Cynllun Rheoli’r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | Cynllun Rheolaeth Cyrchfan |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2023/24 | Adroddiad Cynnydd Ch 4 2022/23 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Medi, 2023 (19/09/23) – Ch1** | **Medi, 2023 (19/09/23) - Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2023/24 | Ymgynghoriad ar Ddyfodol Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru – sylwadau Cyngor Sir Ynys Môn |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2022/23 |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2022/23 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Enwebu Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Cyllid | Siarter Craffu Addysg |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Hydref, 2023 (18/10/23) – cyfarfod wedi'i ddiddymu** | **Hydref, 2023 (17/10/22)** |
| | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2022/23 |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2022/23 |
| | Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus: 2023-2028 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| | **Tachwedd, 2023 (13/11/2023) – Cyfarfod Ychwanegol** |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | |
| **Tachwedd, 2023 (21/11/23) - Ch2** | **Tachwedd, 2023 (22/11/23) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2023/24 | Strategaeth Gwastraff ac Ail-gylchu: 2023/2028 |
| Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol:2023/2028 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2022/23 |
| Strategaeth Tai Gwag: 2023/28 | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ionawr, 2024 (18/01/24) – Cyllideb 2024/25** | **Ionawr, 2024 (16/01/24)** |
| Sefydlu Cyllideb 2024/25 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Ch2: 2023/24 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu (ardal Caergybi) |
| Strategaeth Rheoli Asedau (Gwasanaeth Tai) | |
| Asesiad y Farchnad Dai Leol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Chwefror, 2024 (27/02/24) – Cyllideb 2024/25** | **Chwefror, 2024 (06/02/24) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2024/25 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Mawrth, 2024 (12/03/23) - Ch3** | **Mawrth, 2024 (13/03/24)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2023/24 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2022/23 |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | Adroddiad Cynnydd Ch3:2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2024/2054 | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ebrill, 2024 (16/04/24)** | **Ebrill, 2024 (17/04/2024)** |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu’r Cynllun Llesiant |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |

**Eitemau i’w rhaglennu**

| **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
|---|---|
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2021/31 – Ystad Mân-ddaliadau | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd (Tachwedd, 2024 ac Ionawr, 2025) |
| Cyfrifiad 2021 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Trawsnewid a Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Medrwn Môn |
| | Craffu ar Bartneriaethau |
| | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |

| | |
|---|---|
| | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn |
| | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn |
| | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/223) |
| | |